

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

30 Awst 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Materion Personol**
3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 5 - 12)**
5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda (Tudalennau 13 - 18)**
 - a) Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar y Cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor
 - b) Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar Heriau Recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes

c) Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu mewn perthynas ag 'Y Dyfodol', Cellan

8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Adolygu'r trefniadau gweithio hybrid gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 19 - 34)**
9. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch y Polisi Menopos gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 35 - 62)**
10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Cynllun y Gweithlu 2023-2028 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 63 - 110)**
11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Stryd Morgan, Aberteifi) (Gorchymyn Diwygio Rhif 8) 2023
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 111 - 136)**
12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Gorchymynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 137 - 170)**
13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Traeth y Borth
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 171 - 284)**
14. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democraidaidd ynghylch Adolygiad o Ddosbarthau Etholiadol a Mannau Pleidleisio 2023
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 285 - 290)**
15. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 291 - 332)**
16. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2023/24 - Perfformiad Ariannol
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 333 - 358)**

17. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 359 - 364)**
18. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 1
ER GWYBODAETH (Tudalennau 365 - 372)**
19. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Perfformiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys 2023/24
ER GWYBODAETH (Tudalennau 373 - 382)**
20. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2023.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cyngorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein a Caryl Roberts.

(10.00am- 1.31pm)

23 Ymddiheuriadau

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

24 Materion Personol

- i. Cydymdeimlwyd â theulu a chydweithwyr yr Arolygydd Gareth Earp o Heddlu Dyfed-Powys yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar.
- ii. Hefyd cydymdeimlwyd â theulu Dr Llŷr Roberts, academydd ac Ysgrifennydd yr Eisteddfod Genedlaethol, yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a oedd ynghlwm â chystadleuaeth Talwrn y Beirdd ar gyfer ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol, a gynhaliwyd yn ddiweddar yn ystod Gŵyl Fawr Aberteifi.
- iv. Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn a oedd yn dathlu 185 o flynyddoedd eleni.
- v. Estynnwyd llongyfarchiadau i Kay Morris ac Eryl Jones am drefnu gweithdy llwyddiannus ar roboteg i dros 300 o ddisgyblion.
- vi. Estynnwyd llongyfarchiadau i drefnwyr Gŵyl Fawr Aberteifi ar gynnal gŵyl lwyddiannus ac i'r Cyngorydd Maldwyn Lewis, Cadeirydd y Cyngor a Llywydd yr Eisteddfod.
- vii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Mia Lloyd ar gael ei dewis i gynrychioli Tîm Cymru yng Ngemau Ieuencid y Gymanwlad yn Trinidad a Tobago ym mis Awst.
- viii. Dymunwyd yn dda i Marc Chapple, Rheolwr Prosiect – Cynllun Amddiffyn yr Arfordir, ar ei ymddeoliad ar ôl 43 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Sir yng Ngheredigion.

25 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- i. Datganodd y Cyngorydd Keith Henson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 30.

Tudalen 6

- ii. Datganodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 30, 35, 36 a 37.
- iii. Datganodd y Cynghorydd Maldwyn Lewis fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 39, 43 a 45 a gadawodd y cyfarfod cyn i'r materion yma cael eu trafod.

26 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

27 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd

Dim.

28 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Dim.

29 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda

- a. Adroddiad gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar Gysylltedd Digidol

Nodwyd yr adroddiad.

30 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Darpariaeth Cartref Gofal yn Hafan y Waun yn Aberystwyth PENDERFYNIAD:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Cydnabod a nodi'r Materion Masnachol (gan gynnwys Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a Chyfreithiol) a gynhwysir yn Atodiad 1 (Eitem EITHRIEDIG).
3. Awdurdodi Swyddogion i fwrw ymlaen â'r dull gweithredu Cam 1 arfaethedig, sy'n cynnwys 'Cynllunio a gweithredu'r broses o drosglwyddo Cartref Gofal Hafan y Waun o MHA i berchnogaeth y Cyngor gan gynnwys trosglwyddiad lesddaliad a reolir y cytunwyd arno ar y cyfle ymarferol cynharaf, a chynnwys cwblhau'r holl gytundebau cyfreithiol angenrheidiol i gyflawni hyn'.
4. Awdurdodi Swyddogion i wneud a gweithredu gwaith datblygu mewn perthynas â'r dull gweithredu Cam 2 arfaethedig.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Diogelu dyfodol agos Cartref Gofal Hafan y Waun a chaniatáu i Swyddogion symud ymlaen fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

31 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 31 ar yr agenda, Atodiad 1, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Tudalen 7

fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

32 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch System Brynu Ddeinamig ar gyfer Gofal Cartref

PENDERFYNIAD:

Cytuno i ddyfarnu lleoedd ar y System Brynu Ddeinamig i'r darparwyr sydd wedi bod yn llwyddiannus, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 diwrnod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod gwasanaethau gofal cartref yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal a chymorth a aseswyd, yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

33 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 33 ar yr agenda, Atodiad A, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

34 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Trefniadau Cydweithio Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu Cymru (awdurdod lleol) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Cytuno bod Cyngor Sir Ceredigion yn llofnodi Cytundeb y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

Tudalen 8

- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Bydd cytuno ar y cynigion hyn a llofnodi Cytundeb y Cyd[1]bwyllgor yn rhoi cydweithrediad Cyngor Sir Ceredigion yn y trefniadau cydweithio hyn ar sail ffurfiol yn ogystal ag egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cynnal a chyflawni swyddogaethau cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau mabwysiadu a maethu.

35 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Adroddiad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC) gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- i. Cytuno ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer 2023 – 2026 (Atodiad A).
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I sicrhau cyd-weithio cadarn yn y meysydd penodol a amlinellwyd yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion am y cyfnod 2023 – 2026.

36 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Canllawiau Pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau - model cymorth cynhwysol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- i. Cytuno i fabwysiadu cynnwys y canllaw pontio ar gyfer ysgolion a lleoliadau Ceredigion.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Y rheswm dros y penderfyniad:

- i. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Trawsnewid ADY. Bydd y ddogfen yn sicrhau bod trefniadau pontio ar draws Ceredigion yn gyson gynhwysol ac o'r safon uchaf.
- ii. Datblygu cysondeb gweithredu a phontio llyfn ar gyfer plant a phobl ifanc trwy gydol eu gyrfa addysgol ac i fyd oedolion, gan eu galluogi i gyrraedd eu potensial.

37 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Polisi Derbyn Ysgolion 2024/2025

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau'r Polisi derbyn disgyblion 2024/2025.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I gael polisi mewn lle ar gyfer 2024/2025.

38 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

39 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2023/24

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r cyfraddau tâl canlynol ar gyfer yr Uwch Grwner a'r Crwner Cynorthwyol ar gyfer 2023/24 yn unol â Chylchlythyr 68 y JNC:

1) Uwch Grwner rhan-amser

i) Cyflog Cadw o £22,200 y flwyddyn i gwmpasu cadw/argaeledd gwasanaeth y tu allan i oriau o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024.

ii) Defnyddio'r gyfradd ddyddiol o £489 i dalu cyflog blynyddol o £12,225 i'r Crwner (25 diwrnod y flwyddyn gan gynnwys diwrnodau hyfforddiant o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024).

Cyfanswm: £34,425 y flwyddyn (ynghyd ag argostau).

2) Crwner Cynorthwyol:

Diwrnod llawn: £417;

Hanner diwrnod: £209.

Y rheswm dros y penderfyniad:

I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chylchlythyr y JNC; lliniaru heriau a diogelu arian cyhoeddus.

40 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Ymgynghoriad Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

PENDERFYNIAD:

Rhoi caniatâd i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn sicrhau bod Polisi'r Cyngor ar gyfer Rheoli Harbyrau Ceredigion yn addas i'w ddiben.

41 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron

PENDERFYNIAD:

1) Nodi'r adroddiad a'r trafodaethau sy'n dal i fynd rhagddynt gyda LIC.

2) Os bydd trafodaethau swyddogion gyda Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus ac os ceir cymeradwyaeth grant ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn, bod trafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal gyda'r contractwr a ffefrir gyda'r bwriad o gynnig contract hyd at y gwerth uchaf a amlinellwyd yn eu cynnig am y tendr.

3) Fel bod yr awdurdod i ddyfarnu'n ffurfiol a chymeradwyo derbyn tendr ar gyfer contract cynllun Amddiffyn yr Arfordir Aberaeron yn cael ei ddirprwyo i Aelodau'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, a thros Gyllid a Chaffael, mewn ymgynghoriad â'r

Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Chyllid a Chaffael.

- 4) Nodi, gan dybio y ceir cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Achos Busnes Llawn, y bydd angen hyd at tua £550k ychwanegol o arian cyfatebol gan y Cyngor a fydd yn cael ei adlewyrchu yn y Rhaglen Gyfalaf Aml-Flwyddyn.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Galluogi i waith adeiladu Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron fynd rhagddo cyn gynted â phosibl unwaith y derbynir cymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Busnes Llawn ac unwaith y bydd cyllid grant LIC wedi'i gadarnhau.

42 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 42 ar yr agenda, Atodiad A, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

43 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Diweddariad ar y Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus gan gynnwys yr ymarfer caffael diweddar

Nodwyd yr adroddiad.

44 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 44 ar yr agenda, Atodiad 1, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

45 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Tendrau ar gyfer Gwasanaethau Bws Lleol 526, 585 a 588

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo dyfarnu'r contractau i'r cynigwyr llwyddiannus.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi i'r gwasanaethau barhau i weithredu o 1 Medi 2023 ymlaen.

46 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 46 ar yr agenda, Atodiad 1, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

47 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Aildro'r Rhaglen Gyfalaf

Nodwyd yr adroddiad.

48 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn - 2023/24-2025/26

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2023/24 a 2025/26, fel y'i hamlinellir yn Atodiad A.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiweddaraf.

49 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Aildro Refeniw Rheoladwy 2022/23

Nodwyd yr adroddiad.

- 50 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Perfformiad Rheoli'r Trysorlys 2022/23**
Nodwyd yr adroddiad.
- 51 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Grantiau a ddyfarnwyd o dan Gynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion / Cronfa'r Degwm**
Nodwyd yr adroddiad.
- 52 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (17.03.23)**
Nodwyd yr adroddiad.
- 53 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2022-2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nododd y Cabinet yr adroddiad a chytunodd ag argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:
- y dylai cyfranogwyr yr holl ymarferion ymgysylltu dderbyn y canlyniadau.
 - bod adroddiad monitro sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.
- 54 Adendwm- Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch ystyried dull tymor canolig o gomisiynu gwasanaeth 'Tîm a Reolir' ar gyfer y Tîm Gofal a Gynlluniwyd, Porth Cynnal, i sicrhau bod digon o gapasiti i ddarparu gwasanaeth diogel a hyfyw yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor o ran diogelu**
PENDERFYNIAD:
1. Nodi cyngor y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal, sef bod yr amser wedi dod i benderfynu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel i blant a'u teuluoedd drwy ddefnyddio Tîm a Reolir dros gyfnod hirach.
 2. Awdurdodi'r Swyddogion i fynd ati i gomisiynu, drwy broses gaffael briodol, gwasanaeth cymwys Tîm a Reolir i ymgymryd â dyletswyddau amddiffyn plant fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
- 55 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Mynegodd yr Arweinydd ac Eifion Evans, Prif Weithredwr, eu diolch i Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Porth Cynnal wrth iddi adael ei rôl gyda'r awdurdod. Diolchwyd iddi am ei gwaith rhagorol a dymunwyd yn dda iddi yn y dyfodol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
5 Medi 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	5 Medi 2023
LLEOLIAD:	Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar y Cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.
DIBEN YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023

Cefndir:

Bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn ystyried yr adroddiad ar y Cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor, fel y gofynnwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar 10 Chwefror 2023 yn ystod trafodaethau ynghylch y Ffioedd a'r Costau ar gyfer 2023/24.

Rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Y cefndir
- Proffil y tocynnau
- Yr ystyriaethau
- Yr effaith ariannol
- Yr hyn sydd i'w ystyried a'r opsiynau

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol.

- Cyflwynodd yr Aelod Etholedig dros Lanbedr Pont Steffan gynnig i roi 2 awr o barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cwmins a'r Rwceri yn Llanbedr Pont Steffan gan y byddai hyn, yn ei barn hi, yn cefnogi busnesau ac yn annog twristiaid i ymweld â'r dref. Fel rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, roedd yr Aelodau wedi cytuno ar flwyddyn arall o barcio am ddim ym meysydd parcio talu ac arddangos Tregaron a Llandysul.
- Cyfrannodd Aelodau eraill at y drafodaeth am y cynnig a gyflwynwyd a rhannodd yr Aelodau Etholedig dros Aberaeron ac Aberteifi eu barn â'r Pwyllgor ynglŷn â pharcio am ddim yn y meysydd parcio yn eu wardiau.

Argymhellion:

Yn dilyn cynnig gan Aelodau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell:

- i. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth; ac
- ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Y Cyngorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	5 Medi 2023
LLEOLIAD:	Siambur y Cyngor/Hybrid
TEITL:	Heriau Recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2023

CEFNDIR:

Rhoddyd adroddiad manwl i Aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â'r heriau recriwtio yn y Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes, yn unol â'r cais a wnaed gan yr Aelodau yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth hir, ystyriodd yr Aelodau'r argymhellion canlynol:

1. Nodi'r sefyllfa bresennol o ran y defnydd pwysig o weithwyr asiantaeth yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.
2. Nodi'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud i ymateb i'r her o recriwtio gweithwyr yn y sector hwn.
3. Rhoi adborth ac awgrymu unrhyw atebion posibl eraill i ddatrys yr her recriwtio.
4. Cymeradwyo bod swyddogion yn cydweithio â phartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i bwysu a mesur cyfleoedd creadigol ac arloesol i ddarparu atebion mwy hirdymor.

ARGYMHELLION:

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell i'r Cabinet:

1. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi argymhelliad 1 a 2 uchod,
2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer graddfa gyflog genedlaethol ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol, wedi'i hariannu'n llawn;
a
3. Bod yr awdurdod yn cefnogi mwy o gydweithio gyda sefydliadau academiaidd megis Prifysgol Bangor i ddatblygu hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan roi sylw arbennig i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol dwyieithog.

Y Cyngorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	5 Medi 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Argymhelliad gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu mewn perthynas ag 'Y Dyfodol', Cellan
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023

CEFNDIR:

Bu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn ystyried yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 - Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 (2022-2023) yn ei gyfarfod ar 6^{ed} Gorffennaf 2023.

Rhodddwyd trosolwg o'r canlynol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad:

- Cefndir
- Sefyllfa ar hyn o bryd
- Pryderon
- Camau i fynd i'r afael â bylchau
- Cynnal/gwella darpariaeth (poblogaeth - genedigaethau byw, lleoedd gofal plant, tlodi plant, Allgymorth Dechrau'n Deg)
- Y Gymraeg (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)

Rhannodd swyddogion fideo byr o'r gwaith a wnaed mewn gwahanol sefydliadau gofal plant ledled y sir yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am grantiau gan y darparwyr.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol.

Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod 'Y Dyfodol', a arferai fod yn feithrinfa breifat yng Nghellan, yn wag. Dywedwyd nad oedd gan yr awdurdod lleol ddim arian i sicrhau'r ddarpariaeth a bod y swm bach y pen o raglen Dechrau'n Deg ar gyfer ariannu darpariaeth gofal plant. Yn ogystal, mae telerau Dechrau'n Deg yn benodol ac mae dyraniad cyllid yn dibynnu ar gôd post cyfeiriad y plentyn ac a yw o fewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Eglurodd swyddogion na fyddai ystyried prynu'r cyfleuster yng Nghellan yn bodloni'r angen na'r galw am ddarpariaeth Dechrau'n Deg, gan ei fod y tu allan i'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a nodwyd.

Yn dilyn cynnig gan Aelodau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymhell:

bod y Cabinet/Grŵp Arweiniol yn archwilio opsiynau i lesio/prynu 'Y Dyfodol' yng Nghellan, o ystyried yr angen am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal.

**Y Cynghorydd Endaf Edwards
Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	5 Medi 2023
Teitl:	Adolygu'r trefniadau gweithio hybrid
Pwrpas yr adroddiad:	Cymeradwyo dull y Cyngor o weithio'n hybrid
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, a Phobl a Threfniadaeth

CEFNDIR:

Gan ddechrau ym mis Mawrth 2020, gorfodwyd cyfyngiadau symud cenedlaethol yn sydyn yn ystod pandemig Covid-19, a oedd yn cynnwys y gofyniad i aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Mae'r staff wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r newid hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn bosibl o ganlyniad i'r camau a gymerwyd eisoes tuag at ffordd fwy hyblyg a doethach o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg presennol.

Prosiect 'Y Ffordd Rydym yn Gweithio'

Er mwyn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, sefydlodd y Cyngor y prosiect 'Y Ffordd Rydym yn Gweithio' i adolygu'r arferion gweithio o bell a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu sylweddol â staff i gasglu adborth, profiadau, syniadau a gofynion o ran y gweithle yn y dyfodol er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol. Cafwyd lefel uchel o ymgysylltu â gweithwyr ac mae'r themâu sy'n deillio o'r ymarfer hwn yn ogystal ag ymchwil, tueddiadau ac uchafbwyntiau cenedlaethol wedi llywio datblygiad y strategaeth gweithio hybrid.

Dangosodd yr ymarfer ymgysylltu â staff fod llawer o fanteision i weithio gartref, ond roedd hefyd yn cydnabod bod heriau i rai aelodau o staff. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys cyfarfodydd rhithiol, gwell cynhyrchiant, gwell cydweithio, llai o bethau i darfu ar eu gwaith neu dynnu eu sylw oddi ar eu gwaith. Roedd yr heriau a nodwyd yn cynnwys cysylltedd band eang gwael, diffyg gwahanu rhwng y gwaith a'r cartref – "byw yn y swyddfa", teimlo'n unig oherwydd llai o gyfleoedd i gymdeithasu, a dim man gweithio digonol yn eu cartref.

STRATEGAETH GWEITHIO HYBRID

Ym mis Gorffennaf 2022, mabwysiadodd y Cabinet y Strategaeth Gweithio Hybrid. Datblygwyd y strategaeth hon i nodi egwyddorion a'r broses weithredu ar gyfer model gweithio hybrid sy'n cynnal y lefel uchel ofynnol o ddarparu gwasanaethau gan hefyd

roi mwy o hyblygrwydd i weithwyr o ran cydbwysu eu gwaith a'u bywydau cartref. Anghenion y gwasanaeth fydd y brif flaenoriaeth bob amser wrth ystyried unrhyw bosibiliadau gweithio hybrid. Cydnabuwyd na fydd y lefel hon o hyblygrwydd yn bosibl i bob aelod o staff, oherwydd natur rhai rolau neu gyfyngiadau eraill, ond bydd ymrwymiad o hyd i archwilio sut y gellir cynnwys lefel o hyblygrwydd mewn rolau ar draws y sefydliad.

Y weledigaeth ar gyfer y strategaeth yw "meithrin gweithlu cydnerth, wedi'i grymuso ac sy'n perfformio'n dda. Gweithlu sydd â'r sgiliau a'r offer i weithio'n hyblyg i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn modd effeithlon, cynaliadwy ac ecogyfeillgar, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn cynllunio gweithleoedd gyda mannau modern, hyblyg sydd nid yn unig yn annog gweithgarwch cydweithredol, traws-swyddogaethol ond sydd hefyd yn cryfhau ein diwylliant corfforaethol, yn cynyddu ymgysylltiad â'n partneriaid ac yn cefnogi profiad gwell i gwsmeriaid."

Mae'r strategaeth yn cyflwyno cyfres o flaenoriaethau gan gynnwys a) ffyrdd hyblyg a symudol o weithio; b) cynaliadwyedd amgylcheddol ac ariannol; ac c) rhoi gwell profiad i gwsmeriaid. Yn ogystal, nodwyd cyfres o bamedrau y gellid adeiladu'r model gweithio hybrid oddi mewn iddynt, megis *'Lle gall ein staff weithio mor effeithlon o bell neu yn y swyddfa gallant ddewis lle maent yn gweithio ar unrhyw ddiwrnod penodol'*; *'Ni fydd gan ein staff gweithio hybrid ddim lle personol parhaol yn y swyddfa, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol'* a *'bydd ein cyfarfodydd gyda chydweithwyr a phartneriaid allanol yn rhithwir lle bynnag y bo modd'*.

Cafodd holl rolau'r gweithlu corfforaethol eu categorio i'r pedwar dull gwaith canlynol gan y Rheolwr Corfforaethol perthnasol:

Sefydlog – rôl sy'n gofyn i ddeiliad y swydd fynychu'r gweithle drwy gydol y dydd oherwydd natur a gofynion y rôl, ac felly nad yw'n addas ar gyfer gweithio hybrid. Roedd y tair ffordd arall sy'n weddill i gyd yn fathau o weithio hybrid – Hybrid Hyblyg, Hybrid Cyfyngedig a Chrwydrol.

POLISI GWEITHIO HYBRID DROS DRO

Mabwysiadwyd Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 am gyfnod o 12 mis er mwyn caniatáu i weithio hybrid gael ei dreialu wrth i'r rheolwyr a'n gweithlu nodi ffordd newydd effeithiol o weithio ar ôl y pandemig. Datblygwyd y polisi i ddarparu gwybodaeth fanwl am yr hyn y mae gweithio hybrid yn ei olygu i'r Cyngor. Ei nod oedd cefnogi gweithwyr a'u rheolwyr i roi gweithio hybrid ar waith trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth ymarferol, gan alluogi gweithwyr i weithio'n effeithiol, yn gynhyrchiol ac yn ddiogel o'r swyddfa neu o'r cartref.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r model gweithio hybrid ar waith, mae tair ffordd waith wedi'u creu, sy'n cael eu cadeirio gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac sy'n adrodd i Fwrdd Prosiect Ffyrdd o Weithio. Dyma'r ffyrddiau gwaith:

- Cynllunio'r Gweithle – yn gyfrifol am ailgynllunio mannau gwaith i gynyddu cynwysoldeb a hyblygrwydd ac i gefnogi ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y gweithlu a'r cwsmeriaid.

Tudalen 21

- Atebion Digidol – yn gyfrifol am adolygu a gwella atebion digidol i gefnogi cydweithio, gweithio hybrid, a gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.
- Polisiâu, Gweithdrefnau a Datblygiad – yn gyfrifol am adolygu polisiâu a gweithdrefnau presennol yn ogystal â datblygu rhai newydd i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

Penawdau'r Polisi

Dyma oedd prif benawdau'r polisi:

- Mae statws hybrid yn fudd y gall gweithwyr wneud cais amdano os yw eu rolau wedi'u dynodi'n rhai sy'n addas ar gyfer gweithio hybrid (Hybrid Hyblyg, Hybrid Cyfyngedig a Chrwydrol).
- Gall gweithwyr sy'n gweithio'n hybrid ddewis mynd i'r gweithle (neu ganolfan) bob dydd, ond dim ond mynediad at ddesg boeth fydd ganddynt, a hynny drwy system archebu desg.
- Er mwyn cael statws hybrid, rhaid i weithwyr ddangos neu gytuno i'r canlynol:
 - Cyflymder band eang digonol
 - Darparu'r offer angenrheidiol ar gyfer gweithio cynhyrchiol
 - Sicrhau y parheir i gadw gwybodaeth yn ddiogel
 - Amgylchedd gweithio diogel
 - Dychwelyd i'r gweithle os amherir ar y cysylltiad
 - Gweithio o leoliadau gweithio o bell a gofnodwyd yn unig
 - Mynd i'r lleoliad gwaith os oes angen
- Dim newid cytundebol yn ystod cyfnod y Polisi Dros Dro. Bydd y lleoliad gwaith a nodir yn y contract yn aros yr un fath ac ni fydd unrhyw gostau teithio ar gyfer mynd i leoliad gwaith neu ganolfan ddesg boeth.
- Dim lwfans gweithio o gartref yn daladwy gan mai trefniant gwirfoddol oedd hwn.
- Gellir tynnu statws hybrid yn ôl o dan amgylchiadau penodol.
- Byddai recriwtio / cyfweliadau yn rhithiol yn ddiodyfyn oni bai bod cyfiawnhad cryf dros gyfweliadau wyneb yn wyneb.

ADOLYGU

Mae ymgysylltu â'r gweithwyr wedi digwydd yn gyson drwy gydol y cyfnod i gasglu gwybodaeth ac adborth ynghylch sut roedd y polisi'n gweithio'n ymarferol ac i nodi unrhyw feysydd oedd angen sylw. Ni wnaed unrhyw newidiadau mawr ond cafodd y gweithwyr wybod am unrhyw fân newidiadau drwy ddiweddiadau yn y negeseuon e-bost wythnosol oddi wrth Newyddion Tîm Ceredigion a'r sianel ar Teams.

Yn ystod mis Mehefin 2023 cynhaliwyd adolygiad o'r cyfnod dros dro o 12 mis a gofynnwyd i'r gweithwyr a'u rheolwyr llinell ddarparu adborth am eu profiadau dros y cyfnod. Cafodd pob gweithiwr sydd mewn swydd sy'n gymwys i fod yn hybrid gais i gwblhau arolwg staff dienw. Roedd yr arolwg yn cynnwys drwy ran. Roedd y cyntaf ar gyfer pob gweithiwr a'r ail ar gyfer y rheolwyr llinell. Derbyniwyd cyfanswm o 870 o ymatebion gan arwain at gyfradd ymateb o 75% ac roedd cynrychiolaeth dda o bob maes gwasanaeth. Fel y dengys y canlyniadau canlynol, roedd mwyafrif llethol wedi gweld gweithio hybrid yn brofiad cadarnhaol ac yn cefnogi cyflwyno gweithio hybrid fel opsiwn parhaol.

Perfformiad


Yn eu hymatebion i'r arolwg, nododd y gweithwyr a'u rheolwyr llinell eu bod yr un mor gynhyrchiol neu'n fwy cynhyrchiol wrth weithio gartref o gymharu â gweithio yn y swyddfa. Cefnogir hyn gan ganlyniadau asesiadau a wnaed gan ein rheoleiddwyr allanol. Yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mai 2023 canfuwyd bod *“uwch-arweinyddiaeth gref o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd staff, rhanddeiliaid a phartneriaid wrthym fod yr uwch-arweinwyr yn weladwy, yn hygyrch, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Dengys yr adborth a gasglwyd gennym ddiwylliant sy'n canolbwyntio ar lesiant, meithrin a chynnal cydberthnasau, a sicrhau canlyniadau diogel i bobl”* a chanfuwyd hefyd bod *“gan Geredigion weithlu ymroddedig sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod ac o ran nifer yr achosion”*. Yn eu hadolygiad 'Llamu Ymlaen – Rheoli'r Gweithlu'n Strategol' ym mis Mai 2022, nododd Archwilio Cymru fod y *“pandemig wedi cyflymu'r newid i ffyrdd newydd o weithio ac wedi hybu newidiadau gweithredol a diwylliannol cadarnhaol yn y Cyngor”* a bod *“gan y Cyngor gynlluniau a threfniadau monitro, adolygu a gwella sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer ei weithlu”*.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2023/24 – 2026/27 yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn ddiweddar a'r cynnydd a wnaed ledled y meysydd gwasanaeth. Yn yr un modd, roedd y gofyniad statudol diweddar i lunio Adolygiad Blynyddol o'r Perfformiad a'r Amcanion Llesiant wedi arwain at gyhoeddi Adroddiad Hunanasesu 2021/22 a oedd yn crynhoi'r cynnydd a wnaed ar sail amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r holl ganlyniadau a'r cynnydd yma wedi digwydd yn ystod y cyfnod gweithio hybrid.


Rheolwyr llinell

Yn ogystal â'r ymatebion a ddangosir isod, darparodd rheolwyr llinell amrywiaeth o ddata hefyd ar faterion cysylltiedig megis sut mae eu sgiliau rheoli wedi datblygu i reoli timau hybrid, ffocws ar gynefino staff newydd wyneb yn wyneb yn hytrach nag yn rhithiol, gwiriadau rheolaidd wrth weithio o bell ac awgrymiadau ar gyfer datblygu ymdeimlad o berthyn i dîm. Un sylw a gododd droeon oedd argymhelliad i gynnal cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb yn rheolaidd, yn amrywio o bob pythefnos i bob chwarter, yn bennaf i gefnogi hunaniaeth tîm ac at ddibenion lles.


Pan fydd fy nhîm yn gweithio gartref, maent yr un mor gynhyrchiol ag y maent yn y gweithle




Pan fydd fy nhîm yn gweithio gartref, gallaf eu rheoli yr un mor effeithiol ag y gallaf yn y gweithle




Pan fydd fy nhîm yn gweithio gartref...	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae ganddynt y sgiliau i weithio'n effeithiol	56.44%	42.08 %	0.99%	0.50%
mae ganddynt yr offer sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol	59.90%	36.63 %	2.97%	0.50%
maent yn gallu gweithio'n effeithiol yn ddi-bapur	53.47%	41.09 %	4.46%	0.99%



O ran unigolion yn eich tîm, a oes gennych bryderon mewn perthynas â'r canlynol:




Ydych chi wedi profi heriau mewn perthynas â chymhwyso gofynion canlynol y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro





Gweithwyr


Mae'r canlyniad i weithwyr yn debyg i ganlyniad rheolwyr llinell gyda dros 95% o weithwyr yn cytuno bod eu profiad o weithio'n hybrid wedi bod yn gadarnhaol. Mae gweithwyr wedi gwneud eu dewis yn glir fel mae'r canlyniadau canlynol yn dangos. Nid oedd gymaint o weithwyr wedi dewis 'cytuno'n gryf' ar gyfer budd ariannol gweithio hybrid ond mae bron i 80% o weithwyr yn credu ei fod wedi bod o fudd iddynt. Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn ystyried cyflogaeth amgen pe bai eu gallu i weithio mewn ffordd hybrid yn cael ei ddileu, dywedodd 39% y bydden nhw; dywedodd 24% na fydden nhw, ac roedd y 37% oedd yn weddill yn ansicr.




Wrth weithio gartref ...	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Rydw i yr un mor gynhyrchiol neu'n fwy cynhyrchiol nag ydw i wrth weithio yn y gweithle	69.29%	25.33 %	5.25%	0.13%
Rwy'n cael fy rheoli yr un mor effeithiol ag yr wyf yn y gweithle	63.12%	29.92 %	6.04%	0.92%
Mae gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf i wneud fy ngwaith yn effeithiol gartref	72.31%	26.77 %	0.79%	0.13%
Mae gen i'r offer sydd ei angen arnaf i wneud fy ngwaith yn effeithiol gartref	66.40%	29.27 %	3.54%	0.79%
Rwy'n gallu gweithio'n effeithiol yn ddi-bapur	62.99%	30.31 %	5.64%	1.05%



Beth yw'r prif reswm yr ydych chi'n mynd i'r gweithle?



Os nad ydych yn mynd i'r gweithle yn rheolaidd, nodwch y prif reswm dros hyn




Mae canlyniadau'r arolwg yn glir, o safbwynt rheolwyr llinell a gweithwyr, bod gweithio hybrid yn cael ei weld fel dull cadw a budd allweddol. Argymhellir felly bod gweithio hybrid yn cael ei dderbyn fel opsiwn gweithio hyblyg tymor hir ac y dylid diwygio'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro i adlewyrchu hyn.


DEFNYDDIO ADEILADAU'R CYNGOR AT DDIBENION GWAHANOL

Os cymeradwyir y cynnig i fabwysiadu opsiwn gweithio hybrid yn barhaol i weithwyr, bydd modd rhyddhau gofod swyddfa nad yw wedi'i ddefnyddio'n llawn yn ystod cyfnod y treial gweithio hybrid dros dro. Mae'r 12 mis diwethaf wedi dangos bod y capasiti presennol o ran desgiau ar gyfer gweithio hybrid yng Nghanolfan Rheidol a Phenmorfa yn gallu bodloni'r galw yn ei ffurf bresennol, gan dderbyn fodd bynnag y bydd trefniadau mwy parhaol yn cael eu rhoi ar waith yn y ddau leoliad. Dros gyfnod o 12 mis y treial, roedd y defnydd o ddesgiau ar ei uchaf ddechrau mis Rhagfyr, ac roedd nifer yr ystafelloedd a archebwyd ar ei uchaf ym mis Mawrth 2023. Gwelwyd bod y defnydd cyfartalog dros fisoedd y gaeaf yn uwch nag yn ystod misoedd cynhesach yr haf, ond yn parhau i fod o fewn terfynau'r capasiti mwyaf.

Desgiau a archebwyd Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023



Ystafelloedd a archebwyd Gorffennaf 2022 – Mehefin 2023



Cynigir bod swyddogion yn cynnal adolygiad o holl swyddfeydd y Cyngor ar draws ei ystâd i nodi potensial ar gyfer ail-bwrpasu. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar y defnydd o swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol, cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch ffyrdd posibl o'u defnyddio, gan gynnwys defnyddio'r adeiladau fel cyfleusterau ar gyfer y gymuned, ysbyty neu leoliad gofal iechyd, mannau ar gyfer busnesau a llety preswyl.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam

Naddo. Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau os bydd angen Polisi Hybrid newydd.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:**

Argymhelliad / Argymhellion:

- Mabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i weithwyr sy'n gallu gweithio yr un mor effeithiol o bell ag y gallant yn y swyddfa.
- Datblygu Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro presennol.

Tudalen 31

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Cefnogi parhad y ffyrdd hybrid o weithio
Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol, 19 Gorffennaf 2023
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none">• Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth• Creu cymunedau gofalgar ac iach• Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu• Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Cefnogi recriwtio a chadw staff.
Goblygiadau eiddo / asedau:	Cynnig modd o adolygu'r defnydd a wneir o adeiladau ledled yr Awdurdod.
Risg(iau):	Byddai tynnu ymaith y cyfle i weithio mewn modd hybrid yn gallu effeithio ar allu'r Cyngor i recriwtio neu gadw staff sy'n dymuno gweithio mewn ffordd hyblyg.
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	07/08/2023

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	5 Medi 2023
LLEOLIAD:	Hybrid/Siambr y Cyngor
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar Adolygiad o Drefniadau Gweithio yn Hybrid
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad ar Adolygiad o Drefniadau Gweithio yn Hybrid a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cyngor, gyda chymorth y swyddogion.

Gan ddechrau ym mis Mawrth 2020, gorfodwyd cyfyngiadau symud cenedlaethol yn sydyn yn ystod pandemig Covid-19, a oedd yn cynnwys y gofyniad i aros gartref a gweithio gartref lle bynnag y bo modd. Mae'r staff wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r newid hwn. Ar y cyfan, roedd yr ymateb cadarnhaol hwn yn bosibl o ganlyniad i'r camau a gymerwyd eisoes tuag at ffordd fwy hyblyg a doethach o weithio, gan gynnwys buddsoddi mewn offer a meddalwedd digidol, a gwella'r trefniadau gweithio hyblyg presennol.

Ym mis Gorffennaf 2022, mabwysiadodd y Cabinet y Strategaeth Gweithio Hybrid. Mabwysiadwyd Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2022 am gyfnod o 12 mis er mwyn caniatáu i weithio hybrid gael ei dreialu wrth i'r rheolwyr a'n gweithlu nodi ffordd newydd effeithiol o weithio ar ôl y pandemig. Datblygwyd y polisi i ddarparu gwybodaeth fanwl am yr hyn y mae gweithio hybrid yn ei olygu i'r Cyngor. Ei nod oedd cefnogi gweithwyr a'u rheolwyr i roi gweithio hybrid ar waith trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth ymarferol, gan alluogi gweithwyr i weithio'n effeithiol, yn gynhyrchiol ac yn ddiogel o'r swyddfa neu o'r cartref.

Yna bu'r Aelodau'n trafod ac yn ystyried canlyniadau arolwg y Gweithwyr.

Cynigiwyd y dylai'r swyddogion gynnal adolygiad o holl swyddfeydd y Cyngor ar draws ei ystâd gan nodi'r posibilïadau o addasu'r swyddfeydd at ddibenion gwahanol. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar y defnydd o swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol, cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch ffyrdd posibl o'u defnyddio, gan gynnwys defnyddio'r adeiladau fel cyfleusterau ar gyfer y gymuned, ysbyty neu leoliad gofal iechyd ac fel manau ar gyfer busnesau a llety preswyl.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch canfyddiad y cyhoedd o'r trefniadau gweithio o gartref a'u canfyddiad nad oedd gwaith yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, nid oedd y canfyddiadau hyn yn gywir am fod y swyddogion llawer yn fwy cynhyrchiol. Er enghraifft, roeddent yn gweithio yn ystod yr adegau y byddent wedi bod yn teithio i'r gwaith ac oddi yno ac yn ystod yr adegau y byddent yn teithio rhwng cyfarfodydd mewn amrywiol leoliadau y tu hwnt i'w prif swyddfa. Cytunwyd y byddai modd i'r Gwasanaeth Cyfathrebu roi sylw i hyn.

ARGYMHELLION:

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad a ganlyn i'r Cabinet:

1. Argymell bod y Cabinet yn mabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i weithwyr sy'n gallu gweithio yr un mor effeithiol o bell ag y gallant yn y swyddfa.
2. Datblygu Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro presennol a dod ag ef gerbron y pwyllgor Craffu yn dilyn ymgynghoriad.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell y canlynol i'r Cabinet:

1. i fabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i weithwyr sy'n gallu gweithio'r un mor effeithiol o bell ag y gallant yn y swyddfa;
2. i ddatblygu Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro presennol a dod ag ef gerbron y pwyllgor Craffu yn dilyn ymgynghoriad; ac
3. y dylai'r polisi gweithio hybrid gynnwys y gofyniad i reolwyr sicrhau bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn y cnauld naill ai bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	5 Medi 2023
Teitl:	Polisi Menopos
Diben yr adroddiad:	Cymeradwyo'r Polisi Menopos i'w roi ar waith
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

CEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol, lle mae pawb yn cael eu trin yn deg gydag urddas a pharch yn eu hamgylchedd gwaith. Mae hefyd wedi ymrwymo i iechyd, diogelwch a lles y gweithlu cyfan.

Mae'r menopos yn rhan naturiol o heneiddio, y cyfeirir ato'n aml fel 'y newid', ac mae'n cyfeirio at yr adeg pan na fydd y mislif wedi dod am 12 mis. Nid yw bob amser yn drawsnewidiad hawdd ond gyda'r cymorth cywir gall fod yn llawer gwell. Er nad yw pawb sy'n mynd drwy'r menopos yn dioddef o symptomau, bydd cefnogi'r rhai sydd yn dioddef o symptomau yn gwella eu profiad yn y gwaith.

Amcangyfrifir bod tua 1 ym mhob 3 pherson yn y DU naill ai wedi cyrraedd y menopos neu'n mynd drwyddo ar hyn o bryd. Mae data Cyngor Sir Ceredigion ym mis Hydref 2022 yn cofnodi bod 66.1% (1,355) o'r gweithlu corfforaethol (ac eithrio ysgolion) yn fenywod, gyda 34.1% (698) ohonynt rhwng 45 a 64 oed a gallent fod mewn oedran lle maent yn debygol o fod yn profi'r perimenopos neu wedi cyrraedd y menopos. Mae'n bwysig felly ein bod yn ystyried anghenion y grŵp hwn ac yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli gweithlu sy'n amrywiol o ran oedran

POLISI MENOPOS

Mae'r Polisi Menopos drafft wedi'i ddatblygu i helpu'r rheini sy'n profi symptomau trafferthus yn gysylltiedig â'r menopos, ac i'w cefnogi nhw, eu cydweithwyr a'u rheolwyr i fynd i'r afael ag agweddau galwedigaethol symptomau'r menopos.

Nod y polisi yw:

- Cefnogi gweithwyr sy'n profi symptomau'r menopos a'u rheolwyr i fynd i'r afael ag agweddau galwedigaethol y broses naturiol hon.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:

- I. y dylid argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Menopos;
- II. y dylid ystyried penodi Hyrwyddwr neu Bencampwr y Menopos o fewn yr Awdurdod;
- III. y dylai'r Cyngor hyrwyddo Diwrnod Menopos y Byd ym mis Hydref; ac
- IV. y dylid cynnal gweithdy i'r holl Aelodau a Rheolwyr i godi ymwybyddiaeth o'r Menopos.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	5 Medi 2023
Teitl:	Cynllun y Gweithlu 2023-2028
Diben yr adroddiad:	Cymeradwyo Cynllun y Gweithlu 2023-2028
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

CEFNDIR:

Mae Cynllun y Gweithlu yn ddogfen strategol sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu er mwyn bodloni ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu er mwyn rhoi sylw iddynt.

Mae datblygu Cynllun y Gweithlu yn hanfodol am sawl rheswm:

- *Cysoni Strategol:* cysoni strategaethau adnoddau dynol â nodau strategol y Cyngor. Mae'r Cynllun yn galluogi'r Cyngor i nodi rolau hanfodol, y cymwyseddau a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni ein hamcan corfforaethol.
- *Recriwtio a Chadw:* darparu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae eu hangen i lenwi rolau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnig modd datblygu strategaethau recriwtio a chadw effeithiol a fydd yn sicrhau ymgysylltu llwyddiannus â gweithwyr, gyda'r nod o gynyddu cymhelliant, lleihau cyfraddau trosiant staff, a gwella boddhad gweithwyr.
- *Cynllunio Olyniaeth:* gallu adnabod y swyddi hanfodol ac olynwyr posibl gan sicrhau bod rhaglenni neu gyfleoedd datblygu, hyfforddi a mentora yn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithwyr allweddol yn gadael.
- *Ystwythder a Hyblygrwydd:* trwy ragweld anghenion a gofynion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol gall y Cyngor roi sylw rhagweithiol i'r heriau a ddaw a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Fel yn achos Cynllun y Gweithlu 2017-2022, defnyddiwyd pecyn cymorth Cynllunio'r Gweithlu Strategol i arwain gwaith y Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'i dimau trwy'r broses. Mae'r pecyn cymorth wedi helpu i ddadansoddi'r gweithlu presennol cyn ehangu'r dadansoddiad hwnnw i nodi'r gofynion, y sgiliau a'r cymwyseddau y bydd eu hangen ar y gweithlu yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau newydd neu well.

CYNLLUN Y GWEITHLU 2023-2028

Ar ddechrau'r flwyddyn cyfarfu'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth â phob maes gwasanaeth i gyflwyno'r pecyn cymorth a darparu ystod o ddata am y gweithlu i gynorthwyo pob maes gwasanaeth i gwblhau'r pecyn cymorth. Yna cafodd y wybodaeth hon ei chasglu, ei dadansoddi a'i hasesu yn unol ag amcanion y gweithlu yn y Strategaeth Gorfforaethol a gofynion pum ffordd o weithio'r Egwyddorion Cynaliadwyedd i ddatblygu themâu allweddol ar gyfer Cynllun y Gweithlu 2023-2028.

Mae Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y cynllun blaenorol, y cysylltiad â strategaethau corfforaethol eraill, proffil ein gweithlu, ac mae'n nodi pedair blaenoriaeth â thema allweddol i wynebu'r heriau a nodwyd.

Y pedair blaenoriaeth â thema a nodir yn y cynllun yw:

1. Gwireddu Potensial
2. Profiad yr Ymgeisydd a Denu Talent
3. Ffyrdd Newydd o Weithio
4. Ein Diwylliant

Mae Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn rhoi trosolwg o bob thema cyn manylu ar y camau a gaiff eu cymryd i fodloni gofynion y Cynllun. Mae cyfres o fesurau arfaethedig wedi'u cynnwys ar ddiwedd y ddogfen er mwyn gallu monitro cynnydd yn effeithiol dros gyfnod y cynllun tair blynedd.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei Oes gwblhau? Os na, esboniwch pam

Crynodeb:

Hirdymor: Er bod y Cynllun yn ymateb i heriau presennol mae hefyd yn ystyried yr heriau tymor hwy, gyda'r nod o sicrhau bod y sgiliau a'r gallu cywir gan y gweithlu i'w cyflawni.

Cydweithio: Mae'r holl Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r tîm uwch swyddogion wedi cyfrannu at y Cynllun trwy gwblhau'r pecyn cymorth Cynllun y Gweithlu ar gyfer eu gwasanaeth penodol nhw. Bydd y Cynllun yn cael ei rannu gyda'n partneriaid undeb llafur corfforaethol i gael sylwadau.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Cynnwys: Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu trwy gynnwys pob Rheolwr Corfforaethol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol i geisio eu barn ar anghenion presennol a thymor hwy eu meysydd gwasanaeth penodol.

Atal: Rhoddir pwyslais ar yr anawsterau recriwtio a chadw presennol a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar fodloni gofynion yn y dyfodol. Mae'r Cynllun yn cyflwyno strategaethau i annog llwybrau mynediad cyflogaeth a chyfleoedd ehangach i gael gweithlu cynaliadwy yn y dyfodol.

Tudalen 65

Integreiddio: Trwy gynnal gweithlu brwdfrydig a sefydlog, y mwyafrif ohonynt yn byw o fewn ffiniau'r sir, bydd y Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar bobl (ein staff) a'r economi leol.

Argymhelliad: Cymeradwyo Cynllun y Gweithlu 2023-2028

Rheswm dros y penderfyniad: Cefnogi mabwysiadu Cynllun y Gweithlu newydd i sicrhau bod y gweithlu yn bodloni ei anghenion o ran darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol

Trosolwg a Chraffu: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, 19 Gorffennaf 2023

Fframwaith Polisi: Strategaeth Gorfforaethol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgwr ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Goblygiadau Cyllid a Chaffael: Dim

Goblygiadau cyfreithiol: Dim

Goblygiadau staffio: Mae'r Cynllun yn cefnogi cynnal gweithlu effeithiol, medrus a hyblyg.

Goblygiadau eiddo / asedau: Dim

Risg(iau): Gall peidio â chymeradwyo Cynllun y Gweithlu effeithio ar recriwtio a chadw staff, datblygu cynlluniau olyniaeth a chyfyngu ar allu'r Cyngor i sicrhau bod gofynion sgiliau ar gyfer y dyfodol ar waith.

Pwerau Statudol:

Papurau Cefndir:

Atodiadau: Atodiad A- Cynllun y Gweithlu 2023-2028

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth

Swyddog Adrodd: Geraint Edwards

Dyddiad: 03/08/2023



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cynllun y Gweithlu 2023-2028

Tîm Ceredigion: Tîm i fod yn falch ohoni



GYRFA GWAITH DYSGU
CAREER WORK LEARN

Cynnwys

Cyflwyniad

<u>Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027</u>	Tudalen 2
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r</u>	Tudalen 3
<u>Dyfodol (Cymru) 2015</u>	
<u>Strategaethau Corfforaethol Eraill</u>	Tudalen 5

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

<u>Cynllun y Gweithlu 2017-2022</u>	Tudalen 6
<u>Cyflawniadau Eraill</u>	Tudalen 11

Y cyd-destun presennol

<u>Ein Gweithlu</u>	Tudalen 12
<u>Yr hyn y mae ein gweithlu wedi'i</u>	Tudalen 14
<u>ddweud wrthym</u>	
<u>Heriau Presennol</u>	Tudalen 15

Yr hyn rydym am ei gyflawni

<u>Blaenoriaethau 2023-2028</u>	Tudalen 16
<u>Mesur Llwyddiant</u>	Tudalen 27



Cyflwyniad

Mae ein Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn amlinellu sut y byddwn yn denu, datblygu a chadw ein hased mwyaf gwerthfawr – ein pobl. Mae effeithiolrwydd ein sefydliad yn dibynnu nid yn unig ar ddenu'r dalent orau ond hefyd ar greu cymuned gyda gweithle cryf sy'n cefnogi ei phobl ac sy'n cydnabod rhinweddau unigryw pob aelod o Dîm Ceredigion.

Rydym yn teimlo'n angerddol am feithrin diwylliant lle mae ein gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso. Ein nod yw hyrwyddo ac adeiladu ar ein hethos 'Tîm Ceredigion'; hybu ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Ein huchelgais yw i holl aelodau Tîm Ceredigion fod yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud a chydabod arwyddocâd eu cyfraniad i lwyddiant cyffredinol ein sefydliad a'r cymunedau a wasanaethwn.

Credwn yn gryf fod holl aelodau Tîm Ceredigion yn haeddu'r cyfle i ragori a ffynnu mewn amgylchedd sy'n eu galluogi i wireddu eu potensial nawr ac yn y dyfodol. Trwy'r strategaeth hon, ceisiwn feithrin gweithlu medrus, arloesol a blaengar sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau effeithlon o safon uchel i bobl Ceredigion.



Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Mae ein Cynllun y Gweithlu 2023-2028 yn amlinellu sut y byddwn yn datblygu capasiti a gallu ein gweithlu i gefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.

Nod y blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth Gorfforaethol yw cynnig modd i ni ddarparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion. Yn sail i lwyddiant ein Strategaeth Gorfforaethol mae gweithlu sy'n perfformio'n dda ac yn gweithredu mewn ffordd arloesol, digidol aeddfed a chynaliadwy.

Gweledigaeth: Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog, cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian, yn cynnal economi gref, amgylchedd iach ac yn hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn amlinellu ein blaenoriaethau, a elwir yn Amcanion Llesiant Corfforaethol, ynghyd â'n huchelgeisiau a'r camau i'w cyflawni dros y cyfnod 2022-27. Mae'r Strategaeth yn llywio popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Ei nod yw sicrhau bod ein Cyngor yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru, a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau diogel, effeithlon ac effeithiol o safon uchel i drigolion Ceredigion. Mae'n seiliedig ar adolygiad eang o dystiolaeth ac asesiadau o anghenion.

Mae'r strategaeth yn amlinellu pedwar amcan llesiant sy'n cynnwys:

- **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth**
- **Creu cymunedau gofalgarg ac iach**
- **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu**
- **Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd**



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru rydym ni i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy'n nodi gweledigaeth gyffredin y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag ati (i'w gweld ar y dde).

Mae ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol wedi'u datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol a barn pobl leol. Bydd y camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn ein helpu i wella'r canlyniadau i bobl leol a hefyd yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant cenedlaethol.



Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Wrth weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant mae'n rhaid i ni fel corff cyhoeddus ystyried sut rydym yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Diffinnir yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel *'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*. Er mwyn bodloni disgwyliadau'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid ystyried y pum ffordd o weithio, sef hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys.

Ategir datblygiad y strategaeth hon gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum ffordd o weithio:

Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithredu




Cynnwys



Strategaethau Corfforaethol Eraill

Mae ein strategaeth yn ystyried y strategaethau corfforaethol canlynol ac yn ceisio eu hategu:

-  Strategaeth Iechyd a Llesiant Gweithwyr
-  Strategaeth Gweithio Hybrid
-  Strategaeth TGCh a Digidol (ar y gweill)
-  Strategaeth Gydol Oes a Llesiant
-  Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi
-  Strategaeth Economaidd
-  Strategaeth y Gymraeg
-  Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
-  Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

Cynllun y Gweithlu 2017-2022

Nodwyd y 4 thema gwaith allweddol canlynol yn ein Cynllun y Gweithlu blaenorol.



Ymgysylltu a Chyfle

Byddwn yn ymgysylltu â'n staff a'n cymunedau i hyrwyddo Cyngor Sir Ceredigion fel lle gwyth i weithio.




Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth

Byddwn yn datblygu ac yn helpu ein staff i weithio'n hyblyg ar draws y Sir, gan weithio'n effeithiol â chymunedau a'r trydydd sector.



Hyrwyddo gweithlu dwyieithog a fydd yn gwasanaethu'r gymuned

Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y gweithlu a'n cymuned.



Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Byddwn yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth ein gweithlu i wynebu heriau'r dyfodol.

Ymgysylltu a Chyfle

Yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud

- Mabwysiadu dull rhagweithiol a chynlluniedig o hyrwyddo ein cyfleoedd mewn ffeiriau a digwyddiadau gyrfaedd Ysgolion a phrifysgolion.
- Cyflogi Cydgysylltydd Prentisiaethau a Phrofiad Gwaith a fydd yn hyrwyddo'r Cynllun Prentisiaethau, yn cefnogi prentisiaid ac yn cydlynu lleoliadau profiad gwaith ar draws yr holl wasanaethau ar gyfer ymgeiswyr ôl-16.
- Datblygu cynllun prentisiaeth a fydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar lefelau gwahanol ac ar draws gwasanaethau.
- Hyrwyddo manteision cyfleoedd profiad gwaith strwythuredig ar gyfer ysgolion a phrifysgolion ac annog meysydd gwasanaeth i ddarparu lleoliadau profiad gwaith.
- Cynnal a chryfhau'r trefniadau ar gyfer lleoliadau myfyrwr prifysgol o brifysgolion ar draws y sir.
- Sefydlu cynllun hyfforddeion gwaith cymdeithasol i gymryd lle'r trefniadau presennol.
- Ystyried ffyrdd amgen ac arloesol o hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth.
- Cyfleu manteision Cyngor Sir Ceredigion fel cyflogwr gan rannu straeon newyddion da.
- Hyrwyddo cyfleoedd recriwtio yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar lwyfannau eraill.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

- Mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau a ffeiriau recriwtio rhithiol a wyneb yn wyneb.
- Penodi Cydlynnydd Prentisiaethau a Phrofiad Gwaith. Creu Cynllun Prentisiaethau. Ystod o gyfleoedd yn cael eu cynnig. 16 o brentisiaethau wedi'u cwblhau. 12 yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Ceredigion.
- Gwaith wedi'i wneud i ddatblygu prosesau corfforaethol i nodi a chefnogi cyfleoedd profiad gwaith.
- Myfyrwr Prifysgol Aberystwyth yn cynnal modiwlau cyflogadwyedd. 60 o fyfyrwr wedi cael lle.
- Sefydlu Cynllun Hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol. 12 Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant wedi'u recriwtio. 5 Gweithiwr arall yn cael eu noddi ar lwybr annibynnol i gymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol. 16 yn cael eu cyflogi fel Gweithwyr Cymdeithasol gan Gyngor Sir Ceredigion.
- 5 myfyrwr Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Abertawe wedi cwblhau lleoliadau a chael eu cyflogi fel Gweithwyr Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion.
- 80 o leoliadau Gwaith Cymdeithasol wedi'u darparu i fyfyrwr.
- 22 o weithwyr wedi cael cymorth i ddilyn Tystysgrif Addysg Uwch ac mae 9 ohonynt wedi mynd ymlaen i ddilyn gradd mewn Gwaith Cymdeithasol.
- Datblygu a lansio gwefan gyrfaedd newydd i arddangos cyfleoedd gwaith yng Nghyngor Sir Ceredigion a byw yng Ngheredigion.
- Gweithredu amrywiaeth o atebion marchnata amgen gan gynnwys hysbysebu ar y radio, baneri, sesiynau gwybodaeth rhithiol, fideos hyrwyddo.
- Hyrwyddo cyfleoedd a straeon newyddion da ar y tudalennau newydd ar Facebook a LinkedIn. 3.3k o ddilynwyr Facebook ym mis Ebrill 2023.

Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth

Yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud

- Parhau i ad-drefnu gwasanaethau cymorth gan ganoli timau lle bynnag y bo modd.
- Adolygu strwythur staffio'r Cyngor trwy ddull fesul cam i sicrhau bod y capasiti a'r gallu gan swyddogion i fodloni blaenoriaethau'r Cynlluniau Corfforaethol a'r amcanion.
- Cynnig cyfleoedd Hyfforddi'r Hyfforddwr i staff er mwyn defnyddio'r arbenigedd o fewn y gweithlu.
- Datblygu gweithlu sydd â gwybodaeth sefydliadol ehangach a fydd yn cynnig modd ad-leoli staff ar draws gwasanaethau.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu arloesol a chost-effeithiol.
- Defnyddio'r modiwl Dysgu a Datblygu ar Ceri ar draws pob gwasanaeth i hyrwyddo, cadw lle a chofnodi hyfforddiant a sicrhau 'un cofnod hyfforddi' ar draws y Cyngor.
- Hyrwyddo uwchsgilio staff mewn technolegau er mwyn hybu a chael mynediad i wasanaethau digidol.
- Hyrwyddo ethos gwasanaeth cwsmeriaid gyda'r holl staff a thimau trwy gynnig hyfforddiant Cwsmer yn Gyntaf i bob maes gwasanaeth.
- Cyflwyno polisi gweithio ystwyth sy'n gwneud y mwyaf o ofod swyddfa ac yn ei resymoli ar draws y Cyngor.
- Cyflwyno rhaglen sefydlu gorfforaethol.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

- Canoli gwasanaethau cymorth gan gynnwys TGCh, Credydwy, Cyllid a Chaffael, Cymorth Busnes.
- Ad-drefnu uwch arweinwyr a meysydd gwasanaeth. 2 rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol, 12 Swyddog Arweiniol Corfforaethol a 39 rôl Rheolwr Corfforaethol wedi'u sefydlu a'u penodi.
- Hyfforddiant 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' wedi'i ddarparu. 91 o arbenigwyr pwnc y gweithlu wedi darparu hyfforddiant.
- 2251 o sesiynau hyfforddi amrywiol wedi'u darparu gan ein harbenigwyr pwnc a'n Hyfforddwyr Corfforaethol.
- Sefydlu rhaglenni datblygu corfforaethol sydd wedi cefnogi llwybrau gyrfa a datblygiad proffesiynol traws-sefydliadol.
- Amserlen hyfforddi flynyddol ar gyfer gweithwyr corfforaethol a gofal cymdeithasol gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi.
- Modiwl Dysgu a Datblygu ar Ceri wedi'i ddefnyddio a'i ymgorffori ar draws yr holl wasanaethau i hyrwyddo, cadw lle a chofnodi hyfforddiant a sicrhau 'un cofnod hyfforddi' ar draws y Cyngor.
- Uwchsgilio'r gweithlu o ran ddefnyddio technolegau mewn ymateb i bandemig COVID, a chefnogi hyn gyda chyfleoedd hyfforddi.
- Rhaglen dreigl o hyfforddiant Cwsmer yn Gyntaf i bob maes gwasanaeth.
- Digwyddiad sefydlu corfforaethol wedi'i ddatblygu, ei ymgorffori a'i drefnu'n fisol.

Hyrwyddo gweithlu dwyieithog a fydd yn gwasanaethu'r gymuned

Yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud

- Parhau i ddatblygu gwaith y Grŵp Cymraeg yn y Gweithle.
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi Cymraeg sy'n rhoi sylw i'r ystod o alluoedd o fewn y gweithlu.
- Cyflwyno'r cynllun 'ffrindiau iaith – Welsh friend' i helpu dysgwyr Cymraeg.
- Hyrwyddo'r strategaeth 'Mwy na geiriau' a'r ymgyrch cynnig gweithredol i bob gwasanaeth.
- Sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi i wireddu eu nodau ieithyddol.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o'r Gymraeg a gwybodaeth ddiwylliannol gyda'r holl staff trwy gwrs e-ddysgu.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

- Penodi Swyddog Hyfforddiant Cymraeg Gwaith.
- Sefydlu Grŵp Cymraeg yn y Gweithle.
- Dewis o ddsbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnig gan gynnwys dechreuwyr, canolradd, uwch, yn ogystal â Chymraeg ysgrifenedig.
- 287 o ddysgwyr Cymraeg Gwaith.
- Y cynllun 'ffrindiau iaith – Welsh friend' wedi'i gyflwyno i helpu dysgwyr Cymraeg.
- Strategaeth 'Mwy na geiriau' ac ymgyrch y cynnig gweithredol yn cael eu hyrwyddo i bob gwasanaeth trwy ymgyrchoedd hyfforddi a chyfathrebu.
- Cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i ddatblygu ac yn orfodol i'r holl staff.

Derbynfa
Reception



Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud

- Llunio a hyrwyddo Cynllun Datblygu 'Rheolwr Ceredigion' gyda fframwaith craidd o hyfforddiant gorfodol.
- Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd rheoli a datblygu ychwanegol a fydd yn bodloni anghenion hyfforddi a datblygu 'Rheolwr Ceredigion'.
- Cyflwyno 'rhaglen ymsefydlu i Reolwyr Newydd'.
- Datblygu proses Rheoli Talent trwy'r pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu strategol.
- Sicrhau bod dulliau cynllunio olyniaeth effeithiol yn eu lle er mwyn cadw gwybodaeth sefydliadol.
- Datblygu gwybodaeth sefydliad cyfan ar gyfer arweinwyr a rheolwyr er mwyn gallu gweithredu newidiadau yn effeithiol a gwella prosesau gwneud penderfyniadau.
- Hyrwyddo ymhellach y defnydd o Ceri Net gyda rheolwyr fel ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Ehangu'r defnydd o weminarau ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda rheolwyr.
- Datblygu rhwydwaith rheolwyr corfforaethol a fydd yn cwrdd yn rheolaidd â'r Uwch Arweinwyr.

Yr hyn rydym wedi'i gyflawni

- Rhaglen Rheolwr Ceredigion 6 modiwl wedi'i datblygu, ei gweithredu ac yn orfodol i bob rheolwr.
- Ystod o gyfleoedd datblygu ychwanegol wedi'i darparu i reolwyr gan gynnwys: Sgyrsiau Anodd, Cyllid ar gyfer Staff Eraill, Caffael, Rheoli Prosiectau, Cynnal Iechyd a Llesiant Gweithwyr, Rheoli Newid a mwy.
- Modiwlau 'Darpar Reolwyr' a 'Rheoli am y Tro Cyntaf' wedi'u cyflwyno.
- Cynllunio'r gweithlu ac olyniaeth wedi'i gynnwys yng nghwrs Rhaglen Rheolwr Ceredigion.
- Pecyn cymorth cynhwysfawr i reolwyr wedi'i gyhoeddi ar Ceri Net fel ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a chymorth i reolwyr a phenaethiaid.
- Defnyddio gweminarau, sesiynau neuadd y dref a chylchlythyrau i ledaenu gwybodaeth i reolwyr.
- Sefydlu gweithdy rheolwyr corfforaethol ac uwch arweinwyr ac yn cwrdd yn rheolaidd bob chwarter.

Cyflawniadau eraill

Sefydlu Panel Cymwysterau	Gweithredu System Rheoli Dysgu newydd, Pwll Dysgu Ceredigion	Penodi 22 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl	ILM Lefel 5: 12 rheolwr wedi'u hardystio, gyda 4 rheolwr bron wedi'i gwblhau	Gweithredu system wiriadau DBS ar-lein	Pontio i ddarparu digwyddiadau dysgu yn rhithwir	Datblygu a gweithredu Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro
Ad-drefnu gwasanaethau gydol oes a llesiant yn llwyddiannus	Cardinet wedi'i ddisodli gyda safle mewnwydd staff newydd Ceri Net	Datblygu a gweithredu Polisi Gofalwyr	Strategaeth Gweithio Hybrid yn cael ei datblygu a'i gweithredu	Mwy o gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth ar amrywiaeth o fentrau gyrfaedd	Cefnogi'r ymgyrch gofal cymdeithasol cenedlaethol Gofalwn.Cymru	Strategaeth Iechyd a Llesiant yn cael ei datblygu a'i gweithredu
99% o weithwyr cymwys yn gweithio mewn ffordd hybrid	Gweithredu system adrodd digwyddiadau newydd, Alcumus	ILM Lefel 4: 30 o reolwyr wedi'u hardystio, gyda 24 o reolwyr bron wedi'i gwblhau	Proses werthuso flynyddol wedi'i sefydlu'n llwyddiannus	Archwiliad o sgiliau digidol y gweithlu wedi'i gynnal	Cynnal 3 Arolwg Iechyd a Llesiant Gweithwyr	Datblygu a gweithredu fformat newyddion wythnosol newydd
Datblygu platform e-ffurflenni prosesau pobl newydd (dodl)	Recriwtio 8 Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant	Diwygio Rhaglen Rheolwr Ceredigion	Rhaglen ddatblygu bwrpasol i SAC, RhC a RhT er mwyn gweithredu'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant	Lleoliadau myfyrwyr Gwaith Ieuenctid Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cael eu cynnig	Sianel Teams wedi'i chyflwyno ar gyfer staff Tim Ceredigion	Darparu lleoliadau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr Prifysgol Abertawe a'r Brifysgol Agored



Y Cyd-destun Presennol



Ein gweithlu

Mae ein gallu i ddarparu gwasanaethau'n llwyddiannus a gwella'n barhaus yn dibynnu ar gael y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae cynllunio'r gweithlu yn golygu cael gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r gweithlu presennol, gan ddadansoddi'r wybodaeth honno er mwyn nodi sgiliau, cymwyseddau a chapasiti'r gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y capasiti a'r gallu i ddarparu gwasanaethau a blaenoriaethau newydd, gwahanol a/neu well a fydd yn cyfateb â'n nodau ac yn gwasanaethu trigolion Ceredigion.


Ym mis Mai 2023 mae ein gweithlu corfforaethol yn cynnwys 2037 o weithwyr (1,567 cyfwerth ag amser llawn). Yn ystod y degawd diwethaf, mae strwythur uwch reolwyr symlach wedi'i gyflawni, gyda gostyngiad o 30% mewn swyddi uwch arweinwyr.

Mae costau gweithwyr yn cyfrif am 45.4% o wariant gros y Cyngor. Mae rhai o'n gwasanaethau rheng flaen allweddol yn gweithredu 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ac mae ymgyrch i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cael eu darparu pan fydd pobl yn dymuno eu defnyddio.







Oedran



Sgiliau Cymraeg




Tudalen 80


Yr hyn y mae ein gweithlu wedi'i ddweud wrthym

Dros gyfnod cynllun y gweithlu blaenorol rydym wedi gweithio'n galed i gasglu teimladau gweithwyr am eu profiadau er mwyn llywio'r gwaith rydym yn ei wneud a blaenoriaethu ein hadnoddau. Mae'r canlyniadau diweddar o arolygon staff amrywiol i'w gweld isod

Arolwg Iechyd a Llesiant Gweithwyr




Arolwg Recriwtio Dewis a Phenodi



Heriau presennol


Cynhaliwyd ymarfer cynllunio'r gweithlu cynhwysfawr gan bob maes gwasanaeth ar ddiwedd 2022. Diben yr ymarfer hwn oedd cael dealltwriaeth fanwl o'r gweithlu o ran y sgiliau, y cymwyseddau a'r capasiti y bydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau â blaenoriaeth newydd, gwahanol a/neu yn y dyfodol. Fel rhan o'r ymarfer hwn, nodwyd yr heriau allweddol canlynol fel rhai a wynebir gan ein gwasanaethau.



Yr hyn rydym am ei gyflawni

Blaenoriaethau 2023-2028

Ar ôl dadansoddi canlyniadau'r ymarfer cynllunio'r gweithlu a gynhaliwyd yn 2022, yn ogystal â'r wybodaeth a gafwyd trwy arolygon gweithwyr amrywiol, mae'r meysydd gwaith â blaenoriaeth canlynol wedi'u nodi er mwyn i'n gweithlu allu darparu gwasanaethau a blaenoriaethau newydd, gwahanol a/neu well yn y dyfodol.



Profiad yr Ymgeisydd a Denu Talent

Mae 2022 wedi gweld y lefel uchaf erioed o swyddi gwag yn y DU a'r gyfradd diweithdra isaf ers 1974. Dyw denu'r bobl iawn sydd â'r sgiliau iawn erioed wedi bod yn fwy heriol. Yn 2022, gostyngodd ein nifer cyfartalog o geisiadau fesul ymgyrch recriwtio i 3.81. Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn roedd gennym nifer o swyddi anodd eu llenwi gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, weithwyr cymdeithasol cymwys, therapyddion galwedigaethol, datblygwyr, peirianwyr, cynllunwyr, technegwyr fflyd a chynghorwyr hyfforddiant galwedigaethol. Mae recriwtio gweithwyr cymdeithasol wedi'i nodi'n risg gorfforaethol yn ddiweddar.

Mae prinder sgiliau wedi arwain at bwysau digynsail ar rai meysydd gwasanaeth ac wedi golygu bod angen mabwysiadu mesurau eraill i gynnal gwasanaethau statudol a rolau busnes hanfodol eraill, gan gynnwys recriwtio gweithwyr asiantaeth. Mewn ymateb i'r heriau hyn a'r effaith ganlyniadol a welwyd ar draws ein meysydd gwasanaeth, mae'n hanfodol ein bod yn symleiddio'r ffordd y mae ein hymgeiswyr yn cyflwyno ceisiadau am swyddi ac ar yr un pryd cynnal ac yn gwella'r profiad cadarnhaol y mae ein hymgeiswyr yn dweud wrthym ein bod yn ei gynnig. Bydd hefyd yn hollbwysig ein bod yn gallu monitro a dadansoddi ein data recriwtio yn hawdd er mwyn nodi swyddi anodd eu llenwi a blaenoriaethu ein hadnoddau yn unol â hynny.





GYRFA GWAITH DYSGU
CAREER WORK LEARN

Mewn marchnad lafur hynod o gystadleuol, yn erbyn cefndir o alw cynyddol ar wasanaethau a llai o adnoddau, mae'n hanfodol ein bod yn arddangos buddion unigryw gweithio i ni a sefydlu ein hunain fel cyflogwr o ddewis.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio dulliau marchnata amrywiol megis ein gwefan gyrfaedd, y cyfryngau cymdeithasol, byrddau marchnata, diwrnodau agored ymgeiswyr, a gwaith allgymorth cymunedol i hyrwyddo ein brand a denu mwy o dalent. Byddwn hefyd yn ceisio gwobrwyo ein llysgenhadon brand trwy gyflwyno cynllun atgyfeirio gweithwyr. Byddwn yn parhau i adolygu ein dulliau marchnata a recriwtio er mwyn sicrhau bod swyddi gwag yn cyrraedd pobl dalentog sydd â'r sgiliau iawn.

Yn unol â nodau diwylliannol byddwn yn ceisio cynnwys dull recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar eu gwerthoedd ymddygiadol yn ogystal â'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u dawn.

Profiad yr Ymgeisydd a Denu Talent

Byddwn yn:

Marchnata:

- Cynnal dadansoddiad o safle brand cyflogwr ac yn datblygu **strategaeth brandio cyflogwr** i sefydlu ac arddangos ein brand
- Datblygu a chyflwyno datrysiad '**Rhybuddion Swyddi**' sy'n hysbysu ymgeiswyr am gyfleoedd o ddiddordeb
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata i hyrwyddo ein cyfleoedd **prentisiaeth**
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata i hyrwyddo'r **cynllun newydd i raddedigion** a'r cyfleoedd a gynigir
- Gweithio mewn partneriaeth â **Chanolfannau Gwaith** a sefydliadau eraill i hyrwyddo ein brand a chynyddu ein gallu i ddenu talent
- Cyflwyno **Cynllun Atgyfeirio Gweithwyr** a fydd yn gwobrwyo gweithwyr y mae eu hatgyfeiriad wedi arwain at benodi'n llwyddiannus gweithiwr newydd parhaol i'r sefydliad
- Datblygu dull cydgysylltiedig at **leoliadau profiad gwaith** a hyrwyddo cyfleoedd

Prosesau:

- Sicrhau y gallwn ddefnyddio data i nodi'n hawdd **swyddi gwag anodd eu llenwi**
- Dileu'r gofyniad 'meini prawf hanfodol' ar gyfer llunio rhestr fer a mabwysiadu **dull 'cyfweliad ar sail potensial'** lle caiff meini prawf hanfodol eu profi yn y cam cyfweld
- **Lleihau ein ffurflen gais safonol** a chaniatáu ar gyfer lanlwytho CVs
- Byddwn yn creu **ffurflen 'mynegi diddordeb'** ar gyfer rhai swyddi sy'n anodd eu llenwi. Yn seiliedig ar lefel y diddordeb, gall rheolwyr naill ai gynnal ail gam sgrinio neu wahodd yr ymgeiswyr yn uniongyrchol i gyfweliad
- Sicrhau bod ein **Disgrifiadau Swydd** yn ystyriol o ymgeiswyr. Caiff y broses Gwerthuso Swyddi ei hategu gyda ffurflen atodol
- Byddwn yn mabwysiadu dull continwwm at **gyrraedd safonau ieithyddol**. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos gwelliant cyson, parhaus yn eu sgiliau ieithyddol
- Cynnal **adolygiad meincnodi o raddfeydd tâl** awdurdodau lleol yng Nghymru



Ein Diwylliant

Rydym yn teimlo'n angerddol am feithrin diwylliant lle mae ein gweithwyr yn rhannu ymdeimlad o bwrpas, yn cael eu cefnogi a'u harwain yn dda, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, ac yn profi amgylchedd diogel a chynhwysol. Rydym am i fywyd gwaith fod yn brofiad cadarnhaol i bawb. Credwn yn gryf fod holl aelodau tîm Ceredigion yn haeddu'r cyfle i ragori a ffynnu mewn amgylchedd sy'n caniatáu iddynt fod yn driw i'w hunain a gwireddu eu potensial.

Ein nod yw hyrwyddo ac adeiladu ar ein hethos 'Tîm Ceredigion', gan hybu ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Ein huchelgais yw i holl aelodau Tîm Ceredigion fod yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud, a chydabod arwyddocâd eu cyfraniad at lwyddiant cyffredinol ein sefydliad.

Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ganolog i'n diwylliant ac rydym am sicrhau bod ein pawb yn teimlo bod ganddynt lais a bod y llais hwnnw'n cael ei glywed. Byddwn yn parhau i ddarparu sianeli ymgysylltu hygyrch sy'n blaenoriaethu llesiant gweithwyr ac yn meithrin diwylliant o dryloywder, ymddiriedaeth a chydweithio. Bydd ymgysylltu'n gyson â gweithwyr, cydnabyddiaeth, a chymorth llesiant cynhwysfawr yn parhau i fod yn hanfodol i'n llwyddiant wrth ddog yn gyflogwr o ddewis.

Rydym am archwilio a nodi ein gwerthoedd sefydliadol a dod â'r rhain yn fyw. Bydd hyn yn ein helpu i ddarparu dull cyson o weithio a gwneud penderfyniadau. Bydd hefyd yn creu cyfres o safonau y gallwn eu cynnal wrth gydweithio â chydweithwyr a gwasanaethu ein cwsmeriaid. Bydd cydnabod a dathlu pan fydd ein gwerthoedd yn cael eu harddangos yn helpu ein gweithwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysgogi. Mae hyn yn ffactor pwysig wrth recriwtio a chadw'r bobl iawn.

Cydnabyddwn bwysigrwydd cydnabod a dathlu pan fydd pethau'n mynd yn dda. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn darparu amgylchedd diogel i gael sgysiau adeiladol pan nad yw pethau'n gweithio fel yr hoffem. Ein nod yw meithrin diwylliant cydweithredol lle y gallwn weithio gyda'n gilydd, myfyrio a dysgu sut i ddog o hyd i atebion.



Ein Diwylliant

Byddwn yn:

- Nodi **gwerthoedd Tîm Ceredigion** ac ymgorffori ein gwerthoedd yn y ffordd rydym yn gweithio
- Datblygu a chyflwyno **fframwaith cydnabyddiaeth** i sicrhau bod llwyddiant, teyrngarwch ac ymrwymiad yn cael eu datlu
- Adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu â gweithwyr a pharhau i sicrhau bod **lleisiau ein holl bobl yn llywio'r broses gwneud penderfyniadau**
- Cynnal arolygon achlysurol i bennu'r ffordd orau o gefnogi **iechyd a llesiant ein gweithlu**, gan sicrhau bod y cymorth a ddarparwn yn ymatebol, wedi'i dargedu ac yn cael ei groesawu
- Parhau i hyrwyddo ein **diwylliant dwyieithog a'n cyfleoeddatblygu Cymraeg**
- Nodi a gweithredu datrysiad er mwyn ein galluogi i ddadansoddi effeithiolrwydd ein sianeli **cyfathrebu mewnol** a sicrhau ein bod yn cyrraedd y gweithlu mwyaf posibl
- Cynnal **cyfarfodydd chwarterol ag uwch reolwyr gwasanaethau** i ddarparu cymorth mewn perthynas â materion pobl a diwylliant



GYRFA GWAITH DYSGU
CAREER WORK LEARN

Ffyrdd Newydd o Weithio

Mae ein sefydliad wedi'i ffurfio o unigolion hynod o dalentog. Roedd eu dyfeisgarwch a'u gallu i addasu i'w weld yn amlwg yn ystod argyfwng Covid-19. Roedden nhw wedi llwyddo i gefnogi ein trigolion a chynnal gwasanaethau, gan gyflwyno a mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio mewn llawer o achosion ar yr un pryd. Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus, mae'n hanfodol ein bod yn manteisio ar y dalent hon ac yn datgloi ei photensial.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda phwysau cyllidebol cynyddol. Er mwyn cyflawni ein hamcanion corfforaethol a chynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon yr un pryd, rhaid i daith ein gweithlu fod yn un o adolygu a newid parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal dull arloesol ac ystywyth, yn agored ac yn gallu gwrthsefyll newid, ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

Gyda digideiddio cynyddol gweithleoedd ar draws pob lleoliad, mae cymhwysedd digidol yn hanfodol. Er mwyn cefnogi ein gweithlu yn well o ran sgiliau digidol, byddwn yn cyflwyno fframwaith cymhwysedd digidol. Bydd y fframwaith yn darparu disgwyliadau sgiliau digidol clir o ran meini prawf recriwtio a dewis, rheoli perfformiad, yn ogystal â nodi anghenion datblygu ar draws y gweithlu.

Mae ein gweithlu yn dweud wrthym fod gweithio hybrid wedi cynnig llawer o fanteision gan gynnwys cynhyrchiant gwell, llai o deithio a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Cydnabyddir yn eang hefyd bod hyblygrwydd gweithio hybrid yn gwella cyfraddau cadw a recriwtio staff. Byddwn yn adolygu ein model gweithio hybrid presennol i gynnwys y buddion hyn fel rhan o bolisi gweithio hybrid parhaol.

Ein nod yw gwella effeithlonrwydd ein prosesau a systemau mewnol gan gynnig modd i ni fesur ein perfformiad yn effeithiol. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n cyfrifoldeb moesol a chorfforaethol tuag at gynaliadwyedd ac arferion ecogyfeillgar.



GYRFA GWAITH DYSGU
CAREER WORK LEARN

Tudalen 90

Ffyrdd Newydd o Weithio

Byddwn yn:

- Adolygu ein model **gweithio hybrid** a chynnig dull gweithredu parhaol i'w fabwysiadu
- Penodi **Swyddog Datblygu Systemau ac Integreiddio AD** i ddatblygu ein huchelgeisiau gweithio digidol
- **Datblygu dodl**, ein system e-ffurflenni, fel bod holl brosesau Pobl a Threfniadaeth yn ddi-bapur
- Datblygu **system cofnodion digidol a chreu dogfennau newydd**
- Cyflwyno **fframwaith cymhwysedd digidol** a chynnal dadansoddiad o rôl a sgiliau gweithwyr
- Cyflwyno rhaglen uwchsgilio digidol ar draws y sefydliad
- Adolygu'r holl **bolisiau Pobl a Threfniadaeth** i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn cydymffurfio, yn hygyrch ac yn adlewyrchu ein diwylliant
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni **rhaglenni trawsnewid** trwy ymgysylltu â gweithwyr a chyfleoedd datblygu



Gwireddu potensial

Rydym yn teimlo'n angerddol am ddatblygiad gweithwyr a sicrhau bod pob aelod o Dîm Ceredigion yn cael ei gefnogi ac yn cael y cyfle i wireddu ei botensial a'i ddyheadau gyrfa. Rydym eisoes yn darparu ystod eang o hyfforddiant i gefnogi anghenion dysgu a datblygu ein gweithlu. Rydym hefyd yn cynnig ystod o gymwysterau proffesiynol i helpu ein gweithwyr i ddatblygu eu gyrfaedd. Hoffem adeiladu ar y gwaith hwn trwy ddatblygu llwybrau datblygu gyrfa a sgiliau clir i sicrhau bod datblygiad ein gweithlu yn cyfateb yn llawn ag anghenion cynllunio busnes ac anghenion y sefydliad.

Fel rhan o'r gwaith hwn ac er mwyn rhoi sylw i'r bylchau sgiliau hanfodol yn y gweithlu, rydym yn bwriadu denu talent newydd trwy ein cynllun prentisiaethau yn ogystal â chyflwyno cynllun newydd i raddedigion.



Cydnabyddwn bwysigrwydd a gwerth cynllunio'r gweithlu a'r angen i ddefnyddio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i ragweld capasiti a gallu sefydliadol yn y dyfodol. Yn unol â hyn, byddwn yn adolygu ein proses cynllunio'r gweithlu ac yn datblygu model cynllunio olyniaeth cadarn a symlach.

Mae ein rheolwyr yn allweddol o ran sicrhau ein gallu fel sefydliad i groesawu ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio a chyflawni rhagoriaeth yn y dyfodol. Mae ein rheolwyr yn cael effaith sylweddol ar ein diwylliant a phrofiad cyflogaeth o ddydd i ddydd ein gweithlu. Maent yn chwarae rôl ganolog wrth i ni adeiladu timau sy'n ymgorffori agwedd gydweithredol, yn frwdfrydig ac yn gallu troi heriau yn gyfleoedd ar gyfer arloesi a rhagoriaeth.

Ochr yn ochr â'r rhaglenni datblygu rheolaeth presennol byddwn yn cynnal sesiwn ddiweddarau flynyddol er mwyn i'n rheolwyr gael gwybodaeth am y tueddiadau a'r arferion gorau diweddaraf gan sicrhau eu bod yn gallu llywio'r dirwedd sy'n newid yn barhaus a symud ein sefydliad yn ei flaen.

Gwireddu potensial

Byddwn yn:

Datblygu'r gweithlu:

- Datblygu **model cynllunio olyniaeth** sy'n lleihau risg ac amharu ar barhad busnes
- Adolygu ein **proses werthuso flynyddol** i gasglu dyheadau datblygu gweithwyr, nodi potensial yn y dyfodol ac archwilio sgiliau a chymwyseddau
- Adolygu ein **rhaglenni ymsefydlu corfforaethol a thîm** i sicrhau bod ein recriwtiaid newydd yn cael y cyflwyniad gorau i'w rôl newydd
- Gwneud y defnydd gorau o'n **system rheoli dysgu** 'Pwll Dysgu Ceredigion' i wneud defnydd llawn o'i botensial
- Er mwyn goresgyn heriau recriwtio byddwn yn mabwysiadu dull wedi'i dargedu at ein **cyfleoedd prentisiaeth**
- Datblygu a chyflwyno **cynllun i raddedigion** er mwyn denu a chadw talent yng Ngheredigion
- Parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd **datblygu'r Gymraeg** i ddiwallu anghenion darparu gwasanaethau a chefnogi ein diwylliant dwyieithog
- Datblygu ymhellach ac ehangu ein **dysgu cyfunol** i gynnig mwy o fynediad a gwella canlyniadau

Datblygu rheolwyr ac arweinwyr:

- Gan ddefnyddio ein talent a'n profiad mewnol, datblygu a chyflwyno **Cynllun Mentora / Hyfforddi Rheolwyr**
- Datblygu a chyflwyno **sesiwn ddiweddarau flynyddol** i sicrhau bod ein rheolwyr yn cael gwybodaeth am y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf
- Parhau i gynnig **cyfleoedd ILM** i dyfu ein dewis o arweinwyr y dyfodol

Mesur Llwyddiant

Mae'r strategaeth hon yn ceisio esblygu gydag anghenion ein sefydliad a'n gweithwyr. Bydd y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth yn gweithio gydag uwch reolwyr i adolygu a llywio esblygiad y strategaeth gyda gwelliannau yn cael eu gwneud yn ôl yr angen ar hyd ein taith.

Byddwn yn mesur cynnydd yn barhaus gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon gweithwyr a rhanddeiliaid, gwerthusiadau ac amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol. Bydd y pedair blaenoriaeth yn y strategaeth hon yn cael eu hadrodd arnynt yn flynyddol gan ddefnyddio'r mesurau canlynol:

Profiad yr Ymgeisydd a Denu Talent

Cynnydd yn nifer cyfartalog yr ymgeiswyr fesul ymgyrch

Nifer y cyfleoedd profiad gwaith a gynigir

Nifer y swyddi gwag corfforaethol

Ein Diwylliant

Canran y gweithwyr sy'n teimlo bod y Cyngor yn gofalu am eu hiechyd a'u llesiant

Nifer y gweithwyr sydd wedi gwella eu sgiliau Cymraeg (continwmm)

Trosiant gweithwyr

Absenoldeb salwch

Ffyrdd Newydd o Weithio

Nifer y rolau â lefelau cymhwysedd digidol a nodwyd

Nifer y gweithwyr y cafodd eu lefelau cymhwysedd digidol eu cofnodi

Nifer y ffurflenni ar dodl

Nifer y bobl sydd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau digidol

Gwireddu Potensial

Nifer y prentisiaid a gafodd eu recriwtio

Nifer y graddedigion a gafodd eu recriwtio o dan y cynllun i raddedigion

Nifer y rheolwyr sydd â chymhwyster arweinyddiaeth a/neu reoli cydnabyddedig





Ymholiadau cyffredinol

www.ceredigion.gov.uk

01545 570881

clic@ceredigion.gov.uk

Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth

01970 633949

humanresources@ceredigion.gov.uk



Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



This **Integrated Impact Assessment tool** incorporates the principles of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Sustainable Development Principles, the Equality Act 2010 and the Welsh Language Measure 2011 (Welsh Language Standards requirements) and Risk Management in order to inform effective decision making and ensuring compliance with respective legislation.

1. PROPOSAL DETAILS: (Policy/Change Objective/Budget saving)

Proposal Title	Workforce Plan 2023-2028				
Service Area	People & Organisation	Corporate Lead Officer	Geraint Edwards	Strategic Director	James Starbuck
Name of Officer completing the IIA	Geraint Edwards	E-mail	geraint.edwards2@ceredigion.gov.uk	Phone no	01545 572019

Please give a brief description of the purpose of the proposal

The Workforce Plan 2023-2028 sets out how we will attract, develop and retain our most valuable asset – our people. The effectiveness of our organisation hinges not just on attracting the best talent, but also in creating a strong workplace community that supports its people, and recognises the unique attributes of every Team Ceredigion member. The Workforce Plan 2023- 2028 outlines how we will develop the capacity and capability of our workforce to support the priorities identified in our Corporate Strategy 2022-2027.

Who will be directly affected by this proposal? (e.g. The general public, specific sections of the public such as youth groups, carers, road users, people using country parks, people on benefits, staff members or those who fall under the protected characteristics groups as defined by the Equality Act and for whom the authority must have due regard).

The Workforce Plan will affect Council employees, excluding those directly employed by school Governing Bodies.

VERSION CONTROL: The IIA should be used at the earliest stages of decision making, and then honed and refined throughout the decision making process. It is important to keep a record of this process so that we can demonstrate how we have considered and built in sustainable development, Welsh language and equality considerations wherever possible.

Author	Decision making stage	Version number	Date considered	Brief description of any amendments made following consideration
	<i>e.g. Budget Process, LG, Scrutiny, Cabinet etc.</i>			<i>This will demonstrate how we have considered and built in sustainable development throughout the evolution of a proposal. Have you considered and applied the sustainable development principle and Well-being Goals?</i>
Geraint Edwards	Scrutiny	V1	25/06/2023	

Tudalen 96

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



--	--	--	--	--

COUNCIL STRATEGIC OBJECTIVES: Which of the Council's Strategic Objectives does the proposal address and how?

Boosting the economy, supporting businesses and enabling employment	The Workforce Plan 2023-2028 will develop the capacity and capability of the workforce to support delivery of high quality services
Creating caring and healthy communities	The Workforce Plan 2023-2028 will develop the capacity and capability of the workforce to support delivery of high quality services
Providing the best start in life and enabling learning at all ages	The Workforce Plan 2023-2028 will develop the capacity and capability of the workforce to support delivery of high quality services
Creating sustainable, green and well-connected communities	The Workforce Plan 2023-2028 will develop the capacity and capability of the workforce to support delivery of high quality services

NOTE: As you complete this tool you will be asked for **evidence to support your views**. These need to include your baseline position, measures and studies that have informed your thinking and the judgement you are making. It should allow you to identify whether any changes resulting from the implementation of the recommendation will have a positive or negative effect. Data sources include for example:

- *Quantitative data - data that provides numerical information, e.g. population figures, number of users/non-users*
- *Qualitative data – data that furnishes evidence of people's perception/views of the service/policy, e.g. analysis of complaints, outcomes of focus groups, surveys*
- *Local population data from the census figures (such as Ceredigion Welsh language Profile and Ceredigion Demographic Equality data)*
- *National Household survey data*
- *Service User data*
- *Feedback from consultation and engagement campaigns*
- *Recommendations from Scrutiny*
- *Comparisons with similar policies in other authorities*
- *Academic publications, research reports, consultants' reports, and reports on any consultation with e.g. trade unions or the voluntary and community sectors, 'Is Wales Fairer' document.*
- *Welsh Language skills data for Council staff*

2. SUSTAINABLE DEVELOPMENT PRINCIPLES: How has your proposal embedded and prioritised the five sustainable development principles, as outlined in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, in its development?

Sustainable Development Principle	Does the proposal demonstrate you have met this principle? If yes, describe how. If not, explain why.	What evidence do you have to support this view?	What action (s) can you take to mitigate any negative impacts or better contribute to the principle?
Long Term	Whilst the plan responds to current challenges it also considers the longer	Each service has completed a workforce	

Tudalen 97

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Balancing short term need with long term and planning for the future.	term challenges with the aim of ensuring the workforces possesses the correct skills and capacity to meet these.	planning toolkit to identify the challenges in their areas. These were all considered as part of this plan's development.	
Collaboration Working together with other partners to deliver.	All Corporate Lead officers and thier Senior team have contributed to the plan through the completion of the Service-specific Workforce Plan toolkit. The plan will be shared with our corporate trade union partners for comment.		
Involvement Involving those with an interest and seeking their views.	The Plan has been developed by involving all Corporate Manager and Corporate Lead Officer to capture their view on the current and longer term needs of their particular service areas.		
Prevention Putting resources into preventing problems occurring or getting worse.	Focus is given to the current recruitment and retention difficulties and the impact this has on meeting future demands. The Plan introduces strategies to encourage wider employment entry paths and opportunities to meet a sustainable future workforce.	We will monitor and gather evidence on staff recruitment and turn over	
Integration Positively impacting on people, economy, environment and culture and trying to benefit all three.	Through maintaining a motivated and stable workforce, the majority of whom live within the county boundary, the Plan will positively impact on people (our staff) and the local economy.		

Tudalen 98

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



3. WELL-BEING GOALS: Does your proposal deliver any of the seven National Well-being Goals for Wales as outlined on the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015? Please explain the impact (positive and negative) you expect, together with suggestions of how to mitigate negative impacts or better contribute to the goal. We need to ensure that the steps we take to meet one of the goals aren't detrimental to meeting another.			
Well-being Goal	Does the proposal contribute to this goal? Describe the positive or negative impacts-	What evidence do you have to support this view?	What action (s) can you take to mitigate any negative impacts or better contribute to the goal?
3.1. A prosperous Wales Efficient use of resources, skilled, educated people, generates wealth, provides jobs.	The Plan's aim is to foster a skilled, outcome focussed, innovative and progressive workforce, dedicated to delivery high quality and efficient service to the people of Ceredigion.	The Council is the largest employer in the county and ensuring job security in well paid roles is key.	Develop range of employment entry opportunities and career pathways which allow staff to meet their potential
3.2. A resilient Wales Maintain and enhance biodiversity and ecosystems that support resilience and can adapt to change (e.g. climate change).			
3.3. A healthier Wales People's physical and mental wellbeing is maximised and health impacts are understood.	The Plan recognises the importance of employee health and wellbeing and through periodic surveys will identify how best this can be supported with targeted strategies if necessary	Annual staff surveys to monitor employees view of their health	Continual review of health and wellbeing guidance and strategies in response to local and nationwide issues
3.4. A Wales of cohesive communities Communities are attractive, viable, safe and well connected.			
3.5. A globally responsible Wales Taking account of impact on global well-being when considering local social, economic and environmental well-being.			

Tudalen 99

Cyngor Sir Ceredigion County Council - Integrated Impact Assessment (IIA)

An integrated tool to inform effective decision making



Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cyfreithiol



ATODLEN


Ardaloedd yn Aberteifi sy'n rhan o'r Gorchymyn as yn "fannau cyhoeddus"

- Pont-Y-Cleifion hyd y cylchdro (yn cynnwys y gyfyfnewidfa deleffon a'r Orsaf Ambiwllans)
- Sgwâr Finch hyd at y gyffordd â Rhos Williams
- Ysbyty Aberteifi & Ardal a'r adeiladau
- Cei'r Tywysog Siarl o Bont y Priordy i Gei Cambria
- Cei Cambria hyd at y slipwê yn Netpool
- Ffordd Netpool
- Netpool
- Tir hamdden Netpool, parc sglefrio, ystafelloedd newid, mynwentydd, cysgodfannau a meysydd parcio hyd at Res Greenfield
- cae chwarae Maes Radley
- Rhos Greenfield
- Sgwâr Greenfield
- Ffordd Tŷ'r Baddon hyd at yr Orsaf Tan
- Feidrfair hyd (yn cynnwys y cyfleusterau cyhoeddus)
- Ffordd y Gogledd
- Ffordd Aberystwyth o bwynt ger llaw Ffordd y Gogledd hyd y gyffordd â Dolydd Greenland
- Pendre,
- Ysgol Uwchradd Aberteifi , caeau ac ardal y dingl hyd at Swyn- y- Nant a hyd at bwynt ger llaw Ffordd y Gogledd.
- Coleg Ceredigion,
- Canolfan Hamdden
- Gerddi Fictoria gan gynnwys ardal y Bandstand a'r toiledau, a'r Gofeb Ryfel
- Cae Brenin Siôr gan gynnwys cae pêl-droed, cae rygbi, cyrtiau tennis, llain bowlio, maes chwarae a chysgodfan.
- Heol Gwbert o Gerddi Fictoria hyd y pwynt mynediad i dir yr ysgol rhwng Bronant a Phant yr Haul
- Coedlan y Parc
- Dolydd Greenland o'r gyffordd â Choedlan y Parc hyd y gyffordd â Ffordd Aberystwyth
- Gerddi Napier hyd at Faes-yr Haf
- Maes-yr Haf o'r gyffordd â Gerddi Napier a Ffordd y Gogledd
- Stryd Napier,
- Stryd Fawr,
- Rhos Williams,
- Stryd William,
- Rhos Williams,
- Stryd y Priordy,
- Cwrt y Priordy,
- Pwllhai,
- Rhos y Coleg,
- Sgwâr Neuadd y Dref,
- Rhos y Frenhines,

- Stryd y Cei,
- Lôn Eben,
- Mwldan Isaf,
- Mwldan Ganol,
- Mwldan Uchaf,
- Lôn Carrier,
- Rhes Rook,
- Stryd y Bont o'r gyffordd â'r Strand a Phont Aberteifi
- Rhiw Grosvenor,
- Y Strand,
- Stryd Morgan,
- Stryd y Santes Fair,
- Lôn Chancery,
- Lôn y Farchnad, Rhes Albion,
- Arcêd y Stryd Fawr,
- Stryd yr Eglwys,
- Maes Parcio Riverside
- Fairfield a maes parcio'r pwll nofio
- Ysgol Gynradd y Babanod Aberteifi, mannau/adeiladau cyhoeddus.
- Theatre Mwldan Car park and toilets
- Maes Parcio Rhes Gloster (Gloucester)
- Iard Eglwys y Santes Fair
- Ardal y tu cefn i Eglwys y Santes Fair
- Tir hen Eglwys y Santes Fair
- Ardal ar bwys depo'r Cyngor a'r Orsaf Ambiwylans
- Ffordd fynediad y tu cefn ac i'r ochr o'r pwll nofio.

**ALCOHOL (CONSUMPTION IN PUBLIC SPACE PROTECTION) ORDER
CARDIGAN (2017)**

**GORCHYMYN YFED ALCOHOL MEWN GWARCHOD
GWAGLEOEDD CYHOEDDUS ABERTEIFI 2017**



ATGYNHYRCHU Y MAP FFIN O ODEUNYDD YR ORDNANCE SURVEY GYDA CHANIAT AD YR
ORDNANCE SURVEY AR RAN RHEOLWR LLYFRFA EI MAMRHYDDI © HAWLFRANT Y GORON,
MAE ATGYNHYRCHU HEB GANIATAD YN TORRI HAWLFRANT Y GDORON A GALL HYN ARWAIN AT
ERLYNIAD NEU ACHOS S.F.L. CYNGOR BIR CEREDIGION, 100624210, 2010.

THIS MAP IS REPRODUCED FROM ORDNANCE SURVEY MATERIAL WITH THE PERMISSION OF
THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE &
CROWN COPYRIGHT. UNAUTHORISED REPRODUCTION INFRINGES CROWN COPYRIGHT AND MAY LEAD
TO PROSECUTION OR CIVIL PROCEEDINGS. CEREDIGION COUNTY COUNCIL, 100624210, 2010
PRODUCED BY CEREDIGION R&I 22/06/2010

Handwritten signature



CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA
2014 a Rheoliadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma
(Cyhoeddi Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus) 2014**

**GORCHYMYN ALCOHOL (GWARCHOD RHAG YFED MEWN MAN
CYHOEDDUS) (LLANBEDR PONT STEFFAN) 2017**

Mae Cyngor Sir Ceredigion County Council ("y Cyngor") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus canlynol o dan adrannau 59, 63, 67 a 68 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 ("y Ddeddf").

Gellir galw'r Gorchymyn hwn yn "Orchymyn Alcohol (Gwarchod Rhag Yfed Mewn Man Cyhoeddus) (Llanbedr Pont Steffan) Cyngor Sir Ceredigion 2017" ac fe ddaw i rym ar **20 HYDREF 2017** a bydd yn dal mewn grym am gyfnod o dair blynedd, oni chaiff ei ymestyn drwy orchmynion pellach yn unol â phwerau statudol y Cyngor.

Rhagarweiniad

5. Mae pobl yn yfed alcohol ac yn bod yn feddw mewn mannau cyhoeddus yn arwain at fwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aflonyddu a bygwth aelodau o'r cyhoedd yn y mannau cyhoeddus hynny. Mae gwahardd yfed alcohol ynghanol tref Llanbedr Pont Steffan wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol.
6. Mae'r Cyngor yn fodlon fod y gweithredoedd hyn, sef yfed alcohol, o'u cyflawni mewn mannau cyhoeddus yn nhref Llanbedr Pont Steffan, wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywydau pobl sy'n byw yn yr ardal, ac mae'n debygol y caiff y gweithredoedd hyn eu cyflawni mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal honno, ac y bydd hynny'n cael effaith andwyol. Mae effaith y gweithredoedd hyn yn debygol o fod yn gyson ac yn barhaus i'r fath raddau fel bod y gweithredoedd yn afresymol, a bod cyfiawnhad dros y cyfyngiadau a bennir yn y Gorchymyn hwn.
7. Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn nhref Llanbedr Pont Steffan a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac a ddynodir ar y map sy'n amgaaedig. Mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw le y mae gan y cyhoedd neu unrhyw garfan o'r cyhoedd fynediad ato, drwy dalu neu beidio, a hynny drwy hawl neu drwy ganiatâd hysbys neu ymhlyg. Mae hynny'n

cynnwys strydoedd, ffyrdd, palmentydd, lleiniau glaswellt, ardaloedd i gerddwyr, seddi, manau amwynder, parciau a meysydd parcio.

8. Nid yw'r Gorchymyn yn gwahardd yfed alcohol na meddu ar alcohol mewn man cyhoeddus, neu ran o fan cyhoeddus, lle caiff hynny ei awdurdodi drwy drwydded, gan gynnwys tafarndai a chlybiau. Caiff safleoedd sy'n destun Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro eu heithrio hefyd.

Effaith y Gorchymyn

3. Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd yfed alcohol yn y manau cyhoeddus hynny a restrir yn yr Atodlen i'r hysbysiad hwn.
4. Effaith y Gorchymyn hwn yw, os bydd swyddog yr heddlu â rheswm i gredu fod rhywun yn yfed alcohol yn un o'r manau cyhoeddus yn yr Atodlen, neu wedi bod, neu'n bwriadu gwneud, yna gall y swyddog hwnnw fynnu nad yw'r person yn yfed yr alcohol, neu unrhyw sylwedd y mae gan y swyddog reswm i gredu mai alcohol ydyw, yn y manau hynny, neu gall y swyddog fynnu bod y person yn ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd sy'n ei ddal i'r swyddog. Yna gall swyddog yr heddlu waredu unrhyw alcohol a gaiff ei ildio.

Troseddau


3. Yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf, mae methu ag ufuddhau cais gan swyddog yr heddlu i roi'r gorau i yfed alcohol yn y manau hynny, neu fethu ag ufuddhau cais gan swyddog yr heddlu i ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd sy'n ei ddal, a hynny heb esgus rhesymol, yn drosedd o dan y Ddeddf.
4. Os cyflawnir trosedd o dan y Ddeddf gall rhywun:
 - a. Gael hysbysiad cosb o £50 am greu anhrefn; neu
 - b. Gael ei arestio a'i erlyn gan arwain at ddirwy lefel 2 (uchafswm o £500 ar hyn o bryd)

Rhodddwyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Ceredigion ar hwn y ___ diwrnod o Hydref yn y flwyddyn Dwy Fil ac Un Deg Saith.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR CEREDIGION)
ar hyn ym mhresenoldeb:-)

----- *W. Thomas* ----- Cadeirydd

----- *R. Jones* ----- Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cyfreithiol



ATODLEN

Ardaloedd yn Llanbedr Pont Steffan sy'n rhan o'r Gorchymyn as yn "fannau cyhoeddus" :

- Stryd y Coleg (A482) o Sgwâr Harford i'w chyffordd â Heol y Gogledd a Ffordd y Bryn
- Sgwâr Harford
- Stryd y Bont (A492) o Sgwâr Harford i Rif. 48 gyferbyn â'r lôn sydd ar bwys y Stryd Newydd
- Ffordd y Bryn o'i chyffordd â Ffordd yr Eglwys i gylchfan ar bwys Heol y Gogledd a Ffordd y Coleg
- Stryd yr Eglwys hyd at Eglwys San Pedr
- Stryd Fawr (A475) o Sgwâr Harford i'w chyffordd â Rhes Terrace a Stryd yr Eglwys
- Stryd y Farchnad
- Ffordd y Cambria / meysydd parcio ar bwys Ffordd y Bryn
- Cofeb Rhyfel Parc Yr Orsedd a'r ardal amwynderol wrth y cornel â Ffordd y Bryn a Heol y Gogledd
- Maes Parcio'r Archfarchnad oddi ar Stryd y Farchnad a Ffordd y Bryn
- Parc Rhes Y Deml (a elwir hefyd yn Barc St. Germain-Sur-Moine)
- Rhan o Res Y Deml
- Heol Sant Tomos (gan gynnwys y ti'r ger llaw'r Is-Orsaf Drydan)
- Maes parcio'r Cwmins (ger llaw Rhes Fuddug) a'r man eistedd palmantog
- Tir Eglwys Sant Pedr

ALCOHOL CONSUMPTION IN PUBLIC SPACE PROTECTION ORDER - LAMPETER (2017)
GORCHYMYN YFED ALCOHOL MEWN

GWARCHOD
GWAGLEOEDD CYHOEDDUS

LLANBEDR PONT STEFFAN (2017)



ATGYNRCHIR Y MAP HYN O DOBLIYDD YR ORDINANCE SURVEY OYDA CHANIATAD YR
ORDINANCE SURVEY AR RAN RHEOLWR LLYRFA BI MAWRNYD I'D MAWLFRANT Y GORON.
MAE ATGYNRCHIR HEB GANIATAD YN TORRI MAWLFRANT Y GORON A GALL HYN ARWAIN A
BRLYNIAD NEU ACHOS SIFIL CYNGOR I'R CEREDIGION. 100024410. 2010.

THIS MAP IS REPRODUCED FROM ORDINANCE SURVEY MATERIAL WITH THE PERMISSION OF
ORDINANCE SURVEY ON BEHALF OF THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE ©
CROWN COPYRIGHT. UNAUTHORISED REPRODUCTION INFRINGES CROWN COPYRIGHT AND MAY LEAD
TO PROSECUTION OR CIVIL PROCEEDINGS. CEREDIGION COUNTY COUNCIL. 100024419. 2010.
PRODUCED BY CEREDIGION RAI 28/08/2010

PS
WST



Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig	Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus				
Maes gwasanaeth	Polisi a Phartneriaethau	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams	Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees
Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Tim Bray	E-bost	Timothy.Bray@ceredigion.gov.uk		Ffôn

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae'r Tîm Partneriaethau, gyda chymorth y Gwasanaethau Cyfreithiol, wedi cynnal adolygiad o'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus gyda'r bwriad o barhau â'r cyfyngiadau presennol ynghylch yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus yng nghanol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Y cyhoedd yn y trefi a enwyd.

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Tim Bray	Cabinet	1	05.09.23	



AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?	
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	
Creu cymunedau gofalgarg ac iach	Mae'r ardaloedd canolog yn y tair tref a enwyd uchod yn barthau di-alcohol, a bydd hynny'n aros yr un fath. Nod y parthau hyn yw diogelu'r cyhoedd (trigolion lleol, perchnogion busnesau, ymwelwyr a thwristiaid) rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans wedi'i achosi gan bobl feddw. Mae'r Parthau hefyd yn effeithiol o ran cwtogi ar sbwriel a llanast ar y strydoedd, fel poteli, caniau a chyfog.
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a chaniatáu i bobl o bob oed ddysgu	
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Bydd yn ofynnol adolygu'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus bob tair blynedd ar ôl eu gweithredu, i gadarnhau a oes angen amdanynt o hyd.</p>	<p>Pan gyflwynwyd y gorchmynion i ddechrau, cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl oedd yn yfed yng nghanol y tair tref. Mae data diweddar yr Heddlu'n dangos fod angen cadw'r gwaharddiadau.</p>	<p>Cynhelir adolygiadau yn unol â'r gofynion.</p>
<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p>	<p>Mae'r Heddlu'n parhau i weithio gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill wrth weithredu'r Gorchmynion presennol ac erlyn troseddwyd, fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor hefyd yn dal i gydweithio â safleoedd trwyddedig i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl i yfed yn gyfrifol.</p>	<p>Mae'r Heddlu'n cadw data ar bob achos o feddiannu diodydd gan bobl a'u herlyn, fel bod modd cadw golwg ar dueddiadau a datblygiadau.</p>	<p>Cadw golwg ar dueddiadau a datblygiadau er mwyn sicrhau fod y Gorchmynion yn effeithiol.</p>
<p>Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn</p>	<p>Mae'r canllawiau'n pennu hyd a lled y drefn ymgynghori cyn ymestyn y Gorchymynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi cynnal ymarfer ymgysylltu yn ddiweddar fel rhan o Asesiad Strategol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, a oedd yn ceisio canfod teimladau'r cyhoedd ar faterion yn cynnwys camddefnyddio alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p>	<p>Mae'r Cynghorau Tref a Chymuned, Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys oll yn croesawu'r adnewyddiad.</p>	<p>Llunnir datganiadau i'r wasg ynglŷn âg adnewyddu'r Gorchmynion, a fydd hefyd yn amlygu'r ffaith y bydd gwaharddiadau ar yfed diodydd meddwol mewn mannau cyhoeddus yn parhau, ac yn esbonio pa drosedd y byddai pobl yn ei chyflawni pe byddent yn mynd yn groes i'r Gorchymyn.</p>
<p>Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu</p>	<p>Bydd ymestyn y Gorchmynion am dair blynedd arall yn sicrhau bod modd parhau â mesurau i fynd i'r afael â'r problemau a nodir.</p>	<p>Data'r Heddlu.</p>	<p>Fel uchod. Arwyddion eisoes yn eu lle ac wedi'u gwella'n ddiweddar o amgylch ardal y Castell yn Aberystwyth. Bydd arwyddion hefyd yn cael eu hadolygu ar ôl eu hadnewyddu.</p>
<p>Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a</p>	<p>Mae'r Gorchmynion presennol sy'n gwahardd diodydd meddwol yng nghanol y trefi a enwyd eisoes wedi</p>	<p>Roedd pobl yn gyffredinol yn croesawu'r Gorchmynion</p>	<p>Fel y nodir uchod, sicrhau y caiff y Gorchmynion eu hysbysebu'n amlwg er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.</p>



diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill	cael effaith gadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol, a galluogi'r Heddlu i feddiannu diodydd gan bobl neu ofyn i droseddwyr ymadael â'r ardal dros dro.	gwreiddiol.	
---	---	-------------	--

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi			
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)			
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	Ydy – mae'r Gorchmynion hyn yn diogelu llesiant corfforol y cyhoedd gan eu bod yn cwtogi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol ac aflonyddwch yn yr ardaloedd a nodir.	Mae pobl yn gyffredinol yn eu croesawu, fel y soniwyd eisoes.	Fel y sonnir uchod, bydd cyhoeddusrwydd yn sicrhau y caiff y Gorchmynion eu hysbysebu'n amlwg er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Cynhelir adolygiadau hefyd, fel y disgrifir uchod.
3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da	Bydd pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd yn elwa ar y Gorchmynion yn y tair ardal a enwyd, a hynny oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Mae pobl yn gyffredinol yn eu croesawu, fel y soniwyd eisoes.	Fel y sonnir uchod, bydd cyhoeddusrwydd yn sicrhau y caiff y Gorchmynion eu hysbysebu'n amlwg er mwyn codi ymwybyddiaeth y



			cyhoedd. Cynhelir adolygiadau hefyd, fel y disgrifir uchod.
3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol			

<p>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p> <p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella. <i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p> <p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p> <p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p>	<p>Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bobl o bob oed</p>	<p>Mae pobl yn gyffredinol yn eu croesawu, fel y soniwyd</p>	<p>Dim effeithiau negyddol ar y carfannau gwarchoddedig o ran cydraddoldeb.</p>

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	eisoes. Data'r Heddlu ar feddiannu diodydd ac erlyn pobl.	
	✓					
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bobl beth bynnag eu hanabledd oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	✓			anhrefn.		
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	✓					
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Bydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn fuddiol i bawb oherwydd gostyngiad mewn trosedd ac anhrefn.	Gweler uchod.	Gweler uchod.
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					



Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Ni fydd cadw'r gwaharddiad ar ddiodydd meddwol yng nghanol y tair tref a enwyd yn hyrwyddo cydraddoldeb fel y cyfryw, ond bydd yn dileu anfantais y gallai pobl ei wynebu pe byddant yn ddiodef neu'n dyst i unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol a bygythiol ac aflonyddwch wedi'i achosi gan bobl feddw.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Gweler uchod.

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Gweler uchod.

Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantaision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Fel rhan o'i waith o ddydd i ddydd, mae'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth yn rhannu cyngor perthnasol ac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth lle bo'n briodol, a hefyd yn gwneud atgyfeiriadau uniongyrchol i'r Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol lle mae cyffuriau ac alcohol yn broblem. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer cyngor a gwybodaeth sy'n ymdrin â phroblemau yfed mewn Mannau Agored Cyhoeddus.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Trafodwyd gydag Arolygydd Partneriaethau Heddlu Dyfed-Powys, ac Uwch Swyddog Tai Cyngor Sir Ceredigion.

Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Gweler uchod.

3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>						
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Ddim yn berthnasol.		
	✓					
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim			
			✓	Ddim yn berthnasol.		
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?			✓			
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Ddim yn berthnasol.		
			✓			
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Ddim yn berthnasol.		
			✓			

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Amherthnasol – Ni fydd unrhyw effeithiau negyddol ar yr un o'r carfannau gwarchodedig o ran cydraddoldeb, nac ar yr iaith Gymraeg.			

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu




Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Isel iawn	1		1		1
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Dim effeithiau newydd.					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Tim Bray		15.08.23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams	<i>Alun Williams</i>	15.08.23
Y Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees		24.08.23
Deiliad y Portffolio	Councillor Matthew Vaux		29.08.23

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	5ed o Fedi 2023
Teitl:	Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – Traeth y Borth
Pwrpas yr adroddiad:	Ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i ymestyn Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer ardal ddynodedig o draeth y Borth am dair blynedd arall.
Er:	Penderfyniad
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Cyn 2014, roedd gan ran o draeth a phromenâd y Borth ddau Orchymyn Rheoli Cŵn ar waith a wnaed o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 - un yn gwahardd cŵn o'r traeth (1 Mai – 30 Medi) ac un yn ei gwneud yn ofynnol i gŵn fod ar dennyn ar y promenâd. Roedd y Gorchymynion Rheoli Cŵn hyn yn cwmpasu rhan o'r traeth nad oedd wedi'i chwmpasu gan is-ddeddf leol a chawsant eu rhoi ar waith yn 2008.

Cawsant eu cyflwyno am y rhesymau canlynol: -

- 1) Roedd Cyngor Cymuned y Borth yn cefnogi estyniad daearyddol yr is-ddeddfau cŵn presennol oherwydd cwynion gan drigolion ac ymwelwyr ynglŷn â baw cŵn a chŵn allan o reolaeth.
- 2) Mae'r rhan hon o'r traeth yn rhan o ardal asesu Traeth Baner Las. Mae caniatáu cŵn ar y traeth yn fwriadol yn ystod cyfnod asesu'r Faner Las yn golygu nad yw'r traeth yn cydymffurfio â'r meini prawf hanfodol sy'n ofynnol gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol sy'n rhedeg Rhaglen y Faner Las a allai beryglu statws Baner Las Traeth y Borth.

Cyn cyflwyno'r Gorchymynion Rheoli Cŵn yn 2008, ystyriwyd cydbwysu buddiannau'r rhai sy'n gyfrifol am gŵn yn erbyn buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan weithgareddau cŵn. Wrth wneud hynny, cydnabuwyd y dylai'r cyhoedd, ac yn benodol plant, gael mynediad i ardaloedd di-gŵn a manau lle cedwir cŵn o dan reolaeth lem. Yn ogystal, mae'r rhai sy'n gyfrifol am gŵn angen mynediad i fannau lle gall eu cŵn gael ymarfer heb gyfyngiadau gormodol. Roedd y Cyngor yn fodlon bod digon o gyfle i gŵn redeg yn rhydd ar y rhan o'r traeth nad yw'n dod o dan Is-ddeddfau Gwahardd Cŵn, gan ganiatáu i berchnogion cŵn gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Yn 2014, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus a ddisodlodd y Gorchmynion Rheoli Cŵn. Parhaodd y Gorchmynion Rheoli Cŵn presennol mewn grym tan 19 Hydref 2017 ond o 20 Hydref 2017 daethant yn Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn awtomatig.

Mae gweithredu gorchymyn yn ei gwneud yn drosedd pan fydd person sydd â gofal am gi yn mynd â chi ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo (gydag eithriadau), neu'n methu â chadw ci ar dennyn (gydag eithriadau). Mae troseddwr yn agored i euogfarn ddiannod a dirwy o ddim mwy na £500.

Ym mis Hydref 2020, roedd y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus i fod i ddod i ben, fodd bynnag, mae Adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 yn caniatáu i awdurdod lleol ymestyn Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall os yw'n fodlon, ar sail resymol, bod gwneud hynny yn angenrheidiol i atal y gweithgareddau a nodir yn y Gorchymyn rhag digwydd neu rhag digwydd eto.

Y sefyllfa bresennol

Er mwyn parhau â Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus rhaid i'r Awdurdod fod yn rhesymol fodlon bod dau amod yn cael eu bodloni, sef:

- 1) *Mae gweithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn ardal yr Awdurdod wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr ardal honno ac y byddant yn cael effaith o'r fath; ac;*
- 2) *Mae effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau o natur barhaus, neu'n debygol o fod; ac yn gwneud neu'n debygol o wneud y gweithgareddau'n afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad.*

Yn 2020, roedd y Cyngor yn fodlon bod yr amodau hyn yn parhau i gael eu bodloni a chymeradwywyd adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall a chafodd ei ymestyn tan 19 Hydref 2023.

Er mwyn ymestyn y ddarpariaeth, mae Canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol (Mai 2017) yn datgan bod yn rhaid cynnal adolygiad bob tair blynedd a phan fydd gorchymyn presennol yn parhau, **nid oes** angen ymgynghoriad llawn. Byddai angen ymgynghoriad llawn pe bai ffiniau daearyddol yr ardal ddynodedig yn cael eu newid neu pe bai gweithgareddau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y gwaharddiad.

Adolygiad o'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus presennol

Cynhaliwyd adolygiad o'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus hwn gan wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r Awdurdod wedi cysylltu â Heddlu Dyfed Powys, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a Chyngor Cymuned y Borth a gofynnwyd i bob un ohonynt am eu barn ynghylch a yw'r gorchymyn yn dal i fod yn effeithiol ac a oes angen parhau â'r ddarpariaeth. Nid oes yr un wedi gwrthwynebu adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall.

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid oeddem wedi derbyn ymateb ffurfiol ar y cyd

gan Gyngor Cymuned y Borth, fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad ydynt yn dymuno gweld y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn dod i ben. Y dyddiad cau a bennwyd gan y cyngor sir ar gyfer ymatebion oedd 13 Awst. Byddai unrhyw oedi pellach yn arwain at ddirwyn y gorchymyn i ben ac ni fyddai unrhyw ataliaeth ar waith.

Yn ogystal, ers 20 Hydref 2020, mae canolfan alwadau Clic wedi derbyn 40 o gwynion ynghylch cŵn ar draethau yn groes i orchmynion gwahardd ac yn gofyn am ragor o orfodi. O'r rhain, roedd 10 yn ymwneud â'r Borth. Pe bai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn dod i ben, rhagwelir y byddai ond yn cynyddu nifer y cwynion yn hytrach na'u lleihau, gan gynyddu'r galw ar adnoddau Diogelu'r Cyhoedd.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, rydym yn weddol fodlon bod dau amod y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus fel y nodir (uchod) wedi'u bodloni ac y dylid ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus am dair blynedd arall.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam Oes, er nad yw'n ofynnol gan mai estyniad i orchymyn sy'n bodoli eisoes yw hwn.

Crynodeb:

Hirdymor: Bydd yn ofynnol i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus gael ei adolygu yn unol â'i weithredu bob tair blynedd i weld a oes ei angen o hyd.

Cydweithio: Cydweithio â Chyngor Cymuned y Borth a Heddlu Dyfed-Powys i barhau ag effeithiolrwydd y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.

Cynnwys: Mae gweithgarwch gorfodi Diogelu'r Cyhoedd yn hybu cydymffurfiaeth ac yn hybu ac yn diogelu iechyd a diogelwch, a thrwy hynny yn atal niwed rhag digwydd. Mae pwyslais ar atal ac ymyrraeth yn hytrach nag ar orfodi. Mae gweithgarwch gorfodi Diogelu'r Cyhoedd yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Atal: Mae'r gorchmynion presennol sy'n gwahardd cŵn ar y traeth wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Integreiddio: Bydd parhau â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn caniatáu i fesurau gael eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â baw cŵn ar y traeth, ac ati, lle mae'r Gorchymyn yn berthnasol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Tudalen 174

Argymhelliad / Argymhellion:	Bod y Cabinet yn cytuno i argymell i'r Cyngor y dylid ymestyn y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus i wahardd cŵn mewn ardal ddynodedig o draeth y Borth a'i gwneud yn ofynnol i gŵn gael eu cadw ar dennyn mewn ardal ddynodedig ar bromenâd y Borth am 3 blynedd arall o 19.10.2023 tan 18.10.2026 yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	<ul style="list-style-type: none">• Daw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus cyfredol i ben ar 19 Hydref 2023.• Mae angen hwyluso parhad mesurau trwy barhau â darpariaeth y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn y Borth. Mae angen hyn er mwyn mynd i'r afael ag achosion o few cŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig megis methu â chadw cŵn dan reolaeth.• Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi'n briodol ac yn effeithiol.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Mae arwyddion eisoes wedi'u gosod ond mae angen amnewid rhai ohonynt a gorfodir yn bennaf gan swyddogion awdurdodedig Cyngor Sir Ceredigion. Bydd y costau hyn yn cael eu talu o fewn y cyllidebau presennol.
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Bydd peidio â chael Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus dilys yn cael effaith ar allu'r Cyngor i ddelio ag unrhyw achosion o few cŵn/perchnogion cŵn anghyfrifol ar draeth y Borth nad ydynt yn dod o dan yr is-ddeddfau. Gall hyn gael effaith andwyol ar drigolion ac ymwelwyr y Sir ac ar enw da'r Cyngor.
Pwerau Statudol:	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014

Tudalen 175

Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad A- Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Ar y Traeth, y Borth) 2008 Atodiad B- Gorchymyn Cŵn ar Dennyn (Ar y Promenâd, y Borth) 2008 Atodiad C- Is-ddeddfau a Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus y Cyngor 2017 yn ymwneud â chŵn ar draethau a phromenadau (Borth - tudalen 10) Atodiad D- Meini Prawf Traeth Baner Las y Sefydliad Addysg Amgylcheddol a Nodiadau Esboniadol (Maen Prawf 23) Atodiad E- Cymdeithas Llywodraeth Leol – Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – Canllawiau i Gynghorau 2017 Atodiad F- Asesiad Effaith Integredig
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Swyddog Adrodd:	Anne-Louise Davies (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Rachel J Mills (Swyddog Diogelu'r Cyhoedd)
Dyddiad:	23/08/2023



4012

DYDDIAD
DATED

12 Mawrth
12 March

2008
2008

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

GORCHYMYN GWAHARDD CŴN (AR Y TRAETH, BORTH) 2008
THE DOGS EXCLUSION (ON THE BEACH, BORTH) ORDER 2008

Miss C N Jones
Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaethau Cyfreithiol
Assistant Director of Legal Services
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Penmorfa
ABERAERON
Ceredigion

DEDDF CYMDOGAETHAU GLÂN A'R AMGYLCHEDD 2005
THE CLEAN NEIGHBOURHOODS AND ENVIRONMENT ACT 2005

RHEOLIADAU GORCHMYNION RHEOLI CŴN (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007 (OS 2007/702) (W.59)
THE DOG CONTROL ORDERS (MISCELLANEOUS PROVISIONS) (WALES) REGULATIONS 2007 (SI 2007/702) (W.59)

Mae CYNGOR SIR CEREDIGION drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:
CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL hereby makes the following Order:

GORCHYMYN GWAHARDD CŴN (AR Y TRAETH, BORTH) 2008
THE DOGS EXCLUSION (ON THE BEACH, BORTH) ORDER 2008

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod 1^{af} o Ebrill 2008.
This Order comes into force on the 1st day of April 2008.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn yr Atodlen amgaeedig.
This Order applies to the land specified in the Schedule attached.

Y TRAMGWYDD
OFFENCE

- (1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd, yn ystod y cyfnod a bennir yn Atodlen 2, os bydd y person hwnnw yn mynd â'r ci ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu yn caniatáu iddo fynd arno neu aros arno oni bai:-
- (a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu
 - (b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir, wedi cydsynio (yn gyffredinol neu yn benodol) i'r person hwnnw wneud hynny.
- (1) A person in charge of a dog shall be guilty of an offence if, during the period specified in Schedule 2, that person takes the dog onto, or permits the dog to enter or to remain on, any land to which this Order applies unless:-

- (a) that person has a reasonable excuse for doing so; or
 - (b) the owner, occupier or other person or authority having control of the land has consented (generally or specifically) to that person doing so
- (2) **Nid oes dim yn yr erthygl hon yn gymwys i berson:-**
- (a) sydd wedi'i gofrestru fel person dall mewn gofrestr a luniwyd o dan adran 29 o'r Ddeddf Cymorth Gwladol 1948; neu
 - (b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestedig rhif 293358) ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu
 - (c) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar symudedd, ei ddeheurwydd llaw, ei gydlynedd corfforol, neu ei allu i godi, i gario neu i symud teclynnau beunyddiol, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan elusen ragnodedig ac y mae'r person hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.
- (2) Nothing in this article applies to a person who:-
- (a) is registered as a blind person in a register compiled under section 29 of the National Assistance Act 1948; or
 - (b) is deaf, in respect of a dog trained by Hearing Dogs for Deaf People (registered charity number 293358) and upon which that person relies for assistance; or
 - (c) has a disability which affects that person's mobility, manual dexterity, physical co-ordination or ability to lift, carry or otherwise move everyday objects, in respect of a dog trained by a prescribed charity and upon which that person relies for assistance
- (3) **At ddibenion yr erthygl hon:-**
- (a) cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;
a
 - (b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd":-
 - (i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestedig rhif 700454);
 - (ii) Support Dogs (elusen gofrestedig rhif 1088281);
 - (iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestedig rhif 803680)
Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Y cyhoedd, yn enwedig perchnogion cŵn lleol yn ogystal ag ymwelwyr â chŵn, a defnyddwyr eraill traeth Borth.

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Anne-Louise Davies	Cabinet	1	05.09.23	



AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?	
Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth	
Creu cymunedau gofalgarg ac iach	Mae rhan o draeth y Borth wedi'i nodi, a bydd yn parhau i fod â chyfyngiad i wahardd cŵn o'r traeth a mynnu bod cŵn ar dennyn ar y promenâd, sy'n amddiffyn y cyhoedd (preswylwyr lleol, ymwelwyr a thwristiaid) rhag gwrth-ymddygiad cymdeithasol a niwsans sy'n gysylltiedig â gweithgareddau perchnogion cŵn anghyfrifol h.y. cŵn yn baeddu a chŵn sydd allan o reolaeth.
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a chaniatáu i bobl o bob oed ddysgu	
Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Bydd angen adolygu'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn unol â'u gweithredu bob tair blynedd i weld a oes eu hangen o hyd.</p>	<p>Yn 2014, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona 2014 Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus a ddisodlodd y Gorchmynion Rheoli Cŵn (DCO's) a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer y rhan hon o draeth y Borth. Ym mis Hydref 2017, daeth y DCOs hyn yn PSPOs yn awtomatig.</p>	<p>Cynhelir adolygiadau fel y disgrifir.</p>
<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p>	<p>Mae Diogelu'r Cyhoedd bob amser yn croesawu cyswllt a thrafodaeth gyda chynrychiolwyr Cyngor Cymuned Borth. Gofynnir am farn Heddlu Dyfed Powys, a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys bob amser hefyd fel rhan o unrhyw adolygiad gan fod gorfodi'r GDMC yn ddyletswydd ar y cyd.</p>	<p>Mae Diogelu'r Cyhoedd yn cadw data ar unrhyw adroddiadau am unrhyw weithgarwch gwrthgymdeithasol sydd wedi'i wahardd yn yr ardal PSPO. Defnyddir y data i fonitro tueddiadau a datblygiadau.</p>	<p>Monitro tueddiadau a datblygiadau i sicrhau effeithiolrwydd y Gorchmynion.</p>
<p>Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn</p>	<p>Mae Diogelu'r Cyhoedd wedi gofyn am farn ystod eang o bartïon â diddordeb - Tîm Datblygu Economaidd a Thwristiaeth Cyngor Sir Ceredigion, Cadwch Gymru'n Daclus, Achubwyr Bywyd yr RNLI, yn ogystal â chynrychiolwyr Cyngor Cymuned Borth, Heddlu Dyfed Powys, a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.</p>	<p>Cymuned Cyngor, Heddlu Dyfed-Powys a'r Swyddfa Dyfed-Powys Heddlu a Throsedd Nid yw'r Comisiynydd wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r adnewyddiad.</p>	<p>Mae rhai aelodau o Gyngor Cymuned y Borth wedi gofyn i'r Awdurdod ystyried cyflwyno mynediad wedi'i amseru i gŵn i'r ardal GDMC o'r traeth er mwyn caniatáu cŵn ar y traeth rhwng 6pm a 10am er mwyn caniatáu i berchnogion cŵn, yn enwedig y rhai ag anableddau, sy'n byw yn y rhan ddeheuol o'r pentref, i gael mynediad i'r traeth i ymarfer eu ci. Bydd adroddiad i'r Cabinet/Cyngor yn gofyn am benderfyniad ynghylch a oes angen ymgynghoriad llawn. Bydd datganiad i'r wasg ynghylch</p>

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



			adnewyddu'r Gorchymyn a fydd yn tynnu sylw at y ffaith bod cŵn yn parhau i gael eu gwahardd o'r ardal GGMC ar y traeth, ac yn nodi pa drosedd y bydd pobl yn ei chyflawni os ydynt yn torri'r Gorchymyn.
Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu	Estyniad y PSPO ar gyfer a bydd tair blynedd pellach yn sicrhau y parhau â mesurau i fynd i'r afael â hwy y problemau a ddisgrifiwyd.	Data Diogelu'r Cyhoedd	Arwyddion eisoes yn eu lle ond angen eu gwella.
Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill	Mae'r Gorchymyn presennol eisoes wedi cael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r niwsans gysylltiedig â gweithgareddau perchenogaeth anghyfrifol o gŵn a chaniatáu i swyddogion gorfodi'r heddlu/cyngor roi cosbau penodedig.	Roedd y cyflwyniad gwreiddiol o'r y DCOs wedi cael cefnogaeth eang, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir fel PSPOs.	Fel y nodir uchod, gwnewn yn siŵr bod y gorchymyn yn cael ei hysbysebu'n glir i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi			
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu			

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)			
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	Ydy – Gwarchodir lles corfforol y cyhoedd gan y Gorchymyn hyn gan ei fod yn lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y maes a nodir.	Cefnogir fel a ddisgrifiwyd yn flaenorol.	Fel y nodir uchod, bydd cyhoeddusrwydd yn sicrhau bod y Gorchymyn yn cael ei hysbysebu'n glir i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal os bydd y Cabinet/Cyngor yn penderfynu bod angen hynny. Bydd adolygiadau fel y disgrifir hefyd yn cael eu cynnal.
3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da	Bydd pobl leol a thwristiaid fel ei gilydd yn elwa gan y Gorchymyn o ran gwella lefelau o drosedd ac anhrefn.	Cefnogir fel a ddisgrifiwyd yn flaenorol.	Fel y nodir uchod, bydd cyhoeddusrwydd yn sicrhau bod y Gorchymyn yn cael ei hysbysebu'n glir i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal os bydd y Cabinet/Cyngor yn penderfynu bod angen hynny. Bydd adolygiadau fel y disgrifir hefyd yn cael eu cynnal.
3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol			

Tudalen 273

3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau	Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
---	--	---	--

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>	<p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplisu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>								
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p>	<p>Bydd parhad y gwaharddiad ci yn y maes penodol o fudd i bob grŵp oedran o ran lefelau gwell o drosedd ac anhrefn.</p>	<p>Cefnogir fel y disgrifiwyd yn flaenorol. Data Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas â lefel y cwynion.</p>	<p>O ystyried bod rhai aelodau o Gyngor Cymuned y Borth wedi gofyn i'r Awdurdod ystyried cyflwyno mynediad wedi'i amseru i gŵn i'r ardal PSPO o'r traeth er mwyn caniatáu cŵn ar y traeth rhwng 6yh a 10yb er mwyn caniatáu i berchnogion cŵn, yn enwedig y rhai ag anableddau, sy'n byw yn yr ardal rhan ddeheuol y pentref, i gael mynediad i'r traeth i ymarfer eu ci, gellid cynnal ymgynghoriad llawn i asesu'r angen i gyflwyno mynediad wedi'i amseru i'r ardal o draeth y Borth sy'n cael ei warchod gan y PSPO presennol ac i</p>								
<table border="1"> <tr> <th>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> </table>	Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓					
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim								
	✓										
<table border="1"> <tr> <th>Pobl 18-50</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> </table>	Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓					
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim								
	✓										
<table border="1"> <tr> <th>Pobl hŷn 50+</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> </table>	Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓					
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim								
	✓										

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



						<p>ystyried os fydd hi'n bosib i orfodi unrhyw newidiadau o'r fath o fewn y 12 mis nesaf.</p> <p>Fel arall, cynhelir adolygiad fel y disgrifir hefyd.</p>
--	--	--	--	--	--	---

Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd i bob grŵp anabledd o ran gwella lefelau o droseddu a anhrefn.	Fel yr uchod.	O ystyried bod rhai aelodau o Gyngor Cymuned y Borth wedi gofyn i'r Awdurdod ystyried cyflwyno mynediad wedi'i amseru i gŵn i'r ardal PSPO o'r traeth er mwyn caniatáu cŵn ar y traeth rhwng 6yh a 10yb er mwyn caniatáu i berchnogion cŵn, yn enwedig y rhai ag anableddau, sy'n byw yn yr ardal rhan ddeheuol y pentref, i gael mynediad i'r traeth i ymarfer eu ci, gellid cynnal ymgynghoriad llawn i asesu'r angen i gyflwyno mynediad wedi'i amseru i'r ardal o draeth y Borth sy'n cael ei warchod gan y PSPO presennol ac i ystyried os fydd hi'n bosib i orfodi unrhyw newidiadau o'r fath o fewn y 12 mis nesaf.
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	✓					
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynton a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Yn gyffredinol, bydd parhad y gwaharddiad cŵn o fudd holl aelodau'r cyhoedd yn o ran lefelau gwell o trosedd ac anhrefn.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					



Dynion hoyw	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Nid yw parhad y gwaharddiadau cŵn yn hyrwyddo cydraddoldeb fel y cyfryw ond mae'n cael gwared ar yr anfantais y gall pobl ddod ar ei thraws wrth fod yn ddiodefwr neu'n dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau perchnogion cŵn anghyfrifol h.y. cŵn yn baeddu a chŵn allan o reolaeth ar yr adran o traeth a ddynodwyd gan y PSPO.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Fel yr uchod.

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Fel yr uchod.

Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw dan amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol bod Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hynny'n golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.



3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfanteision economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith bositif/negyddol neu effaith ddibwys.

Tystiolaeth anecdotaidd gan rai aelodau o Gyngor Cymuned y Borth nad oes gan rai perchnogion cŵn, yn enwedig y rhai ag anableddau, sy'n byw yn rhan ddeheuol y pentref, unrhyw le addas i ymarfer eu cŵn yn ystod cyfnodau pan fo'r cyfyngiadau mewn grym. Mae cais wedi'i wneud i gynnal ymgynghoriad i asesu budd y cyhoedd o ran llacio amodau'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar y sail y gallai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus effeithio'n negyddol ar bersonau â nodweddion gwarchoddedig.

Pe bai mynediad wedi'i amseru i gŵn i'r ardal PSPO yn cael ei gyflwyno ar gyfer perchnogion cŵn anabl, byddai'n gwanhau/llacio'r Gorchymyn presennol ac felly'n debygol o gael effaith negyddol ar effeithiolrwydd y Gorchymyn a byddai'n cynyddu'r galw i fonitro a gorfodi unrhyw ddarpariaethau newydd. Fel y mae ar hyn o bryd, mae'r gorchymyn presennol yn diogelu'r cyhoedd i gyd (preswylwyr lleol, ymwelwyr a thwristiaid) rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans sy'n gysylltiedig â gweithgareddau perchnogaeth cŵn anghyfrifol, ac mae'n debygol y byddai ond yn cynyddu nifer y cwynion yn hytrach na'u lleihau, gan gynyddu'r galw ar adnoddau Diogelu'r Cyhoedd.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Cyn 2014, roedd gan ran o draeth a phromenâd y Borth ddau Orchymyn Rheoli Cŵn (DCO) a wnaed o dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 - un yn gwahardd cŵn o'r traeth (1af Mai - 30 Medi) ac un yn mynnu bod cŵn yn cael eu cadw. bod ar dennyn ar y promenâd. Roedd y DCOs hyn yn cwmpasu rhan o'r traeth nad oedd yn dod o dan is-ddeddf leol a chawsant eu rhoi ar waith yn 2008.

Cawsant eu cyflwyno am y rhesymau canlynol: -

- 1) Roedd Cyngor Cymuned y Borth yn cefnogi estyniad daearyddol yr is-ddeddfau cŵn presennol oherwydd cwynion gan drigolion ac ymwelwyr ynglŷn â chŵn yn baeddu a chŵn allan o reolaeth.
- 2) Mae'r rhan hon o'r traeth yn rhan o ardal asesu Traeth y Faner Las. Mae caniatáu cŵn ar y traeth yn fwriadol yn ystod cyfnod asesu'r Faner Las yn golygu nad yw'r traeth yn cydymffurfio â'r meini prawf hanfodol sy'n ofynnol gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol sy'n rhedeg Rhaglen y Faner Las a allai beryglu statws Baner Las Traeth y Borth.

Cyn cyflwyno'r Gorchymynion Rheoli Cŵn yn 2008, ystyriwyd cydbwysu buddiannau'r rhai sy'n gyfrifol am gŵn yn erbyn buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan weithgareddau cŵn. Wrth wneud hynny, cydnabuwyd y dylai'r cyhoedd, ac yn benodol plant, gael mynediad i ardaloedd di-gŵn a manau lle cedwir cŵn o dan reolaeth llym. Yn ogystal, mae'r rhai sy'n gyfrifol am gŵn angen mynediad i fannau lle gallant ymarfer eu cŵn heb gyfyngiadau

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



gormodol. Roedd y Cyngor yn fodlon bod digon o gyfle i redeg cŵn yn rhydd ar y rhan o'r traeth nad yw'n dod o dan Is-ddeddfau Gwahardd Cŵn, gan ganiatáu i berchnogion cŵn gyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Pa gam/camau gweithredu allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau positif?

Fel yr uchod.

3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Amherthnasol		Sicrhau bod yr holl arwyddion perthnasol yn ddwyieithog. Datganiad i'r Wasg a Bydd cyhoeddi'r Gorchmynion bod yn ddwyieithog.
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Amherthnasol		
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Amherthnasol		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Amherthnasol		
			✓			
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Amherthnasol		
			✓			

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet/Cyngor i ofyn i ymestyn y gorchymyn am dair blynedd arall.	5/9/2023 & 21/9/2023	Anne-Louise Davies	Ar amser
Cysylltu â Chyngor Cymuned y Borth ynghylch canlyniad eu cyfarfod cyhoeddus	Ar ôl y 4/9/2023	Anne-Louise Davies	I'w gadarnhau
Os fydd angen, cynnal ymgynghoriad llawn	Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/2025	Anne-Louise Davies	I'w gadarnhau

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Llai tebygol o ddigwydd	2		1		2
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
O bosib, y Tîm Datblygu Economaidd a Thwristiaeth.					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Anne-Louise Davies		23/8/2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams		23/8/2023
Y Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees		
Deiliad y Portffolio	Cynghorydd Matthew Vaux		

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad:	5 Medi 2023
Teitl:	Adolygiad o Ddosbarthau Etholiadol a Mannau Pleidleisio 2023
Pwrpas yr adroddiad:	Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael argymhelliad gan y Cabinet i gymeradwyo adolygiad o'r dosbarthau etholiadol a'r manau pleidleisio yn sir Ceredigion.
Er:	Penderfyniad
Aelod o'r Cabinet a'r Portffolio:	Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, a Phobl a Threfniadaeth

Cefndir:

O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthau etholiadol ac i ddynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth.

Gall y diffiniadau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ddarllen yr adroddiad a'r Atodiadau.

- “Dosbarthau Etholiadol” – ardaloedd etholiadol daearyddol y gellir eu rhannu yn wardiau ac yn etholaethau.
- “Mannau Pleidleisio” – Adeiladau neu fannau sy'n cael eu dynodi gan y Cyngor fel lle i etholwyr y dosbarth etholiadol fynd i fwrw pleidlais yn bersonol.
- “Gorsafoedd pleidleisio” – y desgiau dyroddi yn yr adeilad neu'r dosbarth sydd wedi ei ddynodi yn fan pleidleisio.

Roedd Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006, fel y'i diwygiwyd, wedi cyflwyno dyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain i adolygu eu dosbarthau etholiadol a'u manau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

O dan adran 18C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid cynnal yr adolygiad gorfodol nesaf o fewn cyfnod o 16 mis rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Ionawr 2025.

Bwriad y ddeddfwriaeth oedd y byddai adolygiadau'n cael eu cwblhau erbyn y mis Ionawr cyn etholiad cyffredinol seneddol y DU. Fodd bynnag, ers diddymu Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011, nid oes sicrwydd bellach pryd fydd yr etholiad cyffredinol nesaf.

Yn sgil Deddf Diddymu a Galw Senedd 2022:

- gall Senedd y DU gael ei diddymu gan y Brenin ar gais y Prif Weinidog unrhyw bryd yn ystod y pum mlynedd o fywyd y Senedd;

- rhaid i'r etholiad cyffredinol nesaf ddigwydd erbyn dydd Mawrth 28 Ionawr 2025, ond gallai ddigwydd unrhyw bryd cyn hynny;
- nid oes cyswllt mwyach rhwng amseriad yr adolygiad gorfodol o ddosbarthau etholiadol a manau pleidleisio yn y cyfnod o 16 mis, a bod hwnnw'n gorffen 3 mis cyn etholiad cyffredinol.

Yn ogystal, mae Comisiwn Ffiniau Cymru wedi cynnal adolygiad o ffiniau'r etholaethau i San Steffan. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi ei argymhellion terfynol, a bydd Gorchmynion ar gyfer ffiniau'r etholaethau seneddol newydd yn cael eu gwneud erbyn 1 Tachwedd 2023.

Unwaith y gwneir y Gorchmynion ar gyfer yr etholaethau seneddol bydd y ffiniau newydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf. Os bydd etholiad cyffredinol yn cael ei alw yn y cyfamser, byddai'n digwydd yn ôl y ffiniau presennol.

Mae'r materion hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod yr adolygiad o ddosbarthau etholiadol a manau pleidleisio yn digwydd cyn gynted â phosib. Mae hyn er mwyn i Gyngor Sir Ceredigion gael dosbarthau pleidleisio a manau pleidleisio cytûn ar waith i'w defnyddio ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf yn ogystal ag etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024, a bod ganddo gynllun etholiadol ar waith.

Amseriad yr adolygiad o ddosbarthau etholiadol a manau pleidleisio

Fel y nodir uchod, mae'n bwysig cwblhau'r adolygiad cyn gynted â phosib fel bod y dosbarthau etholiadol a'r manau pleidleisio ar gyfer yr etholiadau a ddaw yn gallu cael eu cytuno mewn da bryd ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf a'r etholiadau a drefnwyd ar gyfer 2024.

Nid yw adran 18C o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn caniatáu i'r adolygiad ddechrau cyn 1 Hydref 2023.

Argymhellir bod yr adolygiad gorfodol o ddosbarthau etholiadol a'r manau pleidleisio yn dechrau ddydd Llun, 2 Hydref 2023.

Amserlen

Er na all yr adolygiad ei hun gychwyn yn gynharach, gellir gwneud rhywfaint o waith paratoi cyn yr adolygiad, yn ogystal ag ymgynghori anffurfiol.

Byddai'n ddymunol adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran dosbarthau etholiadol yn y gofrestr etholiadol a gyhoeddir ar 1 Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, oherwydd y galwadau ar y Tîm Gwasanaethau Etholiadol yn ogystal ag amserlen cyfarfodydd y Cyngor, mae'n annhebygol y bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau tan fis Ionawr 2024.

Byddai hyn yn golygu y byddai angen ailgyhoeddi'r gofrestr etholiadol er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r dosbarthau pleidleisio. Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer yr adolygiad:

Adolygiad o ddsbarthau etholiadol a manau pleidleisio 2023	
Gwaith paratoadol	Wedi dechrau Gwanwyn 2023
Adolygiad Rhagarweiniol – gan gynnwys ymgynghori anffurfiol	Gorffennaf tan 1 Hydref 2023
Penderfyniad y Cyngor i ddarparu ar gyfer dechrau'r adolygiad	Dydd Mawrth, 5 Medi 2023
Cyhoeddi hysbysiad o'r adolygiad	Dydd Llun, 2 Hydref 2023
Cyhoeddi cynigion y Cyngor	Dydd Llun, 2 Hydref 2023
Dechrau'r ymgynghoriad ffurfiol	Dydd Llun, 2 Hydref 2023
Diwedd yr ymgynghoriad ffurfiol	Dydd Gwener, 10 Tachwedd 2023
Ystyried ymatebion	Erbyn 24 Tachwedd 2023
Cyhoeddi cofrestr etholiadol (gyda'r dosbarthau etholiadol presennol)	1 Rhagfyr 2023
Cyhoeddi'r cynigion terfynol drwy bapurau agenda'r cyfarfodydd a'r wefan	19 Ionawr 2024
Cyfarfod y Cyngor ar gyfer y penderfyniad terfynol	25 Ionawr 2024
Ailgyhoeddi'r gofrestr etholiadol (os oes dosbarthau etholiadol newydd neu ddiwygiedig)	1 Chwefror 2024
Etholiadau wedi'u trefnu ar sail dosbarthau etholiadol, manau a gorsafoddd pleidleisio newydd	2 Mai 2024

Proses Adolygu

Gofynion Cyfreithiol

Mae'r broses ar gyfer adolygu dosbarthau etholiadol a manau pleidleisio wedi ei nodi yn Atodlen A1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Rhaid i'r Cyngor:

- gyhoeddi hysbysiad ei fod yn cynnal adolygiad;
- ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer pob etholaeth seneddol sydd yn gyfan neu'n rhannol yn ei ardal;
- cyhoeddi pob sylw a wneir gan y Swyddog Canlyniadau o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, a hynny yn swyddfa'r awdurdod lleol ac mewn o leiaf un lle amlwg yn yr ardal ac, os yw'r awdurdod yn cynnal gwefan, drwy osod copi ar wefan yr awdurdod;
- ceisio sylwadau gan bobl y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol ynghylch sicrhau mynediad i safle neu i gyfleusterau i bobl sydd â gwahanol fathau o anabledd. Rhaid i'r bobl hyn gael cyfle i gyflwyno sylwadau ac i wneud sylw ar y negeseuon a gyhoeddir gan y Swyddog(ion) Canlyniadau (Gweithredol).

Ar adeg cwblhau'r adolygiad, rhaid i'r Cyngor roi rhesymau dros ei benderfyniadau a chyhoeddi:

- yr holl ohebiaeth a anfonir at y Swyddog Canlyniadau mewn perthynas â'r adolygiad;
- yr holl ohebiaeth a anfonir at unrhyw berson y mae'n credu sydd ag arbenigedd penodol ynghylch sicrhau mynediad i safle neu i gyfleusterau i bobl sydd â gwahanol fathau o anabledd;
- pob sylw a wnaed gan unrhyw berson mewn perthynas â'r adolygiad;
- cofnodion unrhyw gyfarfod a gynhaliwyd gan y Cyngor i ystyried unrhyw adolygiad o'r dosbarthau etholiadol a'r manau pleidleisio a ddynodwyd yn ei ardal o ganlyniad i'r adolygiad;
- manylion dynodi dosbarthau etholiadol a manau pleidleisio yn ardal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r adolygiad;
- gwybodaeth am y llefydd lle cyhoeddwyd canlyniadau'r adolygiad.

Rhoi ar waith newidiadau yn y dosbarthau etholiadol

Os bydd y Cyngor yn gwneud newidiadau i'r dosbarthau etholiadol yn ei ardal, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddiwygio'r gofrestr o etholwyr yn unol â hynny (Adran 18A (5) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

Mae'r newidiadau yn y gofrestr yn dod i rym ar y dyddiad y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi hysbysiad yn nodi bod yr addasiadau wedi'u gwneud. Y bwriad yw y bydd newidiadau i ddosbarthau etholiadol yn digwydd gydag ailgyhoeddi'r gofrestr etholiadol (os oes dosbarthau etholiadol newydd neu ddiwygiedig) ar 1 Chwefror 2024.

Argymhellir bod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol awdurdod i gymryd y camau angenrheidiol i weithredu'r dosbarthau etholiadol newydd neu ddiwygiedig ar ôl i'r adolygiad o'r dosbarthau etholiadol ddod i fwcwl, gan sicrhau bod y gofrestr yn adlewyrchu'r ffiniau presennol a newydd lle bo hynny'n briodol, hyd nes bod y ffiniau mewn grym yn llwyr.

A gwblhawyd Asesiad Naddo. Bydd Asesiad Effaith Effaith Integredig? Integredig yn cael ei gwblhau
Os naddo, nodwch pam fel rhan o'r Adolygiad.

Crynodeb:

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Hirdymor:	Ddim yn berthnasol
	Integreiddio:	Ddim yn berthnasol
	Cydweithio:	Ddim yn berthnasol
	Cynnwys:	Ddim yn berthnasol
	Atal:	Ddim yn berthnasol

Argymhellion:

1. **Bod yr adolygiad gorfodol o ddosbarthau etholiadol a manau pleidleisio yn dechrau ar ddydd Llun, 2 Hydref 2023;**
2. **Bod yr amserlen amlinellol a'r broses ar gyfer yr adolygiad yn cael eu cymeradwyo.**

Rheswm dros y penderfyniad:	I gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.			
Trosolwg a chraffu:	Ddim yn berthnasol .			
Fframwaith polisi:	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfansoddiad y Cyngor; • Adrannau 18 ac 18A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; • Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd). 			
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Ddim yn berthnasol			
Goblygiadau cyllid a chaffael:	I'w hystyried fel rhan o'r Adolygiad.			
Goblygiadau cyfreithiol:	<p>Cydymffurfio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ag Adrannau 18 ac 18A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; • â Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd). 			
Goblygiadau staffio:	Dim.			
Goblygiadau o ran eiddo/ asedau:	I'w hystyried fel rhan o'r Adolygiad.			
Risg(iau):	Ein bod yn methu â bodloni'r gofynion deddfwriaethol.			
Pwerau statudol:	<ul style="list-style-type: none"> • Adrannau 18 ac 18A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; • Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (fel y'i diwygiwyd). 			
Papurau cefndirol:	Dim			
Atodiadau:	Dim			
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	<table> <tr> <td>Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd</td> <td>Corfforaethol:</td> <td>Gwasanaethau</td> </tr> </table>	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd	Corfforaethol:	Gwasanaethau
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd	Corfforaethol:	Gwasanaethau		
Swyddog Adrodd:	<table> <tr> <td>Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd</td> <td>Corfforaethol:</td> <td>Gwasanaethau</td> </tr> </table>	Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd	Corfforaethol:	Gwasanaethau
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Democrataidd	Corfforaethol:	Gwasanaethau		
Dyddiad:	7 Awst 2023			

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	05/09/23
Teitl:	Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Pwrpas yr adroddiad:	Ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd.
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

Fel arfer, caiff Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei diweddarau bob blwyddyn. Yn sgil yr heriau digynsail a wynebwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid oedd yn bosib diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y broses honno a hynny oherwydd bod yr holl ymdrechion wedi mynd tuag at bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

Ni ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol na phendant, yn hytrach, mae'n cynnig dull trosfwaol y bydd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir yn ystod y cyfnod.

Felly mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddarau ac erbyn hyn mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 2023/24 a 2026/27. Mae'n cynnwys Crynodeb Gweithredol sy'n nodi'r prif faterion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth fanwl.

Tynnir sylw'r Aelodau yn benodol at y canlynol:

Crynodeb Gweithredol	Tudalennau 2-3
Blaenoriaethau Cyllideb y Cyngor a'r cysylltiad rhwng y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 2027 a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol cysylltiedig	Tudalennau 5-10
Y Pwysau Dangosol ar y Gyllideb o ran Costau	Tudalennau 16-18
Senarios Bwlch Cyllido'r Gyllideb sy'n edrych ar lefelau gwahanol o gyllid dangosol o ran Treth y Cyngor a chyllid Llywodraeth Cymru	Tudalen 26
Dadansoddiad sensitifwydd o'r gwahanol newidynnau o fewn y gyllideb	Tudalen 35
Atodiad 1 - Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu	Tudalen 37

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod ar 19/07/23 a bydd y Cadeirydd yn rhoi adborth y Pwyllgor.

Tudalen 292

**A gwblhawyd Aseiad
Effaith Integredig?
Os naddo, nodwch pam**

Naddo

**Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Crynodeb:

Hirdymor: Amherthnasol

Integreiddio: Amherthnasol

Cydweithio: Amherthnasol

Cynnwys: Amherthnasol

Atal: Amherthnasol

Argymhellion:

1. Cadarnhau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd.
2. Argymell i'r Cyngor Llawn ar 21/09/23 bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo.

Trosolwg a Chraffu:

Adnoddau Corfforaethol – 19/07/23

**Blaenoriaethau
Corfforaethol:**

Pob un

**Goblygiadau Cyllid a
Chaffael:**

Yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Pwerau statudol:

Atodiadau:

Atodiad 1 – Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael

Swyddogion Adrodd:

Duncan Hall
Justin Davies
Mark Bridges

Dyddiad:

20/07/23

Cyngor Sir Ceredigion



Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2026/27

Gorffennaf 2023

CYNNWYS

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	2
2. Cyflwyniad	4
2.1 - Pwrpas	4
2.2 - Amcan y Strategaeth	4
3. Blaenoriaethau'r Gyllideb	5
3.1 - Strategaeth Gorfforaethol 2022-27	5
3.2 - Yr Economi	7
3.3 – Addysg	7
3.4 – Llesiant Gydol Oes	8
3.5 – Statws Carbon Sero Net erbyn 2023	8
3.6 – Priffyrdd / Seilwaith	9
3.7 – Strategaeth Ddigidol	9
3.8 – Recriwtio	9
3.9 - Tai	10
4. Cyd-destun Economaidd, Ariannol a Deddfwriaethol Allanol	11
4.1 – Amgylchedd Economaidd	11
4.2 - Chwyddiant	11
4.3 – Cyfraddau Ilog	12
4.4 – Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal	12
4.5 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	12
5. Ffactorau Cyllideb Genedlaethol a Lleol	14
5.1 – Etholiad Cyffredinol Llywodraeth y DU	14
5.2 – Cyllid	14
5.2.1 – Llywodraeth Cymru	14
5.2.2 – Treth y Cyngor	15
5.2.3 – Ffioedd a Thaliadau	16
5.2.4 – Ardoll Ymwelwyr Dewisol	16
5.2.5 – Diwygio Treth y Cyngor	18
5.3 – Pwysau Costau	18
5.4 – Demograffeg a thueddiadau eraill	20
6. Y Bwlch yn y Gyllideb a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2025/26	25
7. Strategaeth y Gyllideb	28
7.1 – Rheoli Adnoddau yn Effeithiol	28
7.2 – Gweithio mewn Partneriaeth, Cyllid Allanol a Chydweithio	28
7.3. – Rheoli'r Bwlch yn y Gyllideb	29
7.3.1 - Elfennau allweddol i reoli'r Bwlch yn y Gyllideb	32
7.4 – Cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'u clustnodi	33
8. Asesiad Risg a Sensitifrwydd	35
Atodiadau	37

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor yn nodi pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol clir, gyda phob un o'r rhain yn cael eu hategu gan wahanol flaenoriaethau a'r canlyniadau disgwylidig. Nod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw darparu adnoddau a fframwaith ariannol i sicrhau y gellir cyflawni'r canlyniadau hyn cyn belled ag y bo modd, yn ogystal â sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod yn flynyddol a bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r heriau a'r risgiau ariannol cysylltiedig.
- 1.2 Ar ôl COVID, gyda'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gadarn gyda mantolen gref, mae nifer o flaenoriaethau allweddol bellach yn cael eu cwblhau yn 2023/24. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cynllun Ysgol Dyffryn Aeron newydd sy'n mynd rhagddo gyda'r gwaith adeiladu yn dechrau ar y safle, cymeradwyo Cynllun Tai Cymunedol newydd i helpu i gefnogi trigolion lleol i brynu eu heiddo eu hunain yng Ngheredigion, agor y Ganolfan Lles gyntaf yn Llanbedr Pont Steffan, mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron ar fin cael cymeradwyaeth i allu sicrhau bod y contract adeiladu a gwaith ar y safle i gael cyfleuster newydd i blant yn y sir yng nghanol y sir yn mynd rhagddo.
- 1.3 Mae gan Geredigion hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys yn ogystal â chael sêl bendith gan Archwilio Cymru. Mae cyfrifon diweddaraf 2021/22 wedi'u harchwilio a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod. Yn ogystal, ni adroddwyd unrhyw faterion yng ngwaith Archwilio Grantiau penodol 2021/22 ac ardystiwyd pob grant yn llawn.
- 1.4 £180.1m oedd Cyllideb Net Ceredigion ar gyfer 2023/24 - 72% wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a 28% gan drethdalwyr y Cyngor. Roedd Treth y Cyngor Band D (gan gynnwys praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned) yn £1,908, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o £1,879.
- 1.5 Gellir crynhoi her ariannol y tymor Canolig (yn seiliedig ar gynnydd o 3.1% gan LC a ragdybir a chynnydd o 5.0% yn Nhreth y Cyngor - fel achos canolog, er ei fod yn geidwadol o bosibl) fel a ganlyn:

	2023/24 <i>Gwirioneddol</i> £m	2024/25 Dangoso £m	2025/26 Dangoso £m	2026/27 Dangoso £m
Pwysau Cyllidebol	23.1	15.1	11.1	10.2
Incwm Treth y Cyngor a dybiwyd	-4.7	-2.6	-2.7	-2.8
Cyllid Setliad Cyllid Allanol Cyfun (AEF) LIC a dybiwyd	-9.6	-4.0	-4.1	-4.3
Bwlch yn y Gyllideb	8.8	8.5	4.3	3.1
<u>Cynilion a nodwyd:</u>				
Gwneud pethau'n wahanol 2023/24 - Cytuno ar gynllun arbedion	-3.0	-2.1	-1.9	-
	-5.8	-	-	-
Cyfanswm yr arbedion a nodwyd	-8.8	-2.1	-1.9	-
Diffyg cyllideb sy'n weddill	-	6.4	2.4	3.1

- Dechreuodd pwysau costau gilio dros y tymor canolig, ond bydd o bosibl yn £15.1 miliwn ar gyfer 24/25 cyn dechrau gostwng yn agosach at £10m yn y blynyddoedd i ddod.

- Bwlch cyllideb dangosol o £8.5m ar gyfer 24/25 a chyfanswm o £15.9m dros y cyfnod o 3 blynedd nesaf (yn seiliedig ar gynnydd o 3.1% gan LC a chynnydd o 5.0% yn Nhreth y Cyngor).
- Rhaglen 'Gwneud Pethau'n Wahanol': Ymagwedd Gorfforaethol sy'n darparu £4m arall, ar ben y £3m a ffactorwyd yng Nghyllideb 2023/24.
- Diffyg Cyllideb ddangosol cyfredol o £6.4m ar gyfer 2024/25 a chyfanswm o £11.9m dros gyfnod y 3 blynedd nesaf.

1.6 Ar gyfer 2024/25 (gan dybio nad yw'r pwysau costau yn newid o £15.1 miliwn), os cymerir safbwynt wyneb i waered (ond bod yn ofalus i beidio â chymryd gormod o ragfarn o ran optimistiaeth) yna:

- Os tybir y bydd Setliad o 5% gan Lywodraeth Cymru a chynnydd o **5%** yn Nhreth y Cyngor, **byddai'r Diffyg Cyllidebol a oedd yn deillio o hynny yn gostwng i £4.0 miliwn.**
- Os tybir y bydd Setliad o 6% gan Lywodraeth Cymru a chynnydd o **6%** yn Nhreth y Cyngor, **byddai'r diffyg cyllidebol sy'n deillio o hynny yn gostwng i £2.2 miliwn.**

Mae'r ffigurau hyn ar ôl gorfod cyflawni rhagdybiaeth Blwyddyn 2 o £2.1m o'r rhaglen Gwneud Pethau yn Wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol ar gyfer 2024/25.

1.7 Er mwyn mynd i'r afael â'r Diffyg Cyllidebol sy'n weddill, bydd y dulliau arfaethedig i'w hystyried yn cynnwys:

- Parhau i gyflawni ac ymgorffori dulliau newydd o weithio yn y rhaglen 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol'.
- Rhesymoli asedau yn barhaus gan gynnwys Adeiladau a cherbydau Fflyd gan na all y Cyngor fforddio cynnal y sefyllfa bresennol ac mae angen blaenoriaethu adnoddau cyfyngedig. Gallai rhesymoli amrywio o werthu llwyr i ailbwrpasu at ddibenion amgen (e.e. cynhyrchu incwm) i gydleoli ystod ehangach o Wasanaethau'r Cyngor a/neu gydweithio â Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.
- Parhau i dargedu Arbedion Rheoli'r Trysorlys.
- Nodi unrhyw flaenoriaethau is sy'n weddill o ran Gwasanaethau / Penawdau Cyllidebol gan gynnwys cyfleoedd i wneud arbedion trwy dorri gwariant Trydydd Parti.
- Ystyried adolygu a dull newydd o ymdrin â Phremiymau Treth y Cyngor, o ystyried y newid yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r heriau parhaus y mae Eiddo Gwag Hirdymor ac ail Gartrefi yn achosi yng Ngheredigion.
- Archwilio a allai sefydliadau lleol eraill yng Ngheredigion (e.e. y Trydydd Sector a/neu Gynghorau Tref a Chymuned) fod yn fodlon darparu rhai gwasanaethau anstatudol.
- Defnyddio Cyfarwyddiadau Cyfalafu LIC lle bo hynny'n ymarferol.
- Fel dewis olaf os yw'r holl opsiynau eraill wedi cael eu dihybyddu – Ystyried toriadau yn y gyllideb wedi'u targedu, byddai hynny'n golygu gostyngiad yng ngwasanaethau'r Cyngor yn hytrach na pharhau i geisio cyflawni'r un faint o wasanaethau ond gyda llai o adnoddau.

1.8 Mae llawer o sensitifrwydd a newidynnau allweddol sy'n effeithio ar y Gyllideb gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lefelau ariannu Setliad Llywodraeth Cymru, cyfyngiadau cynnydd yn Nhreth y Cyngor, Demograffeg, dyfarniadau cyflog cenedlaethol a osodir yn ogystal â chwyddiant cyffredinol a chyfraddau llog. Dangosir amrywiant o 1% yn y gwahanol ffactorau yn Adran 8.

1.9 Mae hefyd yr ansicrwydd ynghylch Diwygio Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2025 a dynamig Etholiad Cyffredinol y DU sydd i fod i ddigwydd cyn Ionawr 2025.

2 Cyflwyniad

2.1 Diben

Diben y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yw rhagweld sefyllfa ariannol bosibl y dyfodol ac wrth wneud hynny darparu fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu ynddo, trwy nodi'r materion allweddol y mae angen eu deall a'u hystyried er mwyn paratoi ar gyfer yr her o osod cyllideb gytbwys dros y tymor canolig.

Ni ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol nac yn bendant, yn hytrach, mae'n cynnig dull trosfwaol y bydd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir dros y cyfnod.

2.2 Amcan y Strategaeth

Amcan ariannol y Cyngor yw defnydd gofalus a chyfrifol o adnoddau a chyllideb gytbwys, ac i sicrhau bod gwydnwch ariannol y Cyngor yn cael ei gynnal. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw:

"darparu fframwaith a chyfeiriad a pharamedrau cyffredinol er mwyn i'r Cyngor strwythuro a rheoli ei gyllid, er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol a gofalus".

Mae'r strategaeth hon yn cyflawni hyn drwy:

- Amlinellu egwyddorion ar gyfer datblygu a phennu'r gyllideb flynyddol.
- Integreiddio a chydabod grymoedd allanol yn y broses gyllidebol.
- Integreiddio cynllunio ariannol a busnes, adlewyrchu blaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 a rhagweld pwysau sy'n wynebu'r Awdurdod.
- Nodi'r prif gysylltiadau â phrosesau eraill, ystyriaethau craidd a themâu ariannol i'w hystyried.
- Nodi lefelau amcangyfrifedig o incwm, gwariant a buddsoddiad cyfalaf dros gyfnod treigl o dair blynedd.
- Darparu un ddogfen i gyfleu'r cyd-destun, nodau ac amcanion ariannol i randdeiliaid.
- Caniatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried fforddiadwyedd wrth ddyrannu adnoddau i gyflawni blaenoriaethau.

Mae deall y cyd-destun ariannol cyffredinol yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan y cydnabyddir bod cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn debygol o fod yn gyfyngedig, er bod hwn yn faes blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

3 Blaenoriaethau'r Gyllideb

3.1 Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027

Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 yn nodi pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol y Cyngor sydd wedi'u cynllunio i wella a hybu lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion. Y pedwar **Amcan Strategol Llesiant** y mae angen i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig eu cefnogi i gyflawni'r canlynol yw:



Yr amcanion cyffredinol hyn yw lle bydd y Cyngor yn cyfeirio ei adnoddau i ailfywiogi'r economi leol a darparu amgylchedd ffyniannus, iach, diogel a fforddiadwy lle gall dinasyddion a chymunedau Ceredigion ffynnu. Mae cronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer pob Amcan Llesiant Corfforaethol, fel bod cyllid ar eu cyfer lle bo hynny'n bosibl. Yn ei gyfanrwydd, ar 31/03/23, mae £19.8 miliwn wedi'i glustnodi mewn pedair cronfa wrth gefn.

Nodwyd yr Amcanion Llesiant Corfforaethol trwy ddadansoddiad helaeth o dystiolaeth ac ymgysylltiad â thrigolion y sir, gan gynnwys uchelgeisiau'r weinyddiaeth Wleidyddol bresennol, ymgysylltu ehangach â'r Aelodau, Aseiad Ceredigion o Lesiant Lleol ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Gorfforaethol yn ystod Medi/Hydref 2022.

Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u nodi trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys nodi sut y gallai'r Cyngor wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol a hefyd sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Diben craidd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw dangos sut y bydd yr awdurdod yn cefnogi ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd a lles dinasyddion Ceredigion, trwy ei Weledigaeth hirdymor a'i Amcanion Strategol. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r risgiau i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol hyn tra hefyd yn nodi sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i reoli a lliniaru'r risgiau yn ystod y tymor byr i'r tymor canolig.

Ein gweledigaeth

Bod Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy, sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach, wrth hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau.

Dyma nodi blaenoriaethau penodol y Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027:

HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH

- Datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m
- Cefnogi busnesau lleol wrth wella o COVID-19
- Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y Sir
- Creu cyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus
- Hybu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth
- Cyflawni twf economaidd cynaliadwy
- Mynd ar drywydd y Cynllun Datblygu Lleol
- Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi
- Gwella Band eang 4G
- Cyllid teg o fewn rhaglen Arfor
- Gwella cysylltedd digidol, a chysylltedd o ran trafniadaeth ac ynni
- Mynd i'r afael a thlodi yng Ngheredigion
- Cefnogi rhieni sy'n gweithio yng Ngheredigion
- Gwella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed
- Datblygu prentisiaethau yn y Sir ymhellach

DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI POBL O BOB OED I DDYSGU

- Buddsoddi mewn ysgolion ar draws y Sir, gan gynnwys yr estyniad 3 llawr carbon sero net yn Ysgol Uwchradd Aberteifi
- Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032
- Sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn digwydd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)
- Cefnogi Cyngor Ieuencid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc
- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder Plant a Phobl Ifanc i wneud ymarfer corff
- Datblygu sgiliau arwain ein Plant a'n Pobl Ifanc ar y cyfle cyntaf
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd
- Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oed
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau Theatr Felinfach
- Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion annibynnol
- Darparu cymorth i ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus
- Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Tegwch i gefnogi llesiant mewn ysgolion a chymunedau

CREU CYMUNEDAU GOFALGAR AC IACH


- Darparu ar gyfer anghenion gofal ein poblogaeth
- Cyflwyno'r Rhaglen Gydol Oed a Llesiant
- Hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Lansio Canolfannau Llesiant ar draws y Sir
- Mynd ar drywydd mentrau i hyfforddi a recriwtio staff Gofal Plant a gofal cymdeithasol
- Datblygu cyfleuster gofal ychwanegol Cylch Caron yn Nhregaron
- Croesawu a chefnogi ailsefydlu ffoaduriaid
- Datblygu seibiannau/anadliad gofalwyr a chefnogi'r dyhead o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru
- Cefnogi cyfleusterau iechyd meddwl cymunedol
- Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egniol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol
- Datblygu cynllun gwella ar gyfer darpariaeth strategol cyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y sir
- Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth
- Datblygu digwyddiadau cyfranogiad ymhellach i sicrhau bod gan gymunedau lais
- Datblygu a chynyddu nifer y rhaglenni gweithgareddau allgwricwlaidd a gwyliau cyffredinol â ffocws
- Datblygu a chynyddu nifer y grwpiau a rhaglenni cymorth

CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY A GWYRDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA Â'I GILYDD

- Blaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a dilyn ein nod o fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030
- Adeiladu ar berfformiad gwych Ceredigion ym maes ailgylchu
- Symud tuag at fflyd o gerbydau ag allyriadau isel iawn yn y Cyngor
- Gweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu ein stoc tai cymdeithasol
- Byddwn yn parhau i fynd i'r afael a materion ail gartrefi, perchnogaeth tai haf, a throsi cartrefi preswyl i dai gwyliau drwy geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cynllunio a'r Gwasanaeth Trethi
- Galluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes
- Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg
- Rydym wedi cydnabod difrifoldeb y mater sy'n gysylltiedig â lefelau ffosffadur ar hyd Dyffryn Teifi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gwneir pob ymdrech drwy'r Bwrdd Rheoli Maetholion i ddod o hyd i atebion cynnar i'r broblem
- Chwilio am atebion i'r llifogydd a geir yn nyffryn Teifi
- Mynd ar drywydd cyllid ar gyfer amddiffynfeydd i'r arfordir yn Aberaeron ac Aberystwyth a datblygu cynigion ar gyfer cam nesaf yr amddiffynfa arfordirol yn y Borth ac ar gyfer y lan yn Llangrannog
- Atal a dad-wneud y dirywiad mewn bioamrywiaeth gan gynnwys yn ein hamgylchedd morol
- Cefnogi rhagor o ddarpariaeth ar gyfer cerdded a beicio
- Dadlau'n gryf o blaid cyswllt rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

3.2 Yr Economi

Mae Strategaeth 'Hybu Economi Ceredigion – Strategaeth i Weithredu 2020-35' y Cyngor yn amlinellu pedwar maes blaenoriaeth lle bydd ein gweithgareddau'n cael eu targedu i wneud gwahaniaeth a fydd hefyd yn cefnogi'r Nodau Llesiant Cenedlaethol:



Mae'r Strategaeth hon yn alinio'n agos â'r blaenoriaethau sy'n datblygu o'n partneriaeth â Chyngor Sir Powys a phartneriaid ehangach fel rhan o Dyfu Canolbarth Cymru – a bydd yn helpu i lywio'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol datblygol er mwyn ei gyflawni'n lleol.

Cyrhaeddodd Bargaen Twf Canolbarth Cymru, a ddatblygodd o'r Weledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, garreg filltir arwyddocaol yn 2022 pan lofnodwyd Cytundeb y Fargen Derfynol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Chyngorau Ceredigion a Phowys, yn seiliedig ar ddatblygu a chyflwyno Portffolio yr Achos Busnes. Cytunodd y ddwy lywodraeth i ddarparu £55m, sef cyfanswm o £110m dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd. Cyflwynwyd Portffolio Strategol o'r Achos Busnes wedi'i ddiweddarau'n ffurfiol ym mis Mawrth 2023 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac mae disgwyl rhyddhau cyfran gyntaf cyllid y Fargen Dwf yn ystod 2023/24 trwy ddyfarniad grant ffurfiol.

Ar hyn o bryd mae gan Portffolio yr Achos Busnes gyfres o raglenni a phrosiectau sy'n ymdrin ag ystod o gynigion buddsoddi ar draws nifer o themâu - digidol, twristiaeth, bwyd a diod amaethyddol, ymchwil ac arloesi a chefnogi mentrau.

Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFFRDU) yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Y cyllid dangosol ar gyfer Ceredigion yw £12.4m ar gyfer y blynyddoedd 2022/23 i 2024/25. Mae £2.9m yn gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda £9.5m ar gyfer prosiectau refeniw. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn Rhanbarth Canolbarth Cymru yn rhan o gyfres o gyllid gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i Pholisi Ffyniant Bro. Er ei fod yn goroesi cyllid Ewropeaidd, nid yw'n disodliad pendant i unrhyw gronfa benodol. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn Rhanbarth Canolbarth Cymru wedi'i gynllunio i adeiladu balchder mewn lleoedd a grymuso cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i wneud cais am £10.9m o gyllid Ffyniant Bro ar gyfer Aberystwyth - mae angen gwario'r cyllid erbyn mis Mawrth 2025. Bydd yn helpu trawsnewid 'Yr Hen Goleg' yn Aberystwyth, adfywio'r promenâd a chreu 'harbwr byw'. Bydd Hybu Economi Ceredigion hefyd angen buddsoddiad gan y Cyngor a'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd i'w gefnogi, oedd bellach yn £8 miliwn ar 31/3/23.

3.3 Addysg

Parhau i foderneiddio sefydliadau addysg, er enghraifft, gan ddefnyddio cyllid rhaglen Band B o Ysgolion yr 21ain Ganrif i adeiladu ysgol ardal ar gyfer Dyffryn Aeron yn ogystal â gwelliannau i Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Gynradd Aberteifi a Chanolfan y Môr yn Ysgol Uwchradd Aberaeron. Disgwylir i gyfanswm cyllid Band B gan Lywodraeth Cymru ddod i gyfanswm o dros £16m. Yn 2022 dyfarnwyd cyllid o £5.7m i'r Cyngor tuag at Ganolfan Trochi Iaithe a fydd yn cael ei lleoli yn yr Ysgol Gymraeg ac adeiladau ystafell ddosbarth newydd yn yr ysgol.

Mae contract Menter Cyllid Preifat (PFI) y Cyngor ar Ysgol Penweddig yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2030. Mae prosiect wedi dechrau cael ei gynllunio ac mae yn y camau cynnar ar hyn o bryd, gan gynnwys cael adolygiad cyntaf gan Lywodraeth Cymru o'r Archwiliad Iechyd terfynol. Bydd angen dyrannu rhagor o adnoddau i'r prosiect hwn yn ystod y 7 mlynedd nesaf.

3.4 Llesiant Gydol Oes

Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu model Llesiant Gydol Oes ar gyfer cyflawni'r hyn a fyddai'n draddodiadol yn cael ei ystyried yn Wasanaeth Gofal Cymdeithasol. Felly, nid yw'r dadansoddiad traddodiadol o wasanaethau Oedolion a Phlant yn bodoli mwyach.

Mae gweithredu a chyflwyno'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes yn parhau wrth i drawsnewid gwasanaethau fynd yn ei flaen yn dda wrth integreiddio Gofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes i Dri Gwasanaeth - Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Porth Cynnal sydd, ynghyd â Chyswllt Cwsmeriaid, yn ffurfio'r pedwar prif faes sy'n dod o fewn y Rhaglen Newid o ran Llesiant Gydol Oes. Mae'r Strategaeth yn cwmpasu'r cyfnod 2021 i 2027 a chytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn:

- Sefydlu Model cyflenwi newydd o ran Llesiant Gydol Oes
- Lleihau'r galw ar ofal a chymorth a reolir a chanolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd fwyaf eu hangen
- Cefnogi ein Gweithlu i ddatblygu dull newydd o gefnogi unigolion yng Ngheredigion
- Canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i barhau yn annibynnol neu adennill yr annibyniaeth y maent ei heisiau ac yn ei werthfawrogi
- Gweithio gyda Phartneriaid i ddarparu system Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol fwy cydgysylltiedig

Yn ystod 2020/21 fe welwyd alinio sylweddol i Gyllideb y Cyngor drwy strwythur newydd y Pyrth. Mae buddsoddiad referniw eisoes wedi'i wneud i Strwythur Staffio Llesiant Gydol Oes dros ddwy flynedd ac mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud i feysydd allweddol megis Cyfleusterau i Blant o fewn y sir, Cartrefi Gofal yr Awdurdod Lleol, sefydlu Canolfannau Lles a pheilota technoleg ym maes galluogi gofal.

Fodd bynnag, mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i weld mwy o alw ar wasanaethau sy'n rhoi pwysau costau sylweddol ar draws y model Llesiant Gydol Oes. Mae'r rhain yn arbennig o gyffredin ym meysydd megis Plant sy'n Derbyn Gofal (o fewn y sir), lleoliadau y tu allan i'r Sir, lleoliadau Pobl Hŷn a lleoliadau Anableddau Dysgu. Mae'r Cyngor hefyd yn gweld cymhlethdod cynyddol o achosion ar draws y gwasanaethau hyn gan ychwanegu dynamig pellach i'r galw cynyddol.

3.5 Statws carbon sero net erbyn 2030

Mae gan y Cyngor gydnabyddiaeth hirsefydlog o bwysigrwydd newid yn yr hinsawdd a'i effaith hirdymor ar gymunedau ac ar yr amgylchedd. Mae ganddo ymrwymiad parhaus i leihau ei ôl troed carbon, a fydd o fudd i'r Awdurdod a'r gymuned ehangach drwy leihau allyriadau carbon a hefyd arbedion cost ynni.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor wrthi'n datblygu cynllun tri cham i symud tuag at y nod o gyflawni statws allyriadau carbon sero-net erbyn 2030. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac mae'n gyson â nod datganedig LIC o ddatgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030 a chynnig ffurfiol y Cyngor Llawn.

Wrth i'r cynllun ddatblygu, bydd cynlluniau penodol sydd â'r achosion busnes cefnogol cywir yn cael blaenoriaeth uchel o fewn amlen ariannu'r rhaglen gyfalaf a cheisir cyllid grant sylweddol

gan LC. Mae hyn eisoes yn cael ei weld ar ffurf cyllid ULEV (Cerbyd Allyriadau Isel lawn), ond nid yw hyn yn ddigon a bydd angen cyllid allanol pellach e.e. i gefnogi trawsnewid y Fflyd Cerbydau. Bydd cyfleoedd Buddsoddi i Arbed yn cael eu harchwilio lle bynnag y bo modd ac mae £1m o gyllid cyfalaf wedi'i glustnodi ar draws 2023/24 a 2024/25 i ddarparu cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni o'r fath.

3.6 Priffyrdd a Seilwaith

Rhagwelir y bydd tua £30m yn cael ei wario ar y cynllun amddiffyn arfordirol yn Aberaeron ac mae disgwyl i'r cynllun hwn sicrhau cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn a chyllid gan Lywodraeth Cymru a gosod contractau yn ystod haf 2023. Bydd y cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn bennaf, sef 85% drwy'r Fenter Benthycia Llywodraeth Leol gyda gofyniad cyllid cyfatebol gan y Cyngor o 15%. Mae gofyniad cyllid cyfatebol y Cyngor o hyd at £4.5m wedi'i nodi mewn Cronfa Wrth Gefn wedi'i chlustnodi.

Er bod cynllun amddiffyn Aberystwyth ar hyn o bryd yn y cam Achos Busnes Amlinellol sy'n golygu nad yw'r gofyniad cyllido ar gyfer y cynllun hwn wedi'i sefydlu eto.

Mae'r Gwasanaeth Gwastraff wedi wynebu heriau gweithredol yn ystod y gaeaf diwethaf, ond mae dulliau newydd eisoes wedi'u treialu i oresgyn rhai o'r rhain (e.e. dod â chasgliadau Gŵyl y Banc ymlaen) ac mae perfformiad ailgylchu yn parhau'n gryf. Bydd Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn gyfle i adolygu gwahanol agweddau ar y gwasanaeth a blaenoriaethu lle sydd orau i ddyrannu adnoddau.

Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd bob amser yn dangos ôl-groniad o waith. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cyllid sylweddol ar gyfer adnewyddu priffyrdd/ail osod wyneb newydd iddynt. Fodd bynnag, gyda newid mewn dull polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd, mae llai o gyllid yn dod drwyddo sy'n niweidiol i sir wledig. Bydd angen i'r buddsoddi barhau os yw cyflwr ffyrdd Ceredigion am aros yn uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer ffyrdd B ac yn agos at y targedau a osodwyd ar gyfer ffyrdd A a C. Bydd ceisiadau am gyllid yn parhau i gael eu cyflwyno ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â theithio llesol sy'n cael eu cefnogi gan LC, er nad yw pa mor wledig yw Ceredigion yn cael ei ystyried yn llawn yn ystod y broses gymeradwyo. Mae'r rhwydwaith Bysiau Cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol i'w gynnal ac mae angen cyllid Llywodraeth Cymru i wneud hyn.

3.7 Strategaeth Ddigidol

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Ddigidol newydd a fydd yn amlinellu'r cyfeiriad strategol lefel uchel a'r cynlluniau ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'w gyflwyno i gwsmeriaid. Ar 31 Mawrth 2023 roedd £1m wedi'i neilltuo mewn cronfa 'Buddsoddiad Digidol a TGCh' sydd wedi'i chlustnodi i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon.

3.8 Recriwtio

Nid yw Ceredigion yn wahanol i lawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat, gyda rhannau o'r gweithlu wedi dewis ymddeol a/neu adael ac mae lefel uwch na'r arfer o swyddi gwag yn cael ei gweld ar draws llawer o Wasanaethau, nid yn unig y gwasanaethau Porth o fewn Llesiant Gydol Oes. Mae'n flaenoriaeth allweddol i'r Gyllideb i oresgyn yr her recriwtio hon, gan gynnwys lleihau'r defnydd o staff Asiantaeth drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol ac arloesol. Mae Ceredigion yn Gyngor uchelgeisiol ac mae ganddo set ddeniadol o Delerau ac Amodau cyflogaeth ac mae'n lleoliad gwych i fyw a gweithio ynddo. Mae'n eithaf amlwg nawr bod hon yn her tymor canolig a bydd llawer o'r datrysiadau yn cymryd sawl blwyddyn i ddwyn ffrwyth.

3.9 Tai

Defnyddir ystod o fesurau gan y gwasanaeth Tai i wneud y mwyaf o'r argaeledd Tai sydd ar gael yn y sir. Mae hyn bellach yn cynnwys Cynllun Tai Cymunedol sydd newydd ei lansio (a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2023) gan ddefnyddio arian Premiwm Treth y Cyngor presennol yn ogystal â bod y Cyngor yn rhan o'r Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol. Mae angen mesurau pellach i gynorthwyo gyda'r her o ran eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

4 Cyd-destun Economaidd, Ariannol a Deddfwriaethol Allanol

4.1 Amgylchedd Economaidd

Gosodir rhagolwg ariannol tymor canolig y Cyngor yng nghyd-destun yr economi genedlaethol, cynlluniau gwariant cyhoeddus Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a deddfwriaeth a rheoliadau cenedlaethol. Mae'n cael ei lunio o fewn cyd-destun cyfnod heriol i'r economi genedlaethol wrth iddi ddod allan o uchelfannau pandemig Covid-19, Brexit, argyfwng costau byw, cadwyni cyflenwi deunydd cyfyngedig, y rhyfel yn yr Wcrain ac ar adeg pan fu mesurau llymder sylweddol ar waith am y degawd blaenorol.

Mae'r Trysorlys a'r rhagolygon allanol yn rhagweld cyfnod anwastad ar gyfer twf economaidd oherwydd y ffactorau a ddisgrifir eisoes ac mae hyn yn darparu cefndir heriol i gyllideb y Cyngor. Mae gwasanaethau sy'n ymateb i alw, fel Llesiant Gydol Oes, Addysg a'r gwasanaeth Digartref yn gweld pwysau cynyddol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw parhaus.

4.2 Chwyddiant

Mae Adroddiad Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ar gyfer mis Mehefin 2023 yn cynnwys y sylwebaeth a'r rhagamcanion canlynol ar gyfer chwyddiant:

“Twelve-month CPI inflation fell from 10.1% in March to 8.7% in April and remained at that rate in May. This is 0.3% higher than expected in the May Report. Services CPI inflation rose to 7.4% in May, 0.5% stronger than expected at the time of the May Report, while core goods price inflation has also been much stronger than projected. In general, news in the latter component is less likely to imply persistent inflationary pressures.

CPI inflation is expected to fall significantly further during the course of the year, in the main reflecting developments in energy prices. Services CPI inflation is projected to remain broadly unchanged in the near term. Core goods CPI inflation is expected to decline later this year, supported by developments in cost and price indicators earlier in the supply chain. In particular, annual producer output price inflation has fallen very sharply in recent months. Food price inflation is projected to fall further in coming months....

... The MPC recognises that the second-round effects in domestic price and wage developments generated by external cost shocks are likely to take longer to unwind than they did to emerge. There has been significant upside news in recent data that indicates more persistence in the inflation process, against the background of a tight labour market and continued resilience in demand.”

Tabl 1: Rhagolwg Blynyddol o Fynegai Prisiau'r Defnyddwyr yn Adroddiad Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr


	Mehefin 2023 Gwirioneddol	Mehefin 2024 Rhagolwg	Mehefin 2025 Rhagolwg	Mehefin 2026 Rhagolwg
Rhagolwg Blynyddol Chwyddiant y Pwyllgor Polisi Ariannol	7.9%	3.4%	1.1%	1.2%

Mae'r lefelau uchel parhaus o chwyddiant a welir o fewn yr economi yn erydu pŵer gwario'r Cyngor, hyd yn oed yn fwy felly pan nad yw setliadau cyllid gan Lywodraeth Cymru yn bodloni'r chwyddiant a brofir. Teimlir hyn yn fwyaf amlwg trwy lefelau uwch o ddyfarniadau cyflog i staff wrth i'r Undebau lobïo am gyflogau uwch i helpu staff i dalu'r costau byw uwch, costau ynni sylweddol uwch a chwyddiant mewn prisiau contractau wrth gyrraedd dyddiadau diwedd cyfnod ar gyfer contractau mwy sy'n pennu codiadau blynyddol yn unol â Mynegai Prisiau Defnyddwyr/Mynegai Prisiau Manwerthu ac ati. Mae chwyddiant prisiau sylweddol hefyd yn

cael ei weld mewn dyfynbrisiau tendrau i gontractau a dderbynnir wrth i gontractwyr drosglwyddo eu costau cynyddol eu hunain.

4.3 Cyfraddau Ilog

Mewn ymateb i lefelau uchel parhaus o chwyddiant, mae Banc Lloegr wedi cynyddu'r gyfradd llog sylfaenol yn olynol ym mhob un o dri chyfarfod ar ddeg olaf y Pwyllgor Polisi Ariannol. Ym mis Mehefin 2023 roedd y gyfradd sylfaenol yn 5%, i fyny o'i chyfradd hanesyddol isel o 0.1% mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2021. Mae cynghorwyr Trysorlys y Cyngor yn rhagweld y bydd y gyfradd sylfaenol ar ei huchaf ar 5.5% ac y bydd yn raddol yn cilio yn ôl i 3.25% erbyn Mehefin 2025. Caiff rhagolygon cyfraddau llog eu hadrodd i'r Cyngor yn rheolaidd drwy Adroddiadau Rheoli'r Trysorlys.



4.4 Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi cenedlaethol y bydd gweithwyr Gofal yng Nghymru o leiaf yn cael eu talu y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyfrifo'n annibynnol gan y 'Resolution Foundation' a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw ac ar hyn o bryd mae'n £10.90 yr awr. Mae'n berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal cartref ac mae hefyd yn cynnwys cynorthwywyr personol sy'n darparu gofal a chymorth sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol. Bydd angen i ystyriaethau codi ffioedd blynyddol ar gyfer Darparwyr Gofal Cymdeithasol ystyried unrhyw newidiadau gan y Cyflog Byw Gwirioneddol, ar yr amod bod digon o gyllid LIC yn cael ei dderbyn.

Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cyllid blynyddol rheolaidd o tua £70m i gyflawni'r ymrwymiad hwn, mae risg sylweddol na fydd yr arian a dderbynnir (trwy'r Grant Cynnal Refeniw - RSG) yn cael ei gynnal ar lefel ddigonol wrth weld y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn bodoli i wneud i gyrrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau a gyda ei gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o weithio. Mae'r ddyletswydd llesiant o dan y Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i ni gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy pum ffordd o weithio i bopeth a wnawn ac alinio ein gwaith â'r saith Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i bob gwasanaeth weithredu'r Ddeddf, gan sicrhau bod y cynlluniau trawsnewid ac arbedion effeithlonrwydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd llesiant.

Dyma'r pum Ffordd o Weithio:



Hirdymor

Osgoi tymor byr ac ystyried sut y bydd penderfyniadau'n effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r cenedlaethau presennol



Atal

Gweithredu'n gynnar - mynd i'r afael ag achos sylfaenol problemau cyn iddo gynyddu neu waethygu. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion, cyrff cyhoeddus a'r gymdeithas gyfan.



Integreiddio

Sicrhau bod yr ystod lawn o ganlyniadau gweithred yn cael eu hystyried fel bod gweithgaredd yn un maes gwaith y gellir ei lunio i ategu, yn hytrach na thanseilio'r gweithgareddau mewn eraill.



Cydweithio

Gweithio gydag eraill, y tu mewn neu'r tu allan i'ch tîm neu'ch sefydliad, fel y gellir bodloni cymaint o amcanion â phosibl gyda'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael.



Cynnwys

Deall manteision cynnwys ystod mor eang â phosibl o bobl wrth helpu i lunio'r penderfyniadau a'r gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.

5 **Ffactorau Cenedlaethol a Lleol**

5.1 **Etholiad Cyffredinol Llywodraeth y DU**

Bydd etholiad cyffredinol nesaf y DU yn cael ei gynnal ddim hwyrach na 28 Ionawr 2025, er yr adroddwyd ym mhapur newydd y Telegraph yn ystod mis Ebrill 2023 mai Hydref 2024 oedd y dyddiad a ffefrir gan y Prif Weinidog ar gyfer cynnal yr etholiad, felly mae mis Hydref 2024 yn llinell amser bosib.

Gallai canlyniad yr etholiad newid yn sylweddol y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru (er gwell neu er gwaeth) drwy fformiwla Barnett, yn dibynnu ar flaenoriaethau gwario'r weinyddiaeth newydd ar ôl yr etholiad.


5.2 **Cyllid**

Mae gan y Cyngor nifer o ffrydiau ariannu allweddol fel y disgrifir yn adrannau 5.2.1 i 5.2.4 isod.

5.2.1 **Llywodraeth Cymru**


Asesiadau Gwariant Safonol (AGS) yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiad o'r hyn y mae angen i bob Awdurdod Lleol ei wario i ddarparu lefel safonol o wasanaethau ar gyfradd gyffredin o dreth y cyngor. Mae fformiwla'r Asesiadau Gwariant Safonol yn cael eu hadolygu drwy'r Is-Grŵp Dosbarthu. Mae'r dyraniad yr Asesiadau Gwariant Safonol yn defnyddio tua hanner cant o fformiwla'u sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu costau cymharol darparu gwasanaethau tebyg rhwng awdurdodau. O ganlyniad, mae'r fformiwla'u yn ystyried ffactorau megis poblogaeth, nifer y plant ac oedolion hŷn, hyd y ffyrdd, a yw'r ardal yn wledig a pha mor wasgaredig yw'r boblogaeth. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn gydymaith ystadegol i Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'n darparu gwybodaeth gefndirol ar gyfer cyfrifo Asesiadau Gwariant Safonol ar gyfer setliad referniw blyneddol llywodraeth leol.

Mae tua 72% o'r gyllideb net yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy gyfuniad o Grant Cynnal Referniw ac aildosbarthu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel Cyllid Allanol Agregau (AEF). Gall Awdurdodau Lleol wneud cais am gyllid penodol ychwanegol drwy raglen grant LIC. Fel arfer, mae tua £4.4 miliwn arall o gyllid grant ar gyfer gwasanaethau penodol yn cael ei dderbyn bob blwyddyn i ddarparu a chefnogi llawer o wasanaethau referniw a chynlluniau / prosiectau cyfalaf y Cyngor.



Mae'r setliad CAA ar gyfer 2023/24 wedi cynyddu 8.1% a arweiniodd at ddiffyg cyllideb o £12m i'w ganfod o gyfuniad o Arbedion Cyllideb a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Mae'r graff isod yn dangos setliad CAA y Cyngor am y 10 mlynedd diwethaf ac yn dangos bod setliad Ceredigion wedi bod yn is na chwyddiant (MPC) am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw.



5.2.2 Treth y Cyngor

Mae data cymharol ar lefelau Treth y Cyngor Awdurdodau Cymru ar gael ar wefan Ystadegau Cymru gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:-


<https://llyw.cymru/lefelau-dreth-gyngor>

Yn hanesyddol mae Band D wedi cael ei ddefnyddio fel y safon ar gyfer cymharu lefelau Treth y Cyngor rhwng ac ar draws awdurdodau lleol. Nid yw'r mesur hwn yn cael ei effeithio gan y dosbarthiad amrywiol o eiddo mewn bandiau sydd i'w gweld ar draws awdurdodau.

Ar gyfer 2023/24 bil blynyddol Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Ngheredigion o ganlyniad i godiad o 7.3% yw £1,908, sydd hefyd yn cynnwys praecept y cynghorau cymuned

ac awdurdod yr heddlu. £1,879 yw cyfartaledd Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D yng Nghymru.

Mae'r siart ganlynol yn dangos cyfartaledd Band D ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru.



Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi premiwm Treth y Cyngor o 25% ar Eiddo Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi. Ar hyn o bryd mae'r arian a godir o'r premiwm hwn ar y lefel hon o 25% wedi'i neilltuo i ariannu'r cynllun Tai Cymunedol, a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2023, i gynorthwyo trigolion lleol i brynu cartrefi yn y Sir, trwy ddarparu benthyciadau rhannu ecwiti di-log. Cafodd y penderfyniad i glustnodi'r cyllid o'r ddau Breimiwm 25% ar gyfer y Cynllun Tai Cymunedol ei ddiwygio gan y Cyngor Llawn yn ystod 2022. Mae'n amserol i'r Aelodau ystyried adolygu'r sefyllfa ar Breimiwm Treth y Cyngor, yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth bellach gan gynyddu'r canran hyd at 300%.

5.2.3 Ffioedd a Thaliadau

Mae swm sylweddol o incwm (£32 miliwn) yn cael ei dderbyn bob blwyddyn drwy Ffioedd a Thaliadau a ddefnyddir i gynorthwyo gwasanaethau ariannu. Mae'r ffioedd hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y Cyngor a chan gyfeirio at Bolisi Rheoli Incwm ac Adfer Costau Gwasanaethau'r Cyngor. Dylid nodi bod rhai o'r ffioedd wedi'u gosod ar sail statudol gan gyrrff eraill, felly nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth ar lefel y ffioedd hyn.

5.2.4 Ardoll Ymwelwyr Dewisol

Mae'r Ardoll Ymwelwyr Dewisol yn ymrwymiad gan LC fel rhan o'u Rhaglen Lywodraethu. Ym mis Mai 2023 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod y cynlluniau'n mynd rhagddynt a bod y bwriad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth o fewn tymor presennol y llywodraeth yn parhau (2021-2026).

Byddai'r ardoll i ymwelwyr yn ardoll hunanasesu ar arosiadau dros nos mewn llety i ymwelwyr a osodir yn fasnachol. Bydd y penderfyniad a ddyldid codi'r ardoll ymwelwyr o fewn ardal yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn fater i'r awdurdod lleol unwaith y bydd y ddeddfwriaeth i alluogi hyn wedi'i gymeradwyo. Bydd y Cyngor yn ceisio sefydlu ei safbwynt ynghylch a ddyldid codi'r

ardoll ai peidio, unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael. Mae LIC wedi dweud y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn gweinyddu'r ardoll ar ran awdurdodau lleol felly mae disgwyl y bydd y baich gweinyddol ar y Cyngor yn fach iawn.

5.2.4 Diwygio Treth y Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddiwygio Treth y Cyngor a Threthi Annomestig o fewn eu tymor presennol. Gall cynigion arwain at fandiau datblygol a fydd yn adlewyrchu'r data diweddaraf, ailbrisiadau rheolaidd ac adolygiad o'r holl ostyngiadau a gostyngiadau. Er bod LIC wedi dweud nad yw hyn yn ymwneud â chodi mwy o refeniw, mae risg y bydd Cyngorau unigol ar eu colled - er enghraifft mae gan Geredigion fandio cyfartalog uwch o'i eiddo na nifer o awdurdodau De Cymru. Y llinell amser gyfredol ar gyfer diwygio Treth y Cyngor yw Ebrill 2025, efallai bod y llinell amser hon yn uchelgeisiol o ystyried bod hwn yn faes gwaith cymhleth a thechnegol.

5.3 Pwysau Costau

Mae'r Cyngor yn wynebu costau uwch i gynnal yr un lefelau o wasanaeth, yn ogystal â phwysau costau sy'n codi o ofynion ychwanegol sy'n cael eu gyrru gan ddemograffig ac sy'n statudol eu natur ac felly ni ellir eu hosgoi. Ystyrir bod y canlynol yn bwysau dangosol lefel uchel sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor byr i'r tymor canolig ynghyd â manylion ynghylch rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth gynllunio ariannol.

Tabl 2: Amcangyfrif o bwysau costau dros y tymor canolig

	Nodyn	2023/24 £m	2024/25 £m	2025/26 £m	2026/27 £m
Dyfarniad Cyflog APT&C	1	7.7	4.5	3.1	2.3
Dyfarniad Cyflog Athrawon gan gynnwys Soulbury	2	1.8	2.0	1.8	1.5
Yswiriant Gwladol		(0.7)	-	-	-
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor		0.5	0.3	0.4	0.4
Cyllid Cyfalaf		0.2	0.2	0.2	0.2
Ardoll Tân	3	0.5	0.2	0.1	0.1
Ynni	4	1.8	0.3	-	-
Yn ymwneud â Llesiant Gydol Oes	5	8.3	5.8	4.0	4.2
Yn ymwneud ag Addysg		0.8	0.1	0.2	0.2
Yn ymwneud â Phriffyrdd a gwasanaethau amgylcheddol	6	1.1	1.0	1.0	1.0
Arall		0.4	0.5	0.3	0.3
Cyfanswm		22.4	15.1	11.1	10.2

Nodyn 1 - Dyfarniad Cyflog APT&C (bob mis Ebrill)

Mae rhagdybiaethau ynghylch dyfarniadau cyflog yn arbennig o ansicr mewn amgylchedd chwyddiant uchel. Gan ystyried yr amodau economaidd cyffredinol a chan gyfeirio at y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol mae'r rhagdybiaethau canlynol wedi'u defnyddio.

2023/24	+ £1,925 i bob Pwynt Graddfa
2024/25	+ £1,600 i bob Pwynt Graddfa
2025/26	+ 3.5% i bob Pwynt Graddfa
2026/27	+ 2.5% i bob Pwynt Graddfa

Nodyn 2 - Dyfarniad Cyflog Athrawon (bob mis Medi) / Pensiwn Athrawon

Mae rhagweld dyfarniadau cyflog yn y dyfodol yn anodd. Gan ystyried yr amodau economaidd presennol, defnyddiwyd y rhagdybiaethau canlynol ar gyfer Cyflogau Athrawon.

2023/24	+ 5% i bob Pwynt Graddfa
2024/25	+ 4% i bob Pwynt Graddfa
2025/26	+ 3.5% i bob Pwynt Graddfa
2026/27	+ 2.5% i bob Pwynt Graddfa

Mae cyfraddau cyfraniadau Pensiwn Athrawon cyflogwyr yn debygol iawn o gynyddu'n sylweddol naill ai ym mis Ebrill 2024 neu fis Medi 2024. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd unrhyw gynydd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU ac yn ei dro gan Lywodraeth Cymru, er bod risg y bydd diffyg. Roedd hyn yn wir y tro diwethaf i'r cyfradd Pensiwn Athrawon gynyddu.

Tybir y bydd swyddogion Soulbury yn derbyn dyfarniad cyflog yn unol â dyfarniad cyflog APT&C.

Nodyn 3 Ardoll Tân

Disgwylir cynnydd blynyddol. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn unol â'r chwyddiant CPI blynyddol a ragwelir gyda llawr o 2% lle rhagwelir chwyddiant yn is na 2%. Mae risg bod ardoll 2024/25 yn dal i fod ar lefel uwch.

Nodyn 4 Ynni

Oherwydd bod y Cyngor yn prynu ei ynni ymlaen llaw disgwylir y bydd prisiau trydan yn dal i fod yn uchel ar gyfer 2024/25. Wedi hynny disgwylir y bydd prisiau trydan a nwy yn aros ar y lefel honno neu'n gostwng.

Nodyn 5 Llesiant Gydol Oes

Mae Gofal Cymdeithasol yn parhau i fod yn faes lle mae pwysau cyllidebol sylweddol. Yn ystod y tymor canolig bydd hyn i'w weld yn fwyaf arwyddocaol mewn Gwasanaethau a Gomisynir, wedi'i yrru i raddau helaeth gan weithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer pob gweithiwr gofal (gweler adran 4.4). Mae pwysau ychwanegol yn cynnwys ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gartref preswyl Hafan y Waun, cynnydd i gyfradd Cymdeithas Gofal Cartref Cymru ar gyfer Gofal Cartref ac ail-dendro contractau Byw â Chymorth.

Nodyn 6 Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Mae nifer o fentrau rheoli gwastraff LIC dros y tymor canolig, megis y cynnig Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes, efallai y bydd y rhain yn arwain at bwysau cyllidebol i'r Cyngor os na chânt eu hariannu'n llawn. Mae disgwyl i nifer o gontractau rheoli gwastraff a chlodiant ysgolion gael eu hadnewyddu a allai hefyd arwain at gostau uwch.

Nodyn 7 Arall

Mae pwysau costau eraill yn cynnwys eitemau megis seilwaith TGCh a chwyddiant yng nghostau meddalwedd, a phwysau ar y gyllideb yswiriant corfforaethol oherwydd premiymau cysylltiedig â chwyddiant a chynnydd disgwylidig yng ngwerth symiau yswirio (eiddo).

5.4 Demograffeg a thueddiadau eraill

Mae llawer o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu harwain gan alw sy'n cael eu gyrru gan newidiadau a thueddiadau demograffig ehangach. Gall y rhain fod yn anodd eu rhagweld ac mae'n anodd mesur eu heffaith ar y cyllidebau dros y tymor hwy. Mae'r prif heriau a thueddiadau demograffig wedi'u nodi isod.

Demograffeg

Amcangyfrifodd Cyfrifiad 2021 mai 71,500 oedd poblogaeth Ceredigion ar 21 Mawrth 2021. Yn ôl yr amcangyfrifon canol blwyddyn, roedd poblogaeth Ceredigion dri mis yn ddiweddarach ychydig yn llai (70,700), sef tua 800 o drigolion yn llai/-1.1% nag ym mis Mawrth. Gellir priodoli'r newid yn y boblogaeth ar gyfer y cyfnod rhwng Diwrnod Cyfrifiad 2021 a chanol blwyddyn 2021 i amgylchiadau unigryw'r pandemig a'r llif mudo tymhorol (e.e., efallai bod llawer o fyfyrwyr wedi dychwelyd i'w cyfeiriad cartref erbyn diwedd mis Mehefin).

Mae gan boblogaeth Ceredigion gyfran uchel o fyfyrwyr, ac mae hyn yn cyflwyno heriau wrth amcangyfrif y boblogaeth ar adeg benodol. Amcangyfrifodd y Cyfrifiad fod 6,500 o fyfyrwyr yn y Sir yn 2021. Mae'n debygol bod nifer y myfyrwyr yng Ngheredigion yn llawer uwch na ffigwr y Cyfrifiad, gan fod cyfyngiadau Covid-19 yn dal i fod ar waith a gafodd effaith ar ble roedd myfyrwyr yn byw adeg y Cyfrifiad.

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 2.2% hyd at 2042, gan godi o 3.18 miliwn yn 2022 i 3.25 miliwn yn 2042. Dros y cyfnod hwn o ugain mlynedd mae disgwyl i ganran y rhai dros 65 oed yng Nghymru gynyddu o tua 22% i 26% o'r boblogaeth, a rhagwelir y bydd y gyfran sy'n 75 oed ac yn hŷn yn cynyddu 44%. Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i gynyddu yn ystod yr ugain mlynedd nesaf ond ar gyflymder arafach.

I'r gwrthwyneb yn ystod y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd nifer y plant 15 oed ac iau yn gostwng o tua 18% i 16% o'r boblogaeth. Rhagwelir hefyd y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth gyffredinol, gan arwain at aelwydydd llai o faint a'r angen am fwy o gartrefi.

Mae Ceredigion yn un o bedair sir y disgwylir i'w phoblogaeth ostwng dros y cyfnod hwn o 71,150 yn 2022 i 68,800 yn 2042. Rhagwelir y bydd nifer y plant yng Ngheredigion yn gostwng tua 13%, gostyngiad o 1,400 erbyn 2042. Gellir priodoli'r dirywiad hwn i'r oedi disgwyliedig mewn cyfraddau ffrwythlondeb yng Ngheredigion, sy'n duedd a welir yn genedlaethol hefyd.

Yn ogystal, mae disgwyl i boblogaeth oedran gweithio Ceredigion ostwng 10% hyd at 2042, gan ostwng o 41,300 i 37,000. Gellir priodoli'r gostyngiad hwn i allfudiad pobl i wahanol rannau o'r DU. Mae hyn yn cynnwys cyfran uchel o fyfyrwyr yng Ngheredigion rhwng 21 a 24 oed sy'n tueddu i adael yr ardal ar ôl graddio i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth ac addysg mewn mannau eraill.

Ar y llaw arall, mae disgwyl twf yn y rhai dros 65 oed yng Ngheredigion, mae'r gyfran yn debygol o gynyddu o tua 27% i 33% o'r boblogaeth, sef 3,400 o bobl ychwanegol dros y cyfnod o ugain mlynedd. Yn ogystal â disgwyliad oes hirach, priodolir y cynnydd yn y grŵp oedran 65+ i'r ffaith fod y garfan a gafodd eu geni yn ystod y twf sylweddol yn nifer y babanod yn y 1950au a'r 1960au yn heneiddio, a fydd yn 65 oed o leiaf neu'n hŷn yn 2030.

Bydd y duedd o ostyngiad yn y boblogaeth yn y Sir yn cael effaith negyddol ar Gyllid Allanol Cyfun y Cyngor gan Lywodraeth Cymru gan fod hwn yn ffactor allweddol yn fformiwla'r Aseidiadau o Wariant Safonol (SSA) fel y disgrifir yn adran 5.2.1. Mae poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn anochel ac, yn y pen draw, bydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau Gofal Cymdeithasol gan greu pwysau cost ychwanegol, ni waeth pa mor llwyddiannus yw mesurau ymyrraeth gynnar.

Mae amryw o gynlluniau a gweithgareddau ar y gweill i helpu i wrthdroi'r duedd hon o ran y boblogaeth yn gostwng, megis y Cynllun Tai Cymunedol (gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd tai fforddiadwy i bobl iau a phrynwyr tro cyntaf), Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion (sy'n ceisio hyrwyddo'r ystod o lwybrau gyrfa gwerth chweil a rhoi Ceredigion ar y map fel lle gwych i ddechrau a thyfu busnes a chynyddu cyflogau cyfartalog), Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (sy'n gweithio i ysgogi buddsoddiad mewn sgiliau yn unol â'r angen lleol) a'r cynnig Gofal Plant (a fydd yn cefnogi teuluoedd â phlant rhwng 3 a 4 oed yng Ngheredigion yn ariannol).

Cyflogaeth / Diweithdra

Mae'r gyfradd gweithgarwch economaidd a'r gyfradd gyflogaeth yng Ngheredigion wedi gweld cynnydd sylweddol ers diwedd 2019. Y gyfradd gweithgarwch economaidd ym mis Mehefin 2022 oedd 75.2% (llawer uwch na'r 67.0% ym mis Rhagfyr 2019) ac mae'n cyfateb i 3,700 o bobl ychwanegol yn y gweithlu. Yn yr un modd, cyrhaeddodd y gyfradd gyflogaeth yn y sir 73.0% erbyn mis Mehefin 2022 (gan gynyddu o 65.1% ym mis Rhagfyr 2019).

Mae'r rhain yn arwyddion cadarnhaol, ac mae'r sbardunau ar gyfer cynnydd yn debygol o fod yn gyfuniad o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i aelwydydd gynyddu eu gwydnwch ariannol oherwydd y pandemig a'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd, ond hefyd y prinder llafur presennol sy'n cael ei brofi ledled Cymru a'r DU ehangach. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2022 roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn fwy na'r nifer sy'n ddi-waith am y tro cyntaf.

Yn draddodiadol, mae hunangyflogaeth nid yn unig wedi bod yn rhan bwysig o'r gweithlu lleol, ond hefyd yn un arwyddocaol sy'n cyflawni rolau mewn sectorau megis adeiladu ac amaethyddiaeth. Ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, roedd y nifer a oedd yn hunangyflogedig yn cyfrif am 19.0% o'r gweithlu, sef yr uchaf ledled Cymru. Fodd bynnag, dros y 2½ flynedd nesaf gostyngodd y gyfran a oedd yn hunangyflogedig yn sylweddol i 13.7% erbyn mis Mehefin 2022, sef gostyngiad o 2,400 o bobl. Ar yr un pryd roedd cynnydd cyfatebol yn nifer y gweithwyr, gan awgrymu bod y pandemig wedi arwain at rai yn chwilio am gyflogaeth 'fwy diogel' fel gweithwyr. Bu cynnydd hefyd yn nifer y gweithwyr hunangyflogedig a newidiodd eu statws yn y farchnad lafur i "cyflogai" rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020 ar yr un pryd â'r Cynllun Ffyrlo.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau rhagweithiol tuag at fonitro a chefnogi twf yr economi leol. Yn ei Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-27, un o'r pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol yw "Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth".

Y gyfradd ddiweithdra yng Ngheredigion am y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 oedd 3.0%. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf roedd diweithdra yn y sir wedi dangos tuedd gadarnhaol - gan ostwng o uchafbwynt o 4.2% ym mis Mawrth 2018, i isafbwynt o 2.6% ym mis Mawrth 2020, ychydig cyn y cyflwynwyd cyfnod clo cenedlaethol o ganlyniad i COVID-19. Bryd hynny, roedd cyfradd diweithdra Ceredigion yn is na'r 3.7% ledled Cymru gyfan.

Mae cyfraddau casglu Treth y Cyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan dueddiadau cyflogaeth sy'n effeithio ar allu preswylwyr i dalu biliau Treth y Cyngor.

Incwm ac enillion

Mae enillion yn cyfeirio at arian a enillir drwy gyflogaeth, tra bod incwm yn golygu cyfanswm yr arian a dderbynnir, gan gynnwys o enillion, budd-daliadau a phensiynau. Mae enillion ac incwm yng Ngheredigion yn is nag ar draws Cymru ac yn is na'r DU gyfan. Mae hon yn duedd gyffredin ymhlith siroedd gwledig yn bennaf.

Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021 yn dangos bod enillion blynyddol cyfartalog yn parhau i fod yn is yng Ngheredigion nag ar draws Cymru ac eithrio Powys, sydd hefyd yn is na gweddill Canolbarth a De-orllewin Cymru. Yr enillion blynyddol cyfartalog (canolrifol) ar gyfer y rhai sy'n byw yng Ngheredigion oedd £23,576, sy'n is na'r £23,996 ledled Cymru.

Mae'r duedd yn debyg gydag incwm aelwydydd. Incwm canolrifol aelwydydd Ceredigion yn 2021 oedd £31,162 o'i gymharu â £31,348 ledled Cymru a £36,440 ledled y DU. Mae gan dros draean o aelwydydd Ceredigion (39%) incwm aelwyd o £25,000 neu lai, ac mae gan dros chwarter (29%) incwm o £20,000 neu lai.

Gofal Cymdeithasol

Diolch i ddatblygiadau arloesol mewn technoleg a gofal iechyd, mae'r boblogaeth fyd-eang o bobl dros 60 oed yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw grŵp oedran arall. Erbyn 2033, bydd un o bob pedwar o boblogaeth Cymru dros 65 oed.

Yng Ngheredigion, mae nifer y bobl sy'n 65 oed ac yn hŷn eisoes yn uwch nag un o bob pedwar ac amcangyfrifir y bydd yn cynyddu i un o bob tri erbyn 2039. Amcangyfrifir mai 11.8% oedd y gyfran o boblogaeth Ceredigion sy'n 75 oed ac yn hŷn yn 2021, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn tyfu i 15.2% erbyn 2031 ac i 18.0% erbyn 2041, sef cynnydd o 47% yn y grŵp oedran hwn.

Amcangyfrifir mai 3.3% oedd y gyfran o boblogaeth Ceredigion sy'n 85 oed ac yn hŷn yn 2021, a disgwylir i hyn dyfu i 4.7% erbyn 2031 a 6.0% erbyn 2041, sef cynnydd o 76% yn y nifer yn y grŵp oedran hwn.

Rhagwelir y bydd Cymhareb Dibyniaeth Henaint Ceredigion yn gweld cynnydd o 415 o ddibynyddion fesul 1,000 yn 2021 i 529 o ddibynyddion fesul 1,000 yn 2041. (Y gymhareb yw nifer y bobl oedran Pensiwn y Wladwriaeth fesul 1,000 o bobl o oedran gweithio). Er gwaethaf y cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth i 67 yn 2028, mae'r Gymhareb Dibyniaeth Henaint yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn arwyddocaol, oherwydd mae'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yn her fawr i bob Awdurdod Lleol gan y bydd yn anochel yn arwain at fwy o alw am wasanaethau'r cyngor.

Addysg

Yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023 roedd 4,631 o ddisgyblion yng Ngheredigion o oedran ysgol gynradd ym mlynnyddoedd Derbyn i Flwyddyn 6, gyda 3,624 o ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd (Blynyddoedd 7-11) a 712 arall ym Mlwyddyn 12 a 13. Mae'r cyfrifiad (CYBLD) yn digwydd ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae maint bach rhai o ysgolion Ceredigion yn golygu ei bod yn anoddach iddyn nhw ddelio â gostyngiadau mewn refeniw nag ydyw i ysgolion mwy mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae dosraniad y Grant Cynnal Refeniw hefyd yn dibynnu ar y symudiad cymharol yn nifer y disgyblion ar draws Awdurdodau Cymru. Mae cyfanswm y cyllid sydd i'w ddosrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw hefyd yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n anodd mesur effaith y ddau ffactor hyn ar gyfran y Grant Cynnal Refeniw, er ei bod yn rhesymol tybio bod y ddau ffactor yn debygol o leihau cyllid Ceredigion.

Mae nifer o ysgolion Ceredigion wedi'u lleoli'n agos at ffiniau â siroedd eraill a gall nifer y disgyblion yn yr ysgolion hynny gael eu dylanwadu gan ffactorau lleol sy'n effeithio ar boblogrwydd ysgolion y naill ochr i'r ffin.

Mae dadansoddiad o'r ddarpariaeth ôl-16 ar draws y Sir yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i sicrhau:

- Bod cyfleoedd addysgol i bobl ifanc 14-19 oed yn y Sir yn cael eu hehangu.

- Bod cwricwlwm galwedigaethol cyfoethog yn cael ei ddarparu, a fydd yn briodol i bob dysgwr gyflawni ei botensial llawn ac a fydd yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid a'r economi leol yng Ngheredigion.
- Bod mynediad cyfartal a theg at ystod eang o lwybrau dysgu effeithlon ar wahanol lefelau gyda'r nod bod Ceredigion yn parhau i fod â'r nifer isaf o ymadawyr ysgol NEET yng Nghymru.

Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth, cyflwynodd y Cyngor Llawlyfr Trefniadaeth Ysgolion a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 15 Mehefin 2021, mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn wrth gynnal adolygiad ysgol. Ar 02/05/23, cymeradwyodd y Cabinet Egwyddorion ar gyfer Sicrhau Polisi Seilwaith Addysg Gynaliadwy, a fydd yn sail i unrhyw benderfyniad ar gynigion ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol.

Mabwysiadwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion (WESP) ym mis Chwefror 2022. Mae'r strategaeth 10 mlynedd (2022–2032) yn ceisio atgyfnerthu a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a chyrraedd y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050. Un nod cyffredinol yw sicrhau bod disgyblion yng Ngheredigion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Blwyddyn 6 pan fyddant yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.

Rhwydwaith Priffyrdd

Cyfanswm hyd ffyrdd Ceredigion yw un o'r mwyaf yng Nghymru, sef cyfanswm o 2,265km. Mae tua 51.5% o ffyrdd Ceredigion yn ffyrdd dosbarth B ac C (1,167km) a elwir yn 'isffyrdd'.

Mae canran y ffyrdd dosbarth A, B ac C yng Ngheredigion mewn cyflwr gwael wedi gostwng ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod cyflwr ffyrdd dosbarth A ac C yn parhau i fod uwchlaw'r targed. Gostyngodd ffyrdd mewn cyflwr gwael o 3.2% yn 2021/22 i 3.1% yn 2022/23, ond maent yn parhau i fod yn uwch na'r targed o 3%, mae canran y ffyrdd dosbarth B mewn cyflwr gwael yn parhau i fod ar 2.0% yn 2022/23 ar ôl bod ar y lefel honno hefyd yn 2021/22 sydd o fewn y targed o 6%, a gostyngodd canran y ffyrdd dosbarth C mewn cyflwr gwael o 14.7% i 13.2% sy'n dal i fod yn uwch na'r targed o 12%.

Seiberdroseddu

Mae seiberdroseddu yn parhau i fod yn risg wirioneddol i gyrrff cyhoeddus, ac mae risgiau ariannol posibl yn gysylltiedig ag Ymosodiadau Seiber.

Yr Economi Twristiaeth ac Ymwelwyr yng Ngheredigion

Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o ardaloedd arfordirol, mae'r diwydiant twristiaeth yn chwarae rhan sylweddol yn economi Ceredigion, gan gyfrif am 13% o swyddi, a dyma'r ail ddiwydiant mwyaf yn y sir y tu ôl i addysg.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm effaith economaidd y diwydiant twristiaeth yng Ngheredigion yn 2021 oedd £295m, sef cynnydd o 58.7% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd sylweddol hwn o ganlyniad i ailagor busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn dilyn pandemig COVID-19 a arweiniodd at gyfyngiadau symud cenedlaethol a chau'r diwydiant twristiaeth ledled Cymru yn ystod 2020. Yn ystod 2021, nid yw'r effaith economaidd ar nifer yr ymwelwyr â Cheredigion wedi dychwelyd i'r lefelau yr oeddent cyn y pandemig, fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigurau diweddaraf ar gyfer 2021 yn cynnwys cyfyngiadau o ran teithio ac agor busnesau ymhell i mewn i haf y flwyddyn honno. Mae'r diwydiant twristiaeth yn cefnogi 4,121 o swyddi ledled y sir, sydd 1,700 yn is na chyn y pandemig yn 2019. Ym mis Gorffennaf 2023 nid yw'r data ar gyfer 2022 wedi'i gyhoeddi eto, felly nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a yw'r diwydiant wedi adfer yn llawn i'r lefelau cyn y pandemig.

Bydd y diwydiant twristiaeth yn parhau i fod yn agwedd allweddol ar amcan allweddol y Cyngor sef 'Hybu'r Economi' fel y nodir yn y Strategaeth Gorfforaethol.

6 Y Bwlch yn y Gyllideb a'r Rhagolwg Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2023/24 i 2025/26

Mae Setliad Llywodraeth Cymru (LIC) i Lywodraeth Leol ar gyfer 2023/24 wedi darparu dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar gyfer 2024/25 o £5.7 biliwn – sy'n cyfateb i godiad o £170 miliwn (3.1%), ni ddarparwyd unrhyw arwydd ar gyfer 2025/26. Mae aneddiadau diweddar wedi gweld y Cyngor yn derbyn yn agos iawn at gyfartaledd Cymru gyfan, felly mae'r 3.1% wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio ar gyfer 2024/25, a heb unrhyw ddangosydd arall rhagdybir bod yr un ffigur wedi'i gymryd ar gyfer 2025/26 a 2026/27.

Mae Tabl 3 isod yn defnyddio cynnydd Treth y Cyngor o 5% at ddibenion modelu a chynllunio. Bydd setliad gwirioneddol LIC yn wahanol i'r amcanestyniad a allai fod yn well neu'n waeth. Yn yr un modd bydd codiadau Treth y Cyngor yn amrywio ac yn y pen draw maent yn ystyriaeth ffurfiol ar gyfer y Cyngor Llawn fel rhan o broses Pennu'r Gyllideb bob blwyddyn.

Mae'r tabl isod yn nodi'r amcanestyniad o ran incwm a gwariant amcangyfrifedig ac felly'r Bwlch Cyllideb amcangyfrifedig dros y tair blynedd nesaf. Mae pwysau costau manwl eisoes wedi'u dangos yn adran 5.3 uchod.

Tabl 3 – Amcanestyniadau Bwlch y Gyllideb

	Cyllideb Gwirioneddol		Dangosol		Dangosol		Dangosol	
	2023/24		2024/25		2025/26		2026/27	
	Cynyddu	£m	Cynyddu	£m	Cynyddu	£m	Cynyddu	£m
Treth y Cyngor	7.3%	50.9	5.0%	53.5	5.0%	56.1	5.0%	58.9
Cyllid Llywodraeth Cymru (AEF)	8.2%	129.2	3.1%	133.2	3.1%	137.3	3.1%	141.6
Cyfanswm Incwm		180.1		186.7		193.5		200.5
Pwysau'r Gyllideb		23.1		15.1		11.1		10.2
Gwariant disgwylidig		188.9		195.2		197.8		203.6
Bwlch yn y Gyllideb		8.8		8.5		4.3		3.1

Yn seiliedig ar y rhagamcanion hyn, byddai'n ofynnol i'r Cyngor gau'r Bwlch yn y Gyllideb o £15.9 miliwn o leiaf erbyn mis Mawrth 2027. Mae hyn ar ben yr arbedion a gyflawnwyd eisoes rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2023 o £52m a'r £8.8m arall sydd ei angen ym mhroses Cyllideb 2023/24 – mae hyn yn golygu y bydd dros £60m o arbedion wedi'u canfod ers 2012.

Mae gan y Cyngor nifer o fesurau a chynlluniau ar waith i reoli'r bwlch disgwylidig yn y Gyllideb - nodir y rhain yn Adran 7.

Mae gan ostyngiad yn nifer y boblogaeth yng Ngheredigion, fel y disgrifir yn 5.4 uchod, y potensial i effeithio'n negyddol ymhellach ar Setliad Cyllideb AEF y Cyngor.

Mae'r ystod bosibl o Fwlch yn y Gyllideb yn y tymor canolig, o ganlyniad i'r ansicrwydd ynghylch Setliadau Cyllideb blyneddol AEF, yn cael ei ddangos yn y tablau isod sy'n dangos yr effaith ar wahanol lefelau o Dreth y Cyngor a chyllid LIC.


Tabl 4: Dadansoddiad o'r senarios o ran bwloch cyllido'r gyllideb - 2024/25 (£15.1miliwn Pwysau Costau)

		<u>Council Tax Increase</u>							
		0.0%	1.0%	2.0%	3.0%	4.0%	5.0%	6.0%	7.0%
<u>Aggregate External Finance Settlement (AEF)</u>	0.0%	£13.0m	£12.5m	£11.9m	£11.4m	£10.9m	£10.4m	£9.9m	£9.4m
	1.0%	£11.7m	£11.2m	£10.7m	£10.1m	£9.6m	£9.1m	£8.6m	£8.1m
	2.0%	£10.4m	£9.9m	£9.4m	£8.8m	£8.3m	£7.8m	£7.3m	£6.8m
	3.0%	£9.1m	£8.6m	£8.1m	£7.6m	£7.0m	£6.5m	£6.0m	£5.5m
	4.0%	£7.8m	£7.3m	£6.8m	£6.3m	£5.8m	£5.2m	£4.7m	£4.2m
	5.0%	£6.5m	£6.0m	£5.5m	£5.0m	£4.5m	£4.0m	£3.4m	£2.9m
	6.0%	£5.2m	£4.7m	£4.2m	£3.7m	£3.2m	£2.7m	£2.2m	£1.6m
	7.0%	£3.9m	£3.4m	£2.9m	£2.4m	£1.9m	£1.4m	£0.9m	£0.4m

Tabl 5: Dadansoddiad o'r senarios o ran bwloch cyllido'r gyllideb - 2025/26 (£11.1miliwn Pwysau Costau)

		<u>Council Tax Increase</u>							
		0.0%	1.0%	2.0%	3.0%	4.0%	5.0%	6.0%	7.0%
<u>Aggregate External Finance Settlement (AEF)</u>	0.0%	£9.3m	£8.7m	£8.2m	£7.7m	£7.1m	£6.6m	£6.1m	£5.5m
	1.0%	£7.9m	£7.4m	£6.9m	£6.3m	£5.8m	£5.3m	£4.7m	£4.2m
	2.0%	£6.6m	£6.1m	£5.5m	£5.0m	£4.5m	£3.9m	£3.4m	£2.9m
	3.0%	£5.3m	£4.7m	£4.2m	£3.7m	£3.1m	£2.6m	£2.1m	£1.5m
	4.0%	£3.9m	£3.4m	£2.9m	£2.3m	£1.8m	£1.3m	£0.7m	£0.2m
	5.0%	£2.6m	£2.1m	£1.5m	£1.0m	£0.5m	-£0.1m	-£0.6m	-£1.1m
	6.0%	£1.3m	£0.7m	£0.2m	-£0.3m	-£0.9m	-£1.4m	-£1.9m	-£2.5m
	7.0%	-£0.1m	-£0.6m	-£1.1m	-£1.7m	-£2.2m	-£2.7m	-£3.3m	-£3.8m

Mae'r rhagolygon ariannol tymor canolig anffafriol a fodelwyd wedi'i osod yn erbyn cefndir o dros ddegawd o gynt sydd wedi arwain at gyfnod sylweddol o ostyngiadau mewn cyllid yn y tymor real. Dangosir yr arbedion cronus o dros £60m a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn cyflawni cyllidebau cytbwys, yn y siart isod.



7 Strategaeth y Gyllideb

7.1 Rheoli adnoddau'n effeithiol

Mae dull Rheoli Ariannol y Cyngor yn cynnwys;

- Cydymffurfio â rheoliadau ariannol ffurfiol er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn;
- bod rolau a chyfrifoldebau'r rheoli ariannol yn dryloyw ac wedi'u hymgorffori ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- bod llythrennedd ariannol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ledled y sefydliad.
- bod rheolaethau ariannol effeithiol ar waith a'u bod yn cwmpasu pob maes rheoli ariannol, rheoli risg a rheoli asedau.
- Sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r egwyddorion cyffredinol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cyngor yn effeithiol yn cynnwys:

- Bod ceisiadau i gario tanwariant refeniw ymlaen yn cael eu hystyried ar ddiwedd y flwyddyn ac yn gyffredinol dim ond pan fyddant yn bodloni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol y cânt eu cefnogi.
- Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal yn unol â pholisi cymeradwy'r Cyngor. Bydd unrhyw incwm annisgwyl a dderbynnir yn cael ei drin yn gorfforaethol.
- Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw at ddibenion penodol yn unig ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Bydd cyllid grant ar gyfer refeniw a chyfalaf yn cael ei uchafu gan y Gwasanaethau lle bynnag y bo modd ac o fewn cyfyngiadau telerau ac amodau'r grant.
- Lle mae angen ceisiadau am grant, mae angen cysylltu'r rhain ag Amcanion Llesiant y Cyngor.
- Bod angen ystyried strategaethau ymadael ar gyfer ceisiadau grant a chyllid grant perthnasol.
- Bod adnoddau'n cael eu targedu i gyflawni'r effaith gadarnhaol fwyaf e.e. defnyddio Cyfathrebu a Thechnoleg Gwybodaeth i gefnogi prosesau a gwell llif gwaith.
- Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor, h.y. arian, tir, adeiladau, fflyd, staff a thechnoleg gwybodaeth. Er enghraifft, rhesymoli asedau ymhellach i leihau costau refeniw, cynhyrchu ffrydiau incwm neu gydleoli Gwasanaethau'r Cyngor / Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ystyried y tymor hirach wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau a chyllidebau cynaliadwy a chynnal safonau gwasanaeth priodol ar gyfer y gwasanaethau rheng flaen craidd.

7.2 Gweithio mewn Partneriaeth, Cyllid Allanol a Chydweithio

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol ac ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau er budd ei ddinasyddion ac mae'n ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio ag asiantaethau / awdurdodau lleol eraill. Mae'r strategaeth ariannol yn cymryd ymagwedd realistig ond darbodus tuag at gyllid partneriaeth posibl nad yw'n sicr nac wedi'i gadarnhau eto. Yn gyffredinol, ni thbyr bod cyllid partner penodol neu incwm grant yn y rhagolygo oni bai bod ei ddyraniad wedi'i gadarnhau.

Fel rhan o strategaeth Hybu Economi Ceredigion bydd y Cyngor yn gweithio gydag amryw o bartneriaid gan gynnwys:

• LLC	• Darparwyr sgiliau a hyfforddiant
• Llywodraeth y DU	• Cyrff sy'n cynrychioli busnesau
• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	• Cyllidwyr preifat a chyhoeddus
• Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch	• Sefydliadau'r trydydd sector

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar lawer o brosiectau refeniw a chyfalaf sylweddol megis cynlluniau Amddiffyn Arfordir Aberaeron ac Aberystwyth.

Mae gan y Cyngor gyllid grant sylweddol ar gyfer cyflawni ei gyllideb refeniw gros. Mae grantiau penodol wedi cael eu trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw a dylai'r duedd bresennol hon barhau. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn gallu penderfynu ar y ffordd orau o wario'r cyllid fel rhan o'i Strategaeth Gorfforaethol ei hun, yn hytrach na bod yn rhan o un cenedlaethol. Mae LIC wedi ymrwmo i leihau baich gweinyddol grantiau ac wedi cychwyn ar raglen waith i adolygu hyn. Rydym dal ddim yn gwybod sawl grant a ddyfernir, sydd yn y pen draw, heb eu neilltuo trwy RSG yn hytrach na thrwy dyfarniadau grant LIC penodol unigol.

Rhaid i gyllidebau adlewyrchu'n glir sylwedd unrhyw waith cydweithredol y mae'r Cyngor yn rhan ohono. Mae egwyddor gwariant gros cyllidebu yn ei gwneud yn ofynnol bod cyllidebau'n dangos gwariant ac incwm yr holl drafodion ar wahân. Pan mae Cyd-bwyllgorau a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol yn bodoli, mae angen i'r rhain gytuno, yn ddigon cynnar, ar gyllideb ar gyfer gwaith y Cyd-bwyllgor er mwyn i gyfran y Cyngor gael ei adlewyrchu yn y gyllideb. Wrth i unrhyw Gyd-bwyllgor ddod yn fwy sefydledig, mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen i gyfraniadau gan y partneriaid ffurfio rhan o'r gyllideb sylfaenol.

Mae Ceredigion yn bartner i Gyngor Sir Powys (a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer Cynllunio Strategol yn unig) sy'n ffurfio Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru. Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gyfrifol am Lesiant Economaidd.

7.3 Rheoli'r Bwlch yn y Gyllideb

Yn seiliedig ar y tybiaethau cyllido a ddisgrifir yn adran 6 uchod a'r pwysau costau a nodir yn adran 5.3, mae'r modelu ariannol yn dangos y bydd gan y Cyngor fwllch o £15.9 miliwn dros y cyfnod o 3 blynedd rhwng 2024/25 a 2026/27.

Mae cyfleoedd posib ar gyfer blwyddyn 2 a blwyddyn 3 gwerth cyfanswm o tua £4m eisoes wedi'u nodi drwy'r rhaglen 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol'. Mae hyn ar ben y £3m a nodwyd ac a dybir ym mhroses Gosod Cyllideb 2023/24. **Byddai hyn wedyn yn gadael Diffyg yn y Gyllideb o £6.4m yn 2024/25 a chyfanswm o ddiffyg o £11.9m dros y 3 blynedd nesaf.**

	2023/24 Gwirioneddol £m	2024/25 Dangosol £m	2025/26 Dangosol £m	2026/27 Dangosol £m
Amcangyfrif o'r Bwlch yn y Gyllideb	8.8	8.5	4.3	3.1
<u>Nodwyd cynilion:</u> Gwneud pethau'n wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol	3.0	2.1	1.9	-
2023/24- Cynllun arbed	5.8	-	-	-
Cyfanswm yr arbedion a nodwyd	8.8	2.1	1.9	-
Diffyg cyllideb sy'n weddill	-	6.4	2.4	3.1

Tabl 6: Amcangyfrif o'r Bwlch yn y Gyllideb yn y Tymor Canolig

Gellir gweld cynlluniau manwl ar gyfer 'Gwneud Pethau'n wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol' a chynllun arbedion 2023/24 yn Atodiad 1 a 2.

Ar ôl cynnwys y rhagdybiaethau gan y rhaglen 'Gwneud Pethau'n wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol' ar gyfer 2024/25 a 2025/26, dangosir yr ystod o ddiffygion cyllidebol sy'n deillio o hyn yn y tabl ganlynol, gan ddangos yr effaith ar lefelau gwahanol o gyllid trwy Dreth y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Tabl 7: Dadansoddiad o'r Sefyllfa ynghylch Bwlch Cyllido'r Gyllideb - 2024/25 (£14.7m Pwysau Costau)

		Council Tax Increase							
		0.0%	1.0%	2.0%	3.0%	4.0%	5.0%	6.0%	7.0%
Aggregate External Finance Settlement (AEF)	0.0%	£13.0m	£12.5m	£11.9m	£11.4m	£10.9m	£10.4m	£9.9m	£9.4m
	1.0%	£11.7m	£11.2m	£10.7m	£10.1m	£9.6m	£9.1m	£8.6m	£8.1m
	2.0%	£10.4m	£9.9m	£9.4m	£8.8m	£8.3m	£7.8m	£7.3m	£6.8m
	3.0%	£9.1m	£8.6m	£8.1m	£7.6m	£7.0m	£6.5m	£6.0m	£5.5m
	4.0%	£7.8m	£7.3m	£6.8m	£6.3m	£5.8m	£5.2m	£4.7m	£4.2m
	5.0%	£6.5m	£6.0m	£5.5m	£5.0m	£4.5m	£4.0m	£3.4m	£2.9m
	6.0%	£5.2m	£4.7m	£4.2m	£3.7m	£3.2m	£2.7m	£2.2m	£1.6m
	7.0%	£3.9m	£3.4m	£2.9m	£2.4m	£1.9m	£1.4m	£0.9m	£0.4m

Tabl 8: Dadansoddiad o'r Sefyllfa ynghylch Bwlch Cyllidebol 2025/26 (£10.8m Pwysau Costau)

		Council Tax Increase							
		0.0%	1.0%	2.0%	3.0%	4.0%	5.0%	6.0%	7.0%
Aggregate External Finance Settlement (AEF)	0.0%	£9.3m	£8.7m	£8.2m	£7.7m	£7.1m	£6.6m	£6.1m	£5.5m
	1.0%	£7.9m	£7.4m	£6.9m	£6.3m	£5.8m	£5.3m	£4.7m	£4.2m
	2.0%	£6.6m	£6.1m	£5.5m	£5.0m	£4.5m	£3.9m	£3.4m	£2.9m
	3.0%	£5.3m	£4.7m	£4.2m	£3.7m	£3.1m	£2.6m	£2.1m	£1.5m
	4.0%	£3.9m	£3.4m	£2.9m	£2.3m	£1.8m	£1.3m	£0.7m	£0.2m
	5.0%	£2.6m	£2.1m	£1.5m	£1.0m	£0.5m	-£0.1m	-£0.6m	-£1.1m
	6.0%	£1.3m	£0.7m	£0.2m	-£0.3m	-£0.9m	-£1.4m	-£1.9m	-£2.5m
	7.0%	-£0.1m	-£0.6m	-£1.1m	-£1.7m	-£2.2m	-£2.7m	-£3.3m	-£3.8m

7.3.1 Elfennau allweddol i reoli'r Bwlch yn y Gyllideb

Er mai sefyllfa gyllidebol sylfaenol y Cyngor yw bod chwyddiant a thwf arall yn y galw am ei wasanaethau yn debygol o godi a bod yn fwy na'r incwm a ragwelir, prif amcanion gosod y gyllideb flynyddol yw:

- Sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod bob blwyddyn, a bod gwasanaethau gwerth am arian yn cael eu darparu.
- Edrych yn y tymor hirach er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau a chyllidebau cynaliadwy a helpu i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn ddigonol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnal gweithrediadau craidd y gwasanaethau ar yr un pryd.

Elfennau allweddol strategaeth y gyllideb a fydd yn helpu i gyfrannu at gyllideb gytbwys yw:

- Defnyddio'r ymagwedd 'Tîm Ceredigion' at her y gyllideb yn y Grŵp Arweiniol drwy edrych ar arbedion a chyfluoedd incwm yn gorfforaethol a thrawsbynciol fel bod newid trawsnewidiol allweddol yn parhau i gael ei gyflawni.
- Cynllunio yn gyffredinol i ddarparu dyraniadau cyllideb gwastad i Wasanaethau, oni bai bod cydnabyddiaeth gorfforaethol yn cael ei wneud am bwysau costau. Felly, mae angen i wasanaethau gwrdd â'u costau uwch sydd heb eu cyllido, drwy effeithlonrwydd pellach o'r gwasanaeth, incwm ac adennill costau, a newid o fewn y maes gwasanaeth yn gyffredinol. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu bod angen 'torri'r brethyn' yn unol â hynny a blaenoriaethu gweithgaredd a ffocws.
- Targedu gostyngiadau mewn Cyflenwadau a Gwasanaethau a Thaliadau Trydydd Parti lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys unrhyw feysydd lle bernir bod Gwasanaethau a Phenawdau Cyllidebau yn flaenoriaeth is.
- Bydd cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn ystyried yr angen i sicrhau bod digon o arian i ddiogelu gwasanaethau allweddol a gweithrediadau craidd.
- Yn gyffredinol, bydd y gyllideb yn cael ei gosod fel na wneir unrhyw alw gan Falansau'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi'r gyllideb sylfaenol, ac eithrio ar gyfer ariannu eitemau untro unigryw sy'n flaenoriaeth ac y cytunwyd yn eu cylch.
- Bydd incwm yn cael ei gynyddu i'r eithaf drwy gymhwyso'r Polisi Rheoli Incwm ac Adfer Costau.
- Bydd arbedion effeithlonrwydd (gan gynnwys buddsoddi i arbed cynlluniau ac arbedion caffael) yn parhau i gael eu ceisio fel rhan naturiol o ddarparu gwell gwasanaethau. Bydd buddsoddiad yn parhau i gael ei ystyried i hwyluso ac ysgogi mentrau, ar yr amod bod achosion busnes yn gwneud synnwyr.
- Bydd cyfluoedd yn parhau i gael eu ceisio drwy gyflawni Gwasanaethau, lle bo hynny'n bosibl, ond yn gyffredinol bydd arbedion yn cael eu ceisio mewn dull wedi'i dargedu ac nid trwy doriadau tameidiog. Wrth gynnal adolygiadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn trefnu ymgynghori â staff, undebau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y bo'n briodol.
- Bydd unrhyw geisiadau a gyflawnir cyn y gofyniad cyllidebol blynyddol yn cael eu cymhwyso i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn enwedig i gefnogi'r Amcanion Llesiant Corfforaethol neu i ysgogi prif fentrau eraill, yn ogystal â chymhwyso'r arbedion parhaus i'r gyllideb sylfaenol mewn blwyddyn diweddarach briodol pan fydd angen.
- Lle mae cyllid grant penodol yn cael ei drosglwyddo i RSG yna bydd yr adnoddau hyn yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i gyllideb y gwasanaeth perthnasol, ar yr amod bod cydberthynas glir â darparu gwasanaethau parhaus.

- Pan ddaw cyllid grant penodol i ben (naill ai'n naturiol neu fel arall), y disgwyliad arferol yw y bydd angen adolygu a rhoi'r gorau i'r gweithgaredd gwasanaeth cysylltiedig hyd yn oed os yw hynny'n creu'r sefyllfa o ddiswyddo.
- Bydd rhai eitemau yn cael eu cydnabod sef Eitemau Corfforaethol sydd angen dyraniadau blynyddol yn y model cyllidebol. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Cymorth Treth y Cyngor, Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf, unrhyw drefniadau neilltuo ynghylch Premiwm Treth y Cyngor, Ffioedd Archwilio Allanol, Costau Democrataidd (Lwfansau Aelodau) ac Ardoll yr Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Gwneud Pethau'n Wahanol – Ymagwedd Gorfforaethol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys adolygu'r asedau a'r adnoddau presennol i gynhyrchu incwm ychwanegol a lleihau costau i gwrdd â phwysau'r gyllideb. Y nod cyffredinol yw cynnal yr un safon, yn fras, o ran darparu gwasanaethau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- Bydd y gronfa wrth gefn costau a chwyddiant a glustnodwyd yn cael ei defnyddio i liniaru dros dro lle bo angen tra bod chwyddiant yn parhau i fod ar lefelau uchel.
- Bydd y Gronfa Wrth Gefn a Rheoli'r Gyllideb a glustnodwyd yn cael ei defnyddio i helpu i reoli pwysau o ran y gyllideb a fydd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn lle bydd y pwysau hyn yn ymddangos y tu allan i'r broses Gyllideb arferol.
- Fel dewis olaf os yw'r holl opsiynau eraill wedi cael eu disbyddu – Ystyried toriadau yn y gyllideb wedi'u targedu, byddai hynny'n golygu gostyngiad yng ngwasanaethau'r Cyngor yn hytrach na pharhau i geisio cyflawni'r un faint o wasanaethau ond gyda llai o adnoddau.

Mae'r canlynol yn nodau strategol allweddol o ran gosod cyllideb gyfalaf:

- Bydd Cynllunio Rheoli Asedau ynghyd â'r Rhaglen Rheoli Carbon yn llywio, pennu a blaenoriaethu rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn a'r gwariant angenrheidiol ar asedau presennol a newydd y Cyngor.
- Mae nodi gwariant a all ddenu cyllid grant allanol, gan ddarparu'r effaith refeniw barhaus, yn gynaliadwy.
- Mae cynlluniau buddsoddi i arbed, sy'n dangos enillion ar fuddsoddiad a/neu gyfnod ad-dalu rhesymol, yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel gan eu bod yn darparu cyfraniad cadarnhaol i sefyllfa'r gyllideb tymor canolig.
- Fel arfer, bydd cyllideb y rhaglen Gyfalaf yn cael ei gosod fel nad oes galw am fenthyca darbodus heblaw am ariannu prosiectau cyfalaf penodol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio benthyca darbodus pan nodir arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i ariannu'r costau cyllido cyfalaf.
- Bydd defnyddio cyllid, a neilltuir mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn cefnogi'r rhaglen Gyfalaf, yn enwedig y Gronfa Gyfalaf Gorfforaethol yn ogystal â chronfa'r pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol e.e. ar gyfer Ysgolion yr unfed ganrif ar hugain a Chynlluniau Amddiffyn yr Arfordir.
- Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad cadarnhaol i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a chânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd ymatebion priodol yn digwydd i warediadau mawr pryd bynnag y bydd hyn yn codi.
- Mae gwariant a buddsoddiad o ran unrhyw asedau i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac i'w cefnogi.
- Datblygu strategaeth ariannu i gefnogi prosiectau mawr arfaethedig yn y dyfodol wrth i'r angen godi.

7.4 Cronfeydd wrth gefn a balansau wedi'u clustnodi

Mae datganiad o Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi a Chronfeydd Cyffredinol y Cyngor yn cael eu diweddarau o leiaf ddwywaith y flwyddyn a'u cyflwyno i'r Aelodau yn ystod gosod y gyllideb a pharatoi'r cyfrifon terfynol. Ceir crynodeb o'r sefyllfa wrth gefn isod:

Tabl 9: Amcanestyniadau wrth gefn a balansau

	31.03.23 Gwirioneddol	31.03.24 Cynllunio	31.03.25 Cynllunio	31.03.26 Cynllunio
Balansau Cyffredinol - Swm	£6.7m	£6.7m	£6.7miliwn	£6.7miliwn
Balansau Cyffredinol - Canran	3.7%	3.5%	3.4%	3.3%
Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi (gan gynnwys ysgolion)	£48.8m	£41.3m	£34.8m	£34.2m

Targed cymeradwy'r Cyngor yw bod balansau cyffredinol i'w cynnal rhwng 3% a 5% o'r gwariant net, ac mae hyn yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd.

Mae risg gyda chyfanswm Cyllideb Net cynyddol, bod y canran yn cael ei wanhau dros amser. Felly, efallai y daw pwynt lle byddai angen cyllidebu/gwneud cyfraniad ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn peidio â disgyn yn is na 3%.

Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel o oddeutu £20m o 'fenthyciadau mewnol' drwy ddefnyddio arian a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn, sydd wedi'u clustnodi sydd wedi lleihau'r angen i fenthyca. Amcangyfrifir bod y dull hwn wedi arbed £800k i'r trethdalwr bob blwyddyn, sy'n cyfateb i arbediad o bron i 2% mewn taliadau Treth y Cyngor bob blwyddyn.

8 Asesiad Risg a Sensitifrwydd

Mae'r rhagdybiaethau a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Mae risg sylweddol y bydd y rhain yn newid, yn enwedig yn ystod yr amseroedd ansicr a chyfnewidiol diweddar – rydym yn dal i fod mewn amgylchedd chwyddiant uchel, mae cyfraddau llog yn llawer uwch nag ar unrhyw adeg ers 2008 ac mae dyfarniadau cyflog staff ar lefelau na chlywyd amdanynt o'r blaen.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith amcangyfrifedig newid o 1% (+/-) o rai o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y Cyngor. Yn y cyfnod presennol, mae'n eithaf posibl bod yn fwy nag 1% allan ar unrhyw un o'r newidynnau hyn gan fod rhagweld, gydag unrhyw faint o sicrwydd, yn heriol.

Tabl 10: Dadansoddiad o ran Sensitifrwydd

Rhagdybiaethau		Effeithiau amrywiad 1% i gyfraddau tybiedig (+/-) £'000
Incwm	Setliad AEF Llywodraeth Cymru	1,290
	Treth y Cyngor (Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor)	500
	Treth y Cyngor (Net Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor)	430
	Cyfraddau llog (Incwm Buddsoddi)	500
	Grantiau Allanol	440
	Ffioedd a Thaliadau (gan nodi nad yw pob un yn cael eu pennu gan y Cyngor)	320
Gwariant	Dyfarnu Cyflog – Cyffredinol	850
	Dyfarnu Cyflog – Athrawon	450
	Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	440
	Cyfradd Cyfraniad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	690
	Cyfradd Cyfraniad Pensiwn Athrawon	300
	Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol	450

Cofrestr risg

Mae'r disgrifiad risg canlynol wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, sy'n cael ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Bydd lleihau cyllid craidd ac allanol yn arwain at ostyngiad o ran darparu gwasanaethau mewn rhai meysydd. Bydd methu addasu, gweithredu arbedion a nodwyd ac ystyried modelau amgen o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol ac ar gyfrifoldebau ariannol y Cyngor.

Canlyniadau posib i'r risg hon yw:

- Y perygl o fethu â chwrrd â therfynau amser pennu cyllideb statudol.
- Y risg yr effeithir ar ddarparu gwasanaethau oherwydd lleihad mewn adnoddau, cyfnod byr i wneud newid i wasanaethau neu fethu â blaenoriaethu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.
- Y risg na chyflawnir cynlluniau arbedion a nodwyd fel y cynlluniwyd.

- Y risg bod gosod cyllideb flynyddol yn creu rhwystredigaeth o ran cynllunio yn y tymor hirach.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro ac adolygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cyngor yn monitro'r cyllidebau a bennwyd, yr arbedion a gynllunnir, ac mae wedi bod yn mynd trwy broses ailadroddol helaeth o ystyried opsiynau yn y dyfodol i nodi arbedion yn y dyfodol.

Atodiad 1: Gwneud Pethau'n Wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol

Cyf	Ffrwd waith	Disgrifiad	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2025/26 £'000	2026/27 £'000
1	Rheoli'r Trysorlys	Enillion Incwm Buddsoddi	1,000	-	-	-
2	Datrysiadau digidol	Datrysiadau digidol o ran Gofal yn y Cartref	-	i'w gadarnhau	i'w gadarnhau	-
3	Asedau	Adeiladau Swyddfa Gweithredol	150	150	-	-
		Adeiladau Masnachol Gweithredol	-	50	-	-
		Adeiladau Ystadau Corfforaethol Eraill	50	100	150	-
		Defnydd o Ofod ac Uchafu Incwm Ehangach	-	100	200	-
		Adolygu safleoedd Asedau Gweithredol eraill	50	i'w gadarnhau	i'w gadarnhau	-
4	Ynni	Buddsoddi mewn cynlluniau ynni	125	250	250	-
5	Cyfleusterau Lleoliad	Datblygu darpariaeth yn y sir ar gyfer Plant	-	500	475	-
6	Costau Byw	Cyfleoedd maethu	50	100	150	-
7	Cludiant	Adolygiad o'r holl Drafnidiaeth sy'n gysylltiedig â Dysgwyr	400	300	-	-
8	Ysgolion Cynradd	Adolygiad strategol o ysgolion cynradd	100	200	400	-
9	Dysgu Ôl-16	Adolygiad strategol o'r ddarpariaeth addysg Ôl-16	-	-	i'w gadarnhau	-
10	Parcio	Cynhyrchu incwm ychwanegol o gyfleusterau parcio ceir	360	100	-	-
11	Ffioedd a Thaliadau	Adolygu'r holl ffioedd a thaliadau	250	250	250	-
12	Gwariant Trydydd Parti	Adolygiad o'r cyfleoedd ar gyfer gostyngiadau gwariant	-	i'w gadarnhau	i'w gadarnhau	-
13	Refeniw yn erbyn Cyfalaf	Manteisio i'r eithaf ar y Rhaglen Gyfalaf	500	-	-	-
CYFANSWM - Gwneud pethau'n wahanol - Arbedion			3,035	2,100	1,875	-

Atodiad 2: Cynlluniau Cynilo 2023/24 (yn ogystal â Gwneud Pethau'n Wahanol: Ymagwedd Gorfforaethol)

Disgrifiad	2023/24 £'000
Cyfyngu ar y cynnydd sydd i'w gymhwyso i Ysgolion Dirprwyedig i 5.8%	2,065
Dileu Cyfraniad i'r Gronfa Hybu'r Economi	2,440
Dileu'r cyllideb sylfaen gorfforaethol ar gyfer COVID	500
Gostyngiad yng nghyfradd Cyfraniad Cyflogwyr i Gronfa Bensiwn Dyfed (o 15.8% i 14.6%)	782
CYFANSWM	5,787



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD	5 Medi 2023
LLEOLIAD:	Hybrid/Siambr y Cyngor
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd, cyn i'r Strategaeth gael ei hystyried yn ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

PWRPAS YR ADRODDIAD: **Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023**

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd. Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyngorydd Gareth Davies, yr Aelod Cabinet, gyda chymorth y swyddogion.

Yn gyffredinol, roedd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cael ei diweddarau bob blwyddyn. Yn sgil yr heriau digynsail a wynebwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid oedd yn bosib diweddarau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y broses honno a hynny oherwydd bod yr holl ymdrechion wedi mynd tuag at bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

Gwnaeth yr Aelodau ar y cyfan ganmol fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth, gan nodi bod y Strategaeth wedi'i chyflwyno'n dda a'i bod yn gymharol hawdd ei dilyn a'i deall. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau ar wahanol faterion gan gynnwys cynigion Llywodraeth Cymru am yr Ardoll Ymwelwyr Dewisol, y trefniadau ariannu ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, y sefyllfa ddiweddaraf am ddyfarniadau cyflog y Staff a diwedd cynllun PFI Penweddig.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet:

1. Dylid ystyried a rhoi adborth ynghylch fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi fersiwn ddiweddaraf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Y Cyngorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	05/09/23
Teitl:	Cyllideb Refeniw Reoladwy 2023/24 - Perfformiad Ariannol
Pwrpas yr adroddiad:	Sôn am Gyllideb Refeniw 2023/24 - y sefyllfa wirioneddol hyd at ddiwedd Mehefin 2023 a'r sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn
Er:	Er Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. CRYNODEB

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â pherfformiad ariannol pob Gwasanaeth mewn perthynas â Chyllideb Refeniw Reoladwy 2023/24. Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu amseriad yr incwm a'r gwariant, yn ogystal ag asesu'r sefyllfa a ragwelir ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd lle bynnag y bo modd ac fel y bo'n briodol.

Hyd yn oed ar yr adeg gymharol gynnar hon yn y flwyddyn ariannol, mae sefyllfa ariannol heriol yn ystod y flwyddyn eisoes i'w gweld. Mae hyn er gwaethaf proses Pennu Cyllideb 23/24 a oedd yn cydnabod £22m o bwysau digynsail o ran costau (sy'n cyfateb i chwyddiant o 13.4%) a chynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor.

Ar hyn o bryd rhagwelir sefyllfa ragamcanol ddiwedd y flwyddyn o orwariant o £2.9m (sef 1.6% o gyllideb Refeniw 23/24 o £180.1m), sydd ar ôl ystyried amryw o gamau lliniaru. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa genedlaethol ehangach, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at ddiffyg o £900m a fyddai'n cyfateb i tua 4.5% o'i Chyllideb £20bn ei hun. Mae unrhyw ymdeimlad o optimistaeth ar y gorwel ariannol yn lleihau'n gyflym.

Mae nifer o heriau i'w gweld ar draws y Gwasanaethau gan gynnwys:

- Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol yn parhau i fod yn uchel ac yn rhy ddrud.
- Cynnydd sylweddol yng nghostau Cludiant Dysgwyr rhwng y Cartref a'r Ysgol
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau i Blant y Tu Allan i'r Sir
- Costau sylweddol yn ymwneud â staff asiantaeth yng Nghartrefi Preswyl ein Hawdurdod Lleol a'r gwasanaeth Galluogi
- Cynnydd sylweddol yn nifer y lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn

Mae gan y Cyngor fantolen ariannol gydnerth, gyda £48.8m o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a £6.7m mewn Balansau Cyffredinol ar 31/03/23. Felly, mae mwy na digon o le i allu lliniaru'r sefyllfa hon yn ystod y flwyddyn ac nid oes perygl na ellir cyflawni sefyllfa fantoledig erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae gan lawer o'r cronfeydd wrth gefn hyn brosiectau a chynlluniau wedi'u clustnodi ganddynt.

Felly, er mwyn sicrhau bod sefyllfa ariannol gydnerth yn cael ei chynnal, mae'r Grŵp Arweiniol yn mabwysiadu dull rhagweithiol o weithredu o ran rheolaeth ariannol, gan gynnwys cael mewnbwn a chyngor gan y swyddog Adran 151, i geisio lleihau'r gorwariant cyffredinol a ragwelir lle bynnag y bo modd gan ddefnyddio ystod o fesurau lliniaru, gan fod risg yn parhau y gallai rhai o'r tueddiadau sydd eisoes i'w gweld yng nghyfnod Ch1 barhau i gynyddu ymhellach yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon ac i'r flwyddyn nesaf.

2. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – PRIF HERIAU

Mae'r adran ganlynol yn ymhelaethu ymhellach ar y 5 prif faes o bwysau sylweddol o ran costau:

- i) Byddai cynnig cyflog diweddaraf 23/24 ar gyfer staff cyffredinol (sydd wedi ei wrthod gan yr Undebau) yn costio £960k yn fwy na darpariaeth y gyllideb a wnaed yn y Gwasanaethau. Roedd Cyllideb 23/24 yn cynnwys lwfans yng Nghyllidebau Gwasanaethau ar gyfer dyfarniad cyflog cyfartalog o 6.3%.
- ii) Mae cost darpariaeth cludiant statudol i Ddysgwyr rhwng y Cartref a'r Ysgol wedi cynyddu 43% mewn perthynas â chontractau newydd a gafodd eu tendro'n gystadleuol am wasanaethau o fis Medi 2023 ymlaen. Mae hyn wedi creu pwysau o ran cost o £543k ag effaith rhan o'r flwyddyn (ac effaith blwyddyn gyfan ar gyfer proses cyllideb 24/25 o £839k).
- iii) Lleoliadau Plant y Tu Allan i'r Sir - Bu cynnydd o 11 lleoliad ers pennu Cyllideb 23/24, sy'n arwain at orwariant net a ragwelir o £1.7m.
- iv) Mae'r defnydd o staff asiantaeth mewn Cartrefi Preswyl a'r gwasanaeth Galluogi wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â 22/23 oherwydd heriau recriwtio parhaus ar gyfer rolau Gweithwyr Gofal a Chymorth, nad ydynt wedi'u helpu ymhellach gan frigiadau o achosion o COVID sy'n dal i ddigwydd. Dyma'r prif ffactor o fewn gorwariant net o £520k mewn Gwasanaethau Uniongyrchol o dan Borth Gofal.
- v) Lleoliadau Pobl Hŷn – Rhagwelir gorwariant o £1.3m oherwydd 2 chwarter yn olynol o gynydd uwch na'r arfer mewn niferoedd lleoliadau.

Ar hyn o bryd yr unig faes sylweddol o danwariant a ragwelir yw o dan y gwasanaeth Cyllid a Chaffael, lle rhagwelir tanwariant o £1.3m. Mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllidebau rheoli'r Trysorlys lle mae enillion incwm buddsoddi, sy'n cyflawni'n uwch na'r gyllideb a bennwyd (o £900k ychwanegol) a heb ymgymryd ag unrhyw fenthycy allanol (£200k o arbediad disgwylidig) yn rhoi budd i'w groesawu i sefyllfa gyffredinol y gyllideb.

Er mwyn lliniaru'r sefyllfa gyffredinol mae nifer o fesurau eisoes wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cynllunio i ddefnyddio arian untro mewn rhai cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a gofyn i rai gwasanaethau gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn.

Dyma grynodedb o'r tybiaethau ariannol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y sefyllfa bresennol o £2.9m o orwariant a ragwelir:

Tybiaeth	£'000
Defnyddio Cronfa Wrth Gefn y Pwysau Costau a Chwyddiant	1,214
Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Hapddigwyddiadau a Rheoli'r Gyllideb	1,260
Defnyddio Cronfa Wrth Gefn Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach (ac eithrio unrhyw gymorth pontio mewn perthynas â Hafan y Waun)	477
Defnydd llawn o'r Gronfa Wrth Gefn a neilltuwyd ar gyfer Cyflogau / Ynni	360
Pennu targedau arbedion yn ystod y flwyddyn ar gyfer:	
• Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	241
• Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	150
• Gwasanaethau Uniongyrchol (Porth Gofal)	520
CYFANSWM	4,222

Mae hyn yn dangos pa mor heriol yw'r sefyllfa ariannol sylfaenol yn ystod y flwyddyn. Heb ddefnyddio'r mesurau lliniaru hyn byddai'r sefyllfa gorwariant a ragwelir yn sylweddol uwch.

Fel set derfynol o fesurau, er mwyn diogelu rhag unrhyw waethygu pellach yn y sefyllfa ariannol ac i liniaru ymhellach yn erbyn y sefyllfa bresennol, mae'r Grŵp Arweiniol, gyda mewnbwn a chynghor y swyddog Adran 151, wedi rhoi fframwaith ar waith ar draws pob Gwasanaeth (ac eithrio Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig sy'n gyfrifoldeb Cyrrff Llywodraethu unigol).

Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfyngu ar wariant lle bo modd am weddill y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd hyn yn berthnasol i wariant refeniw nad yw'n ymwneud â staffio a hefyd gweithgarwch recriwtio allanol, ond mae'n cael ei wneud mewn ffordd reoledig i gydnabod y bydd angen parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol, rhwymedigaethau contractiol a rhwymedigaethau presennol craidd ac er enghraifft bod gweithgarwch sy'n sail i incwm neu sy'n cael ei ariannu gan grant(iau) yn gallu parhau. Bwriad y dull hwn o weithredu yw arafu, oedi neu gyfyngu dros dro ar wariant nad yw'n hanfodol / nad yw'n hollbwysig. Yn anffodus, nid yw peidio â gweithredu yn sgil gorwariant sylweddol a ragwelir yn opsiwn a byddai'n mynd yn groes i gynghor y swyddog Adran 151.

3. PERFFORMIAD Y GYLLIDEB – SEFYLLFAOEDD GWASANAETHAU

Y prif faes newid yng nghyllidebau Ch1, ers pennu Cyllideb 2023/24, fu strwythur newydd y Cynghor yn dilyn ymadawiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant.

Mae'r Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes newydd wedi'i ffurfio, gydag elfennau o Borth Cymorth Cynnar (yn bennaf yr Uned Cyfeirio Disgyblion a Dysgu Gydol Oes) yn uno â'r hen wasanaeth Ysgolion a Diwylliant. Mae'r gwasanaeth Tai hefyd wedi symud draw i Borth Cymorth Cynnar o Borth Gofal.

Yn ogystal â hyn bu nifer fach o symudiadau yn y gyllideb i ddyrannu eitemau arbedion yn ymwneud â Ffioedd a Chostau o gyllideb y Grŵp Arweiniol i gyllidebau unigol

Tudalen 336

Gwasanaethau Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, a dyna oedd y bwriad bob amser pan bennwyd y gyllideb.

Yn ariannol, gellir crynhoi'r symudiadau cyllidebol hyn fel a ganlyn:

Gwasanaeth	Cyllideb Wreiddiol 23/24 £'000	Targedau Ffioedd a Chostau a ddyrannwyd o'r Grŵp Arweiniol £'000	Effaith strwythur newydd y Cyngor £'000	Cyllideb Ddiweddaraf 23/24 £'000
Porth Cymorth Cynnar	5,160		(1,100)	4,060
Porth Cynnal	33,870		(194)	33,676
Porth Gofal	16,256		(881)	15,375
Ysgolion a Diwylliant	54,576	(239)	(54,337)	-
Ysgolion a Dysgu Gydol Oes	-		56,512	56,512
Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh	6,431	(1)		6,430
Economi ac Adfywio	3,984	(71)		3,913
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,471	(170)		19,301
Grŵp Arweiniol	4,556	481		5,037
CYFANSWM y Gwasanaethau a ddangosir	144,304	-	-	144,304

Er gwaethaf y meysydd pryder mwy sylweddol sydd eisoes wedi'u hamlygu, mae yna nifer o wasanaethau sydd hefyd yn wynebu heriau eraill, er eu bod yn llai o ran maint. Serch hynny, gall y rhain waethygu o hyd pan fydd nifer o eitemau llai yn mynd i gyfeiriad anffafriol.

Mae rhai o'r heriau eraill hyn yn cynnwys cost Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches, Incwm Ffioedd Cynllunio, Incwm Gwastraff Masnach, costau gweithredu rheng flaen Casglu Gwastraff, Incwm Meysydd Parcio, Incwm yn ymwneud ag Eiddo, prisiau tendr newydd Byw â Chymorth a niferoedd lleoliadau Anabledd Dysgu / Anabledd Corfforol.

Mae dadansoddiad o sefyllfa Cyllideb Reoladwy 23/24 fesul Gwasanaeth i'w weld drosodd, gydag esboniad pellach a manylion pellach yn Atodiadau A i N:

Gwasanaeth	Cyllideb Ddiweddaraf 23/24 £'000	Cyllideb hyd at fis Mehefin 2023 £'000	Gwir wariant hyd at fis Mehefin 2023 £'000	Amrywiant hyd at fis Mehefin 2023 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/ (gôr) wariant £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/ (gôr) wariant £'000	Sylw
Grŵp Arweiniol / Leadership Group	497	124	113	11	-	Ni nodwyd unrhyw faes a oedd yn achosi problem ar hyn o bryd. There are no problem areas identified at present.	I / L
Arbedion Corfforaethol / Corporate Savings	(394)	-	-	-	(375)	Roedd y targed gwreiddiol yn £875k, ac fe'i gostyngwyd i £394k yn dilyn symudiadau i'r gwasanaethau perthnasol o ran ffioedd a thaliadau a rhan o darged y Cludiant i Ddysgwyr. Mae'r gweddill yn ymwneud yn bennaf ag Arbedion Ynni (£125k) a Chludiant Dysgwyr (£253k). Caiff y sefyllfa ei monitro yn ystod gweddill y flwyddyn. The original target was £875k, reduced to £394k following virements to respective services for Fees & Charges and part of the Learner Transport target. The balance left mainly relates to Energy Savings (£125k) and Learner Transport (£253k). The position will be monitored during the remainder of the year.	C / M
Cyllid wrth gefn / Contingencies	684	2	2	-	125	Mae £360k yn ymwneud ag arian wrth gefn o ran Egni / Codiad Cyflog y bydd ei angen yn llawn ar gyfer Codiad Cyflog Cyffredinol yn 2023/24. Rhagwelir tanwariant ar hyn o bryd ar y gweddill. £360k relates to Payaward / Energy Contingency which will be fully required for the 2023/24 General Payaward. An underspend is currently anticipated on the remainder.	C / M
Lleoliadau y tu allan i'r Sir / Out of County Placements	4,250	1,063	1,431	(368)	(1,699)	Bu cynnydd o 11 lleoliad newydd ers gosod Cyllideb 23/24. Mae hyn yn arwain at bwysau costau sylweddol o fewn y cyfanswm costau a ragwelwyd sef £6.6m ar gyfer 23/24 (sy'n cymharu â £1.8m yn 2020/21). Disgwylir y bydd y cyfleusterau newydd yn y Sir ar waith o Ebrill 2024 ymlaen, felly defnyddir yr arbediad dros dro yn Porth Gofal yn rhannol yn erbyn hyn (£633k). There has been an increase of 11 new placements since 23/24 Budget setting. This is leading to a substantial cost pressure with costs projected to be £6.6m for 23/24 (which compares with £1.8m in 2020/21). The new in county facilities are expected to start coming on stream from April 2024 onwards, so the temporary saving in Porth Gofal will be used as a partial offset (£0.6m).	U / H
CYFANSWM / TOTAL	5,037	1,189	1,546	(357)	(1,949)		

Adroddiad ar yr hyn a Ragwelir o ran y Gyllideb Mehefin 2023 / Budget Forecast Report June 2023

Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd / Levies, Council Tax Premium and Reserves

Swyddog Arweiniol / Corporate Lead Officer : Duncan Hall

1. CRYNODEB / SUMMARY

Diwedd y Flwyddyn / Year End Forecast:

Disgwylir gan y gwasanaeth bydd y gyllideb yn mantoli yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24.

It is expected by the service to breakeven during the 2023/24 financial year.

2. GWYBODAETH ARIANNOL / FINANCIAL INFORMATION

Gwasanaeth Service	Y Gyllideb Ddiweddaraf Latest Budget £'000	Cyllideb hyd at Mehefin 2023 Budget to June 2023 £'000	Gwir variant hyd at Mehefin 2023 Actuals to June 2023 £'000	Amrywiant hyd at Mehefin 2023 Variance to June 2023 £'000	Rhagolygon Diwedd y Flwyddyn tan/(gor) variant Year End Forecast under/(over) spend £'000	Esboniad o'r gorwariant/tanwariant a ragwelir a lefel y risg Explanation of forecast over/under spend & the level of risk	Lefel y risg (L, C neu U) Level of risk (L, M or H)
Ardollau / Levies	4,867	1,219	1,219	-	-	Mae risg gorwariant yn fach iawn am y caiff yr ardollau eu gosod yn flynyddol ac ni chânt eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. The risk of overspends is minimal as the levies are set annually and are not revised in year.	I / L
Premiwm Treth y Cyngor / Council Tax Premium	615	-	-	-	-	Mae'r swm sydd ar gael i'w wario yn dibynnu ar y premiwm a gesglir yn ystod y flwyddyn ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ad-daliadau. Cynllun Tai Cymunedol Newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 06/06/23. The amount available to be spent will be dependent on the premium collected during the year after allowing for any refunds. New Community Housing scheme approved by Cabinet on 06/06/23.	I / L
Balansau a Chronfeydd wrth gefn / Balances & Reserves	-	-	-	-	-	Bydd unrhyw drosglwyddiad i / o'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei ystyried ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd sefyllfa gyffredinol y Cyngor yn hysbys. Any transfer to / from the General Fund will be considered at year end when the overall position for the Council is known.	C / M
CYFANSWM / TOTAL	5,482	1,219	1,219	-	-		

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

- Adroddiad i'r:** Cabinet
- Dyddiad y cyfarfod:** 05/09/23
- Teitl:** Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion.
- Pwrpas yr adroddiad:** Ystyried y dull o weithio os bydd y Cyngor yn dymuno newid lefel Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor neu Ail Gartrefi yng Ngheredigion.
- Er:** Penderfyniad
- Aelod o'r Cabinet a'r Portffolio:**
- Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democraidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth
 - Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd
 - Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid
 - Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. CEFNDIR

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn codi Premiwm Treth y Cyngor o 25% ar ben y Dreth Gyngor arferol yn achos ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Mae'r penderfyniad hwn yn deillio o benderfyniadau'r Cyngor llawn yn 2016 a 2017. Yn ogystal, cymeradwywyd Cynllun Tai Cymunedol y Cyngor ar 06/06/23 a bydd hwn yn cael ei lansio'n ffurfiol cyn bo hir. Mae cronfa gychwynnol o £1.8m ar gyfer y cynllun hwn ar sail y sefyllfa ar 31/03/23.

Ar gyfer proses Cyllideb 23/24 yr oedd cyfanswm o 33,856 o dai y codir treth arnynt yng Ngheredigion. O blith y rhain, roedd 2,289 (6.8%) naill ai'n ail gartrefi neu'n eiddo gwag hirdymor.

	Cyfanswm y tai y codir treth arnynt
Ail gartrefi	1,697
Eiddo gwag hirdymor	592
Cyfanswm	2,289

Tudalen 360

Nid yw'r niferoedd hyn wedi newid llawer ers 2017. Mae niferoedd yr Ail Gartrefi wedi amrywio o 1,595 ar eu hisaf i 1,697 ar eu uchaf, ac Eiddo Gwag Hirdymor o 552 ar eu hisaf i 672 ar eu uchaf.

Nid yw'n syndod fod cyfraddau uchaf yr Ail Gartrefi yng Ngheredigion i'w gweld ar hyd yr arfordir:

Cyngor Tref a Chymuned	Y ganran o blith y tai y codir treth arnynt	Nifer yr eiddo
Ceinewydd	27.2%	188
Llangrannog	17.1%	68
Y Borth	14.1%	109
Pontarfynach	11.0%	26
Penbryn	9.6%	63
Aberaeron	9.1%	69
Aberporth	8.4%	98

Mae niferoedd yr Eiddo Gwag Hirdymor yng Ngheredigion yn tueddu i fod ar eu uchaf mewn ardaloedd trefol:

Cyngor Tref a Chymuned	Nifer yr eiddo	Y ganran o blith y tai y codir treth arnynt
Aberystwyth	84	1.8%
Aberteifi	33	1.5%
Aberporth	26	2.2%
Llandysul	20	1.5%

Dyma'r bandiau oedran ar gyfer yr Eiddo Gwag Hirdymor yng Ngheredigion ar 30/06/23:

Yn wag ers pryd	Nifer yr eiddo	% o'r cyfanswm
Un i ddwy flynedd	103	17%
Dwy i bum mlynedd	198	33%
Pum i ddeg mlynedd	170	28%
Dros 10 mlynedd	132	22%

2. Y DDEDDFWRIAETH

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 yn diwygio Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac yn darparu ar gyfer bod Cynghorau Cymru yn cynyddu Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor **i ganran heb fod yn fwy na 300%** ar ben y Dreth Gyngor arferol o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 01/04/23 neu wedi hynny.

Mae Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn nodi yn achos Anheddau Gwag Hirdymor:

- 'Annedd wag hirdymor' yw annedd nad yw'n cael ei meddiannu ac sydd heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o flwyddyn o leiaf.
- Os caiff annedd ei dodrefnu neu'i meddiannu am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn, ni fydd hyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor.
- Gall awdurdod bilio bennu canrannau gwahanol yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r annedd wedi bod yn wag (hynny yw, gweithredu fesul cam yn ôl y gwahanol bandiau oedran).

Mae Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn nodi yn achos Ail Gartrefi (sef 'aneddau a feddiennir yn gyfnodol' i roi'r diffiniad technegol):

- Yr amodau yw nad oes preswlydd parhaol a bod yr annedd wedi cael ei dodrefnu'n sylweddol.
- Rhaid i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad cyntaf o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi.

O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'i diwygiwyd), mae dyletswydd ar Gyngorau Cymru i bennu eu cyfrifiadau o sylfaen y dreth gyngor rhwng 1 Tachwedd a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y pennir y Dreth Gyngor ar ei chyfer. Mae gofyn i'r Cyngor roi gwybod i'r awdurdodau praeseptio am ei Sylfaen Dreth erbyn 31 Rhagfyr.

3. CANLLAWIAU LLYWODRAETH CYMRU

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu bod yr awdurdod bilio yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei dogfen ganllaw ym Mawrth 2023, ynghyd â chyhoeddi'r rheoliadau 'hyd at 300%'.

Mae'r Canllawiau yn cadarnhau mai diben y ddeddfwriaeth o ran polisi yw cynnig adnodd i helpu awdurdodau lleol i:

- ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i gael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy; a
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.

Mae ystod o ffactorau eraill yn y Canllawiau megis y dylai awdurdod lleol ystyried sut mae'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol.

4. AMSERLEN AR GYFER GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y DYFODOL

Byddai'n rhaid i'r Cyngor Llawn benderfynu ar lefel premiwm Treth y Cyngor, os bydd newid o gwbl, a byddai angen cymeradwyo hyn erbyn 31/12/23 er mwyn iddo ddod i rym oddi ar 01/04/24 ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25.

Byddai dwy elfen ar wahân wrth newid penderfyniadau presennol y Cyngor Llawn:

- Penderfyniad(au) craidd i newid lefel bresennol premiwm Treth y Cyngor o 25% i ganran newydd ar gyfer naill ai Ail Gartrefi neu Eiddo Gwag Hirdymor, neu'r ddau.
- Gofyniad i ddisodli'r penderfyniadau sy'n bod ar hyn o bryd ynghylch sut y defnyddir yr arian a godir am eu bod oll yn cyfeirio at '*Bremiwm Treth y Cyngor o 25%...*'.

Ni fyddai angen ystyried y ddwy elfen ar yr un pryd, o reidrwydd. Mae'r un gyntaf yn benderfyniad ffurfiol sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth a'r ail yn bolisi/penderfyniad cyllidebol i Geredigion.

5. CASGLIAD

Mae mynd i'r afael â materion ail gartrefi, perchnogaeth tai gwyliau a throsi eiddo preswyl yn dai gwyliau yn flaenoriaeth allweddol yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 y Cyngor, sydd wedi'i chymeradwyo. Mae hyn, a chynyddu'r cyflenwad a'r amrywiaeth o opsiynau parthed tai fforddiadwy yng Ngheredigion, yn rhan allweddol o'r Amcan Llesiant Corfforaethol - 'Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd'.

Mae dyheadau ac amcanion polisi Ceredigion yn cyd-fynd â bwriadau polisi Llywodraeth Cymru i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i gael eu defnyddio unwaith eto ac i helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy. Ar hyn o bryd nid yw 2,289 (6.8%) o dai yng Ngheredigion yn breswylfa i bobl sy'n byw yn y sir yn bennaf oherwydd eu bod naill ai'n Ail Gartrefi neu'n Eiddo Gwag Hirdymor.

Mae'n bwysig ystyried yr ymgysylltu a'r ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn cynnwys yr etholwyr yn eang (trigolion a busnesau) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio ar hyn o bryd gan y premiwm presennol o 25%. Felly cynigir lansio ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a fydd yn para am gyfnod o chwe wythnos o leiaf yn ystod misoedd Medi a Hydref.

Mae Premiwm Treth y Cyngor yn gallu bod yn bwnc emosiynol yn ogystal â phwnc sydd ag elfennau technegol iddo. Cynigir felly sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol - cytbwys yn wleidyddol - o blith yr Aelodau a fydd yn fforwm i dderbyn papurau ymchwil, gwaith modelu, ac adroddiad maes o law ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Hefyd bydd yn cefnogi trafodaethau manwl ar unrhyw newidiadau posib cyn i'r Cabinet ac - yn y pen draw - y Cyngor Llawn ei ystyried ymhellach, os oes cynnig i newid lefel bresennol Premiwm Treth y Cyngor. Bydd Gweithgor o Swyddogion hefyd yn ategu gwaith y grŵp hwn.

**A gwblhawyd Aseiad
Effaith Integredig?
Os naddo, nodwch pam**

Naddo – cyflawnir hyn pan fydd canlyniadau'r
Ymgynghoriad arfaethedig ar gael.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Crynodeb: Hirdymor: Ddim yn berthnasol Integreiddio: Ddim yn berthnasol Cydweithio: Ddim yn berthnasol Cynnwys: Ddim yn berthnasol Atal: Ddim yn berthnasol
Argymhelliad:	<ol style="list-style-type: none">1. Cytuno i ddechrau Ymgynghoriad Cyhoeddus ffurfiol ynghylch lefelau Premiymau Treth y Cyngor yn y dyfodol ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion.2. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i baratoi a lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus.3. Cytuno i sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol o blith yr Aelodau i ystyried Premiymau Treth y Cyngor.4. Nodi y bydd angen i'r Cyngor Llawn ddod i unrhyw benderfyniad ar newid lefel bresennol Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer naill ai Eiddo Gwag Hirdymor neu Ail Gartrefi yng Ngheredigion.
Rheswm dros y penderfyniad:	I gymryd y camau cyntaf angenrheidiol fel bod modd ystyried maes o law lefel Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion.
Trosolwg a Chraffu:	Bydd yr Aelodau i gyd ynghlwm wrth y penderfyniad terfynol ar lefelau Premiwm Treth y Cyngor yn y dyfodol.
Fframwaith polisi:	Strategaeth Tai, Cyllideb y Cyngor
Amcan Llesiant Corfforaethol:	Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd
Goblygiadau ariannol a chaffael:	Dim ar hyn o bryd
Goblygiadau cyfreithiol:	Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod fframwaith cyfreithiol ar gyfer Premiymau Treth y Cyngor: <ul style="list-style-type: none">• Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 - Adrannau 12A a 12B• Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022

Tudalen 364

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'i diwygiwyd)
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022.

Hefyd mae Llywodraeth Cymru wedi creu canllawiau diwedddaredig ac mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r rhain.

Goblygiadau staffio:	Dim ar hyn o bryd
Goblygiadau o ran eiddo/ asedau:	Ddim yn berthnasol
Risg(iau):	Dim ar hyn o bryd
Papurau cefndirol:	Penderfyniadau blaenorol y Cyngor Llawn ar Bremiymau Treth y Cyngor: <ul style="list-style-type: none">• 24/03/16• 16/03/17• 03/03/22
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Duncan Hall
Dyddiad:	19/08/23

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cabinet****Dyddiad y cyfarfod: 5 Medi 2023****Teitl: Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 1****Pwrpas yr adroddiad: Adrodd ar y Gwariant Cyfalaf hyd yma
Er gwybodaeth****Portffolio Cabinet ac Y Cyngorydd Gareth Davies – Gwasanaethau Cyllid a
Aelod Cabinet: Chaffael****1. Y Sefyllfa Gyffredinol**

Mae manylion gwariant diweddaraf y Rhaglen Gyfalaf hyd at ddiwedd mis Mehefin ynghlwm yn Atodiad A.

Cyfanswm y gwariant yw £2.9m. Cyllideb gyffredinol y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn yw £53.2m (ac eithrio Cronfeydd Wrth Gefn).

2. Cynlluniau Newydd – Amrywiannau, Newidiadau yn y Gyllideb

Mae'r gyllideb ddiweddaraf yn adlewyrchu rhaglen ddiwygiedig 2023/24 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 4 Gorffennaf 2023. Hefyd, mae'r cynlluniau newydd a'r newidiadau yn y gyllideb hyd at ddiwedd Mehefin 2023 wedi'u nodi: -

Cynlluniau newydd a gymeradwywyd

- +£161k – Cronfa Tai â Gofal (HCF) - cyllid grant newydd a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24.
- +£73k – E-sgol – cyllid grant newydd a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24.

Newidiadau yn y Gyllideb

- +£76k – Cam Datblygu Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron – mae cyllid grant ychwanegol wedi'i gymeradwyo.
- +£200k – Y Gronfa Gofal Canolraddol – Prosiect Dementia Hafan Deg – mae'r rhanbarth wedi cymeradwyo'r cyllid hwn drwy'r cronfeydd a reolir sydd wedi'u rhaglennu.
- +£186k – Y Gronfa Gofal Canolraddol – Llety Diogel i Blant – mae'r rhanbarth wedi cymeradwyo'r cyllid hwn drwy'r cronfeydd a reolir sydd wedi'u rhaglennu.
- +£16k – Caeau Pob Tywydd –wedi'i drosglwyddo o'r pennawd Uwchraddio Cyfleusterau Canolfannau Llesiant, Chwaraeon Cymru i Gyllid Cyffredinol y Cyngor

3. Derbyniadau Cyfalaf

Ni chyflawnwyd unrhyw dderbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin 2023.

Er mai dim ond y sefyllfa hyd at ddiwedd Chwarter 1 sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn, mae'n briodol ar yr adeg hon roi gwybod i'r Aelodau bod llythyrau cyllido ffurfiol wedi dod i law yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru (ac wedi'u derbyn gan y Cyngor) ar gyfer Cynllun Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron (£1.9m y flwyddyn i ariannu £25.9m o fenthyca), Ysgol Dyffryn Aeron (grant o £10.1m) a blwyddyn gyntaf Bargen Dwf Tyfu Canolbarth Cymru (grant o £4.0m).

Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei monitro bob deufis gan y Grŵp Monitro Cyfalaf. Mae'r Grŵp yn ystyried materion megis datblygiad prosiectau, trosglwyddiadau, llithriadau a goblygiadau sy'n codi wedi hynny, ac yn eu hadrodd i'r Grŵp Datblygu.

Asesiad Effaith Integredig:	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn gwasanaeth na pholisi.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	Hirdymor: Integreiddio: Cydweithio: Cynnwys: Atal:
Argymhelliad:	Nodi'r adroddiad a'r perfformiad ariannol llwyddiannus.
Rhesymau dros y penderfyniad:	Nid oes angen un
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Yn cydymffurfio
Goblygiadau Cyfreithiol :	Dim
Goblygiadau o ran Staff:	Dim
Goblygiadau o ran Asedau / Eiddo:	Dim yn uniongyrchol
Risgiau:	Risg o ddiffyg cyllid os bydd gorwariant sylweddol

Tudalen 367

Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
Papurau Cefndir:	Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd
Atodiadau:	A – Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Liz Jones (Cyfrifydd Cynorthwyol)
Dyddiad:	9 Awst, 2023

Adroddiad Monitro Chwarter 1

	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm y gwariant hyd yma £'000	Y gyllideb sy'n weddill £'000	Nodiadau i'r Cabinet
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000			

Rheolwyr Corfforaethol /Rheolwyr Gwasanaeth

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	NJ	3,537	6,028	9,565	848	8,717	Dim materion i'w nodi
Ysgol Henry Richard	NJ	37	-	37	-	37	Dim materion i'w nodi
Darpariaeth Gofal Plant	NJ	-	1,380	1,380	74	1,306	Dim materion i'w nodi
Prydau Ysgol am Ddim	NJ	798	-	798	10	788	Dim materion i'w nodi
Canolfan trochi iaith a bloc newydd o ddsbarthiadau	NJ	-	1,284	1,284	35	1,249	Dim materion i'w nodi
							Cynllun grant newydd a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24.
Prosiect E-sgol	NJ	-	73	73	-	73	Dim materion i'w nodi
Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol	NJ	2,285	-	2,285	115	2,170	Dim materion i'w nodi
Ysgolion - Systemau gwresogi o dan y llawr	NJ	445	-	445	-	445	Dim materion i'w nodi
Ysgolion - gwaith brys	NJ	150	-	150	3	147	Dim materion i'w nodi

Cyfanswm - Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

7,252	8,765	16,017	1,086	14,931
--------------	--------------	---------------	--------------	---------------

Porth Cymorth Cynnar

Canolfan Lesiant - Llanbedr Pont Steffan	CY	143	122	265	187	78	Dim materion i'w nodi
Canolfannau Llesiant- Gwaith Brys	CY	375	-	375	5	370	Dim materion i'w nodi
Uwchraddio cyfleusterau - Canolfannau Llesiant - Chwaraeon Cymru	CY	224	537	761	30	731	Dim materion i'w nodi
Caeau Chwaraeon Pob Tywydd	CY	107	4	111	101	10	Dim materion i'w nodi
Grantiau i Byllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul	CY	-	89	89	44	45	Dim materion i'w nodi
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	LH	1,400	-	1,400	189	1,211	Dim materion i'w nodi
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	LH	61	-	61	10	51	Dim materion i'w nodi
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	LH	-	146	146	4	142	Dim materion i'w nodi
Y Gronfa Gofal Integredig - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	LH	171	-	171	-	171	Dim materion i'w nodi
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	LH	1,688	-	1,688	-	1,688	Dim materion i'w nodi
							Wedi derbyn y llythyr Cynnig Grant
Cronfa Tai à Gofal – HCF	LH	-	161	161	4	157	Dim materion i'w nodi
Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol	LH	82	-	82	-	82	

Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar

4,251	1,059	5,310	573	4,737
--------------	--------------	--------------	------------	--------------

Adroddiad Monitro Chwarter 1

	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm y gwariant hyd yma £'000	Y gyllideb sy'n weddill £'000	Nodiadau i'r Cabinet
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000			
Rheolwyr Corfforaethol /Rheolwyr Gwasanaeth						

Economi ac Adfywio

Gwaith Trin Carthion	AG	656	-	656	86	570	Dim materion i'w nodi
Gwaith Brys - Arall	AG	100	-	100	23	77	Dim materion i'w nodi
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed	AG	175	-	175	2	173	Dim materion i'w nodi
Buddsoddiadau - Cynlluniau Ynni	AB	750	-	750	-	750	Dim materion i'w nodi
Rhaglen Datblygu Asedau	AD	-	180	180	5	175	Dim materion i'w nodi
Neuadd y Farchnad Aberteifi	AD	369	28	397	-	397	Dim materion i'w nodi
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau	AD	50	-	50	-	50	Dim materion i'w nodi
Grant Gwella Mynediad	AD	-	103	103	12	91	Dim materion i'w nodi
Themâu Blaenoriaethol Partneriaeth Cyflenwi Adferiad Gwyrdd	AD	-	32	32	-	32	Dim materion i'w nodi
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cyfalaf	AD	-	11	11	4	7	Dim materion i'w nodi
Prosiectau Ffyniant Bro	AD	-	5,008	5,008	48	4,960	Dim materion i'w nodi
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi	AD	-	445	445	-	445	Cymeradwywyd ymestyn y prosiect hyd at 31/12/23
Trawsnewid Trefi - Prosiect MASH Aberteifi	AD	540	-	540	-	540	Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynllun ar hyn o bryd
Datblygiad Tai Hafan y Waun	AD	500	-	500	-	500	Mae oedi o ran y gwariant ar hyn o bryd
Cyfanswm - Economi ac Adfywio		3,140	5,807	8,947	180	8,767	

Tudalen 369

Adroddiad Monitro Chwarter 1

	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm y gwariant hyd yma £'000	Y gyllideb sy'n weddill £'000	Nodiadau i'r Cabinet
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000			
Rheolwyr Corfforaethol /Rheolwyr Gwasanaeth						

Porth Gofal

Cylch Caron
Gwaith brys - Cartrefi Preswyl

NL	243	9	252	0	252
NL	100	-	100	-	100

Dim materion i'w nodi
Dim materion i'w nodi

Y Gronfa Gofal Integredig - Prosiect Dementia Hafan Deg

NL	-	200	200	118	82
----	---	-----	-----	-----	----

Mae cais am gyllid grant (sydd wedi'i gymeradwyo gan y rhanbarth) yn cael ei gyflwyno

Y Gronfa Gofal Integredig - Llety Diogel i Blant

NL	200	186	386	7	379
----	-----	-----	-----	---	-----

Mae cais am gyllid grant (sydd wedi'i gymeradwyo gan y rhanbarth) yn cael ei gyflwyno

Uwchraddio Cartrefi Preswyl
Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun

NL	500	-	500	70	430
NL	200	-	200	-	200

Dim materion i'w nodi
Dim materion i'w nodi

Cyfanswm - Porth Gofal

1,243	395	1,638	195	1,443
--------------	------------	--------------	------------	--------------

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Powys a Cheredigion)

CJE	-	1,773	1,773	-	1,773
-----	---	-------	-------	---	-------

Mae'r panel yn cwrdd i drafod ceisiadau a phrosiectau

Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

-	1,773	1,773	-	1,773
----------	--------------	--------------	----------	--------------

Cyswllt Cwsmeriaid

Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh

AM	390	-	390	-	390
----	-----	---	-----	---	-----

Dim materion i'w nodi

Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid

390	-	390	-	390
------------	----------	------------	----------	------------

Adroddiad Monitro Chwarter 1

	Y Gyllideb Ddiweddaraf			Cyfanswm y gwariant hyd yma £'000	Y gyllideb sy'n weddill £'000	Nodiadau i'r Cabinet
	Cyllid Cyffredinol £'000	Cyllid Grant £'000	Cyfanswm £'000			

Rheolwyr Corfforaethol /Rheolwyr Gwasanaeth

Cyllid a Chaffael

Cynllun Grantiau Cymunedol	JD	200	-	200	26	174	Ymrwymadau Cyfalaf hyd ddiwedd mis Mehefin - £146k
Cyfanswm - Cyllid a Chaffael		200	-	200	26	174	

Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Contract Inphase	AW	30	-	30	-	30	Dim materion i'w nodi
Cyfanswm - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd		30	-	30	-	30	
Cyllid i'w ddyrannu		589	-	589	-	589	
		30,567	22,669	53,236	2,854	50,382	

Ymrwymadau a Gariwyd Drosodd

Ymrwymadau a Gariwyd Drosodd		-	-	-	(0)	0	Bydd yr hyn a gronwyd yn 22/23 yn ariannu'r gwariant a gariwyd drosodd yn 23/24
Cyfanswm yr Ymrwymadau a Gariwyd Drosodd		-	-	-	(0)	0	

CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH

Arian wrth gefn	JD	350	-	350	-	350	
Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	JD	200	3,304	3,504	-	3,504	
Cyfanswm - Arian wrth gefn		550	3,304	3,854	-	3,854	

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

		31,117	25,973	57,090	2,854	54,236	
--	--	---------------	---------------	---------------	--------------	---------------	--

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	5ed Medi 2023
Teitl:	Adroddiad Perfformiad Chwarterol Rheoli'r Trysorlys 2023/24
Pwrpas yr adroddiad:	Rhoi adroddiad am Berfformiad Rheoli'r Trysorlys rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2023
Er:	GWYBODAETH
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys 2021 (y Cod). Mae'r cod yn argymhell y rhoddir adroddiad am weithgareddau rheoli'r trysorlys o leiaf bob chwarter o 2023/24 ymlaen.

Diffinnir rheoli'r trysorlys gan CIPFA fel:

“The management of the authority’s investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities and the pursuit of the optimum performance consistent with those risks.”

2. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Dangosir sefyllfa gryno'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau isod, gyda manylion pellach yn cael eu dadansoddi yn Atodiad A (Buddsoddiadau) ac Atodiad B (Dyled).

	<u>Ar</u> <u>31/03/2023</u> <u>£m</u>	<u>Ar</u> <u>30/06/2023</u> <u>£m</u>
<u>Benthyciadau Allanol</u>		
Benthyciadau'r BBGC	101.1	101.1
Benthyciad marchnad	5.8	5.8
Benthyciad Ad-daladwy	0.9	0.9
Llywodraeth Cymru		
Cyfanswm y Ddyled	107.8	107.8

<u>Buddsoddiadau a ddelir</u>		
Mewnol	38.7	41.1
Cyfanswm y Buddsoddiadau	38.7	41.1
Dyled Net	69.1	66.7

3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

Mae gwybodaeth a data ynghylch y sefyllfa economaidd wedi bod yn newid yn gyflym yn ystod 2023. Mae'r diweddariad isod wedi'i ysgrifennu yn ystod mis Gorffennaf 2023.

- Mae'r economi wedi goroesi'r llusgiad o chwyddiant uwch yn well na'r disgwyl yn gyffredinol. Mae'r cynnydd o 0.2% fis ar ôl mis mewn GDP go iawn ym mis Ebrill, y gostyngiad o 0.1% ym mis Mai a'r cynnydd amcangyfrifedig ym mis Mehefin o 0.5% yn codi gobeithion ymhellach y bydd yr economi yn dianc rhag dirwasgiad eleni.
- Mae cydnerthedd diweddar yr economi wedi deillio o lawer o ffactorau gan gynnwys yr adferiad parhaus mewn gweithgarwch ar ôl y pandemig, aelwydydd yn gwario rhywfaint o'u cynilion pandemig, y farchnad lafur dynn a grantiau'r llywodraeth ill dau yn cefnogi incwm aelwydydd.
- Daeth y farchnad lafur yn dynnach dros y chwarter ac ail-gyflymodd twf cyflogau. Roedd y galw am lafur yn gryfach na'r disgwyl.
- Gostyngodd chwyddiant CPI am yr ail fis yn olynol ym mis Gorffennaf 2023 i 6.8%, i lawr o'i uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022.
- Ar 11eg Mai, cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr Gyfradd y Banc 25 pwynt sylfaen i 4.50%, ac ar 22ain Mehefin symudodd y cyfraddau i fyny 50 pwynt sylfaen arall i 5.00%. Codwyd Cyfradd y Banc ymhellach ar 3ydd Awst i 5.25%.

4. Rhagolygon y Gyfradd Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Link Group fel ei ymgynghorwyr trysorlys a rhan o'u gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Mae rhagolygon cyfradd y BBGC isod yn seiliedig ar y Gyfradd Sicr (y gyfradd safonol wedi tynnu 20 pwynt sylfaen).

Mae'r rhagolwg diweddaraf, a wnaed ar 10fed Awst 2023, yn nodi'r farn y bydd cyfraddau llog byrdymor ac hirddyddiedig yn uchel am beth amser wrth i Fanc Lloegr geisio gwasgu chwyddiant allan o'r economi, yn erbyn cefndir o economi ystyfnig o gadarn a marchnad lafur dynn.

Rhagolwg Link Treasury Services o'r Gyfraddau Llog – ar 10fed Awst 2023

	Medi-23	Rhag-23	Maw-24	Meh-24	Medi-24	Rhag-24	Maw-25	Meh-25
Rhagolwg o Gyfradd y Banc	5.50%	5.50%	5.50%	5.25%	4.75%	4.25%	3.75%	3.25%

<u>Cyfradd Benthycia</u> BBGC								
BBGC 5 mlynedd	5.60%	5.30%	5.10%	4.80%	4.50%	4.20%	3.90%	3.60%
BBGC 10 mlynedd	5.20%	5.00%	4.90%	4.70%	4.40%	4.20%	3.90%	3.70%
BBGC 25 mlynedd	5.40%	5.20%	5.10%	4.90%	4.70%	4.50%	4.20%	4.00%
BBGC 50 mlynedd	5.10%	5.00%	4.90%	4.70%	4.50%	4.30%	4.00%	3.80%

5. STRATEGAETH AR GYFER 2023/24

Cafodd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023. Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellir mai blaenoriaethau'r Cyngor o ran buddsoddi yw diogelu cyfalaf a hylifedd. Y nod yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gydnaws â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai'r buddsoddiadau ar gyfer gofynion llif arian craidd yn para am gyfnodau o hyd at 3 mis, ond byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hirach (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi. Mae'r holl fuddsoddiadau yn y flwyddyn hyd yma wedi bod yn unol â'r strategaeth.

Ar yr ochr fenthycia, mae gan y Cyngor falans arian parod gweddol sylweddol ac mae'n cynnal sefyllfa fenthycia fewnol sy'n helpu i gyflawni arbedion refeniw.

6. PORTFFOLIO BUDDSODDIADAU

Mae rhestr lawn o'r buddsoddiadau a ddelir ar 30/06/2023 i'w gweld yn Atodiad A. Mae mwyafrif y buddsoddiadau yn rhai tymor byr, gan sicrhau bod y dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â chyflogau, budd-dal tai a rhediadau taliadau credydwyd yn cael eu cynnwys o fewn mis. Lle mae arian yn caniatáu, ategir y buddsoddiadau hyn â buddsoddiadau sy'n aeddfedu sydd â dyddiad hirach i fanteisio ar enillion uwch.

Mae buddsoddiadau ar gyfer tri mis cyntaf 2023/24 wedi arwain at incwm o £529k yn erbyn cyllideb o £334k gan arwain at amrywiant ffafriol o £195k. Mae hyn oherwydd cyfraddau llog uwch nag a ragwelwyd pan bennwyd y gyllideb.

Y gyllideb blwyddyn lawn ar gyfer incwm buddsoddi yw £1.3m a rhagwelir y bydd incwm o £2.2m yn cael ei gyflawni a fydd yn arwain at amrywiant ffafriol o £0.9m ar gyfer y flwyddyn.

7. PORTFFOLIO BENTHYCIADAU

Yn ystod 2023/24, nid oes dim benthyciadau BBGC newydd wedi'u cymryd hyd yma, er bod disgwyl benthycia'n sylweddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron yn gofyn am tua £26.9m o fenthycia darbodous yn ystod y ddwy flynedd nesaf a fydd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae amseriad a phroffil y gofyniad benthycia hwn yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

Nid oes dim benthyciadau BBGC sydd wedi aeddfedu sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn.

Mae rhestr lawn o'r benthyciadau a ddelir ar 30/06/2023 i'w gweld yn Atodiad B.

8. AILDREFNU DYLEDION

Wrth i'r economi barhau i symud i amgylchedd lle mae cyfraddau llog yn uwch, mae'n bosibl y daw cyfleoedd i aildrefnu dyledion ar gael, nad yw wedi bod yn wir ers dros ddegawd. Bydd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa hon ac yn gwerthuso'r cyfleoedd a ddaw ar gael os bydd balansau'n caniatáu.

Ni ad-dalwyd unrhyw ddyledion yn gynnar ac ni aildrefnwyd unrhyw ddyledion yn ystod y flwyddyn ariannol hon hyd yma.

9. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn Terfynau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Strategaeth Rheoli Trysorlys gymeradwy'r Cyngor. Dangosir Dangosyddion Darbodus 2023/24 yn Atodiad 3.

10. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Services Ltd yn ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys ar contract sy'n rhedeg tan 30/08/2026. Mae Link yn rhoi cymorth drwy roi dadansoddiad o deilyngdod credyd parti i contract buddsoddi, yn rhoi rhagolygon o symudiadau mewn cyfraddau BBGC, yn cynnal adolygiadau Mantolen, yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar newidiadau economaidd a gwleidyddol ynghyd â chyngor ynglŷn ag unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth neu safonau cyfrifyddu.

11. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor contract gyda Barclays ar gyfer darparu gwasanaethau bancio, sy'n rhedeg tan 29/02/2024. Mae Barclays yn fanc sydd wedi'i leoli yn y DU, mae ganddo statws credyd A1 (Moody's) hirdymor ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaeth gwych i'r Cyngor. Mae Barclays wedi arbenigo yn y sector llywodraeth leol ers dros 15 mlynedd ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau bancio trafodiadol i bron i 25% o'r holl awdurdodau lleol ac mae'n dal perthynas trysorlys gyda bron i 70% yn y DU.

Oherwydd bod y contract presennol yn dod i ben yn gynnar yn 2024, mae'r Cyngor yn cynnal ymarfer tendro ar gyfer ei contract gwasanaethau bancio corfforaethol.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam Nac oes: Adroddiad er gwybodaeth
Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:

Tudalen 377

Argymhelliad:	Nodi cynnwys yr adroddiad
Rhesymau dros y penderfyniad:	Nid oes angen un
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd hyn yn ystod y broses ar gyfer cymeradwyo'r Strategaeth
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol
Goblygiadau Ariannol:	Cyllid: Incwm Buddsoddi/Llog allanol sy'n cael ei dalu
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 2003
Papurau Cefndir:	Yr adroddiad ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn (Mawrth 2023)
Atodiadau:	Atodiad A - Portffolio Buddsoddi Atodiad B - Portffolio Dyledion Atodiad C – Dangosyddion Darbodus 2023/24
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall (Cyllid a Chaffael)
Swyddog Adrodd:	Justin Davies (Rheolwr Corfforaethol - Cyllid Craidd)
Dyddiad:	10/08/2023

PORTFFOLIO BUDDSODDI AR 30/06/2023:

Manylion	Gwerth	Cyfradd Llog	Buddsoddiad	
	£	%	O	I
<u>Buddsoddiadau Cyfnod Penodol</u>				
Adnau Cynaliadwy Standard Chartered	£2,000,000	4.27%	07/02/2023	08/08/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£2,000,000	4.87%	04/04/2023	04/10/2023
Goldman Sachs International	£2,000,000	4.47%	14/04/2023	14/07/2023
Bank of Scotland	£500,000	4.36%	17/04/2023	17/07/2023
Goldman Sachs International	£2,000,000	4.60%	25/04/2023	25/07/2023
DMADF	£1,000,000	4.43%	16/05/2023	18/07/2023
DMADF	£1,500,000	4.45%	19/05/2023	21/07/2023
DMADF	£1,500,000	4.47%	22/05/2023	28/07/2023
DMADF	£500,000	4.48%	23/05/2023	28/07/2023
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£2,500,000	4.61%	24/05/2023	25/08/2023
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£1,000,000	4.65%	30/05/2023	30/08/2023
DMADF	£3,000,000	4.56%	31/05/2023	31/07/2023
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£1,000,000	4.65%	31/05/2023	31/08/2023
DMADF	£1,000,000	4.49%	02/06/2023	04/07/2023
DMADF	£500,000	4.50%	02/06/2023	07/07/2023
Adnau Cynaliadwy Standard Chartered	£2,000,000	5.23%	06/06/2023	06/12/2023
DMADF	£2,000,000	4.53%	07/06/2023	07/07/2023
DMADF	£1,000,000	4.55%	08/06/2023	11/07/2023
DMADF	£1,000,000	4.59%	12/06/2023	21/07/2023
DMADF	£1,000,000	4.63%	15/06/2023	21/07/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,000,000	5.49%	16/06/2023	15/12/2023
DMADF	£500,000	4.58%	19/06/2023	07/07/2023
DMADF	£500,000	4.60%	20/06/2023	11/07/2023
DMADF	£500,000	4.61%	21/06/2023	19/07/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,500,000	5.65%	21/06/2023	21/12/2023
DMADF	£500,000	4.90%	26/06/2023	31/07/2023
DMADF	£500,000	4.90%	27/06/2023	31/07/2023
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£1,500,000	5.12%	28/06/2023	29/09/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,000,000	5.95%	28/06/2023	28/12/2023
DMADF	£1,500,000	4.88%	30/06/2023	31/07/2023
	£38,000,000			
<u>Adneuoyn yng Nghyfrif Wrth Gefn Barclays</u>				
Banc Barclays	£3,053,706	4.65%	-	-

Cyfanswm y Buddsoddiadau ar 30/06/23

£41,053,706

Tudalen 379

PORTFFOLIO DYLEDION AR 30/06/2023:

Atodiad B

Cyfeirnod y Benthyciad	Dull Ad-dalu	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Aeddfedu	Cyfradd Llog Gwreiddiol	Balans ar 30/06/23
<u>Benthyciadau'r BBGC</u>					
417195	A	24-Rhag-71	02-Rhag-31	8.000%	17,186
419325	A	21-Maw-72	02-Rhag-31	7.750%	12,026
427730	A	12-Meh-73	02-Meh-33	9.875%	18,613
478179	M	26-Medi-96	31-Maw-56	8.125%	5,000,000
478585	M	10-Rhag-96	30-Medi-56	7.500%	3,000,000
480055	M	13-Hyd-97	30-Medi-57	6.375%	6,000,000
480689	M	27-Maw-98	30-Medi-52	5.875%	2,000,000
481159	M	20-Gorff-98	31-Maw-53	5.500%	3,500,000
490819	M	24-Tach-05	31-Maw-31	4.250%	2,000,000
490981	M	11-Ion-06	31-Maw-51	3.900%	2,000,000
491703	M	07-Meh-06	30-Medi-41	4.350%	2,700,000
491819	M	07-Gorff-06	30-Medi-31	4.500%	5,300,000
491837	M	12-Gorff-06 20-Chwef-	02-Meh-39	4.450%	2,000,000
492936	M	07	06-Awst-32	4.550%	6,000,000
493733	M	10-Awst-07	30-Medi-37	4.750%	9,551,120
501411	A	10-Gorff-12	31-Maw-32	2.860%	1,197,102
501928	A	01-Maw-13	31-Maw-29 06-Chwef-	2.630%	1,242,938
502054	A	28-Maw-13	33	2.860%	1,312,197
502477	A	13-Awst-13	30-Medi-28	3.110%	1,231,839
502596	M	10-Hyd-13 06-Chwef-	09-Hyd-36	4.210%	5,000,000
502827	M	14 06-Chwef-	10-Ion-25	3.660%	3,000,000
502828	M	14	10-Ion-27	3.840%	2,000,000
502981	A	09-Ebr-14	31-Maw-34	3.680%	1,467,848
502982	A	09-Ebr-14	30-Medi-28	3.230%	1,739,153
503489	M	25-Tach-14	31-Maw-45	3.670%	5,000,000
503490	A	25-Tach-14 09-Chwef-	31-Maw-44	3.400%	1,135,333
503728	M	15 09-Chwef-	31-Maw-60	2.750%	4,000,000
503729	M	15 04-Chwef-	31-Maw-61	2.750%	4,000,000
504645	A	16	30-Medi-45	2.760%	2,148,820
506318	M	06-Medi-17	01-Medi-28	1.970%	2,000,000
506319	M	06-Medi-17	01-Medi-46	2.560%	6,000,000
507963	M	30-Hyd-18	31-Maw-34	2.500%	2,000,000
507964	M	30-Hyd-18	30-Medi-48	2.460%	1,800,000
508214	M	13-Rhag-18	30-Medi-39	2.520%	2,000,000
509622	M	08-Awst-19	30-Medi-58	1.970%	2,000,000
509623	M	08-Awst-19	30-Medi-34	1.730%	1,800,000
					101,174,174
<u>Benthyciad Marchnad</u>					
Barclays	M	20-Meh-16	13-Medi-66	3.660%	5,750,000

Tudalen 380

Benthyciad Ad-daladwy Llywodraeth Cymru

Benthyciad Gwella Tai ac Eiddo Gwag 1	M	06-Maw-15	31-Maw-30	0.000%	556,075
Benthyciad Gwella Tai ac Eiddo Gwag 2	M	27-Maw-20	31-Maw-35	0.000%	250,000
Benthyciad Gwella Tai ac Eiddo Gwag 3	M	19-Chwef- 21	31-Maw-27	0.000%	80,000
					886,075
 CYFANSWM					 107,810,249

Allwedd: A = Annuity (Blwydd-dâl) M = Maturity (Benthyciad sy'n aeddfedu)

Dangosyddion Darbodus yn ymwneud â Rheoli'r Trysorlys**Dyled gros a'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf**

Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd dyled dros y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw dyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofnion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae'r swyddog Adran 151 yn dweud na chafodd yr awdurdod ddim anhawster i fodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23, ac ni ragwelir dim anawsterau ar gyfer y flwyddyn gyfredol na blynyddoedd y dyfodol. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf 3 blynedd.

Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol

	2023/24	2024/25	2025/26
	£m	£m	£m
Benthyca	155	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	12	12
Cyfanswm	162	175	180

Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol

	2023/24	2024/25	2025/26
	£m	£m	£m
Benthyca	149	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	11	11
Cyfanswm	155	168	173

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca

	Terfyn uwch	Terfyn is
O dan 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd ac uwch	95%	25%
<u>Is-gategori o fewn 10 mlynedd ac uwch</u>		
50 mlynedd ac uwch	20%	0%

Terfyn uwch ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddwyd am fwy na blwyddyn

2023/24	2024/25	2025/26
£2.5m	£2.5m	£2.5m

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol